# ASESIAD O LESIANT LLEOL CEREDIGION

Atodiadau 1-12

2022

# Methodoleg ar y Cyd
# Joint Methodology

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**Awdur** / Author: **Grwpiau Rhanbarthol Sir Caerfyrddin, Ceredigion & Sir Benfro** / Carmarthenshire, Ceredigion & Pembrokeshire Regional Working Group
**Dyddiad cymeradwywyd** / Date approved: Not yet approved
**Dyddiad cyhoeddi** / Publication date: Not yet published


# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb Methodoleg ar y Cyd | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| Cefndir | 2-5 |
| Y Methodoleg | 5-13 |
| *Adolygiad Data (Dadansoddiad Sefyllfa)* | 5-8 |
| *Dadansoddiad Manwl (Dadansoddiad Ymateb)* | 8-9 |
| *Ymgysylltu ac Ymgynghori* | 9-12 |
| *Yr Asesiad Terfynol a'r Camau Nesaf (Dadansoddiad Adolygol)* | 12-13 |
| Monitro a Cyflwyno | 14 |
| Casgliad | 15 |
| Atodiad 1 – Llinell Amser yr Asesiad o Lesiant Lleol | 16 |

# Asesiad o Lesiant Lleol

## CRYNODEB METHODOLEG AR Y CYD

Strwythur y grwpiau gweithio a fydd yn llunio'r Asesiad o Lesiant Lleol.







Mae'r Adolygiad o Ddata a'r Dadansoddiad Manwl yn ffurfio rhan o'r Asesiad o Lesiant Lleol. Mae'r Dadansoddiad Manwl hefyd yn bwydo'n uniongyrchol mewn i'r Cynllun Llesiant Lleol.

Dull Cyfnodau Bywyd - defnyddiwyd gan y BGC i ymgymryd â'r Asesiad o Lesiant Lleol.








Y Pedwar Cam tuag at gyflawni'r Asesiad o Lesiant Lleol.

Ymrwymiad ac Ymgynghoriad bydd prif yrrwr yr Asesiad o Lesiant Lleol a fydd yn cynnwys amrywiaeth o grwpiau.




## MAWRTH 2022
## CYHOEDDI'R ASESIAD O LESIANT LLEOL TERFYNOL

# Fframwaith Methodoleg ar y Cyd yr Asesiad o Lesiant Lleol

## Cyflwyniad


Mae'r fethodoleg hon yn amlinellu'r dull safonol i gynnal yr Asesiad o Lesiant Lleol ar draws ardaloedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yn ystod 2021/22. Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth rhwng y sefydliadau BGC. Pwrpas y fethodoleg yw arwain y tri BGC wrth iddynt gyflawni eu Hasesiadau o Lesiant Lleol mewn ymgynghoriad â phartneriaid, rhanddeiliaid a dinasyddion. Mae'n nodi'r dull safonol i gynnal casgliad y data, dadansoddiad y data, ymgysylltu ac ymgynghori ar lesiant ar draws y tair ardal, ynghyd a'r amserlenni ar gyfer eu cwblhau erbyn Mawrth 2022.

## Cefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD) yn gofyn i bob BGC baratoi a chyhoeddi Asesiad o gyflwr y llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal, blwyddyn cyn iddynt gyhoeddi ei Gynllun Llesiant Lleol. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant sy'n darparu'r weledigaeth a'r uchelgeisiau ar gyfer y Gymru yr ydym ei eisiau heddiw ac yn y dyfodol, ac yn cydnabod pwysigrwydd cydweithredu rhwng cyrff i'w cyflawni.

Bydd yr Asesiad o Leisiant Lleol yn darparu'r sylfaen dystiolaeth i osod yr amcanion yn y Cynllun Llesiant Lleol 5-mlynedd. Mae'n ofynnol i'r BGC osod yr amcanion hyn mewn ffordd sy'n unol a'r egwyddor datblygu gynaliadwy, h.y., gweithredu mewn modd sy'n ceisio "sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain".  Yng nghyd-destun yr amserlenni disgwyliedig ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol bydd rhaid cyhoeddi'r asesiadau erbyn mis Mawrth 2022. Mae'r diagram isod yn dangos cylch cynllunio'r BGC o dan Ddeddf LICD.

Ffig 1. Cylch Cynllunio’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru)




Mae’r tair BGC wedi cytuno i fabwysiadu dull tebyg i gynhyrchu’r asesiadau fel y tro diwethaf, trwy weithio mewn partneriaeth a mabwysiadu fframwaith methodoleg ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r dull ‘camau bywyd’ yn yr asesiadau, gan dynnu sylw at wahaniaethau a thebygrwydd mewn profiadau o les trwy gydol oes person. Mae yna bump cam bywyd, sef, Dechreuadau Newydd; Plentyndod; Ieuenctid; Oedran Gweithio; Oedolion hŷn . Mae’r dull hyn yn cyfateb i dystiolaeth bod ein lles personol yn newid dros amser.

Ffig 2. Y Dull Camau Bywyd a fabwysiadwyd Gan y Tri BGC




Mae’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn bartneriaethau o adrannau gwasanaethau cyhoeddus sy’n gweithio gyda’i gilydd i wella gwasanaethau lleol. Maen nhw'n cynnwys aelodau statudol y BGC a

sefydliadau arall ar draws y bartneriaeth. Mae'r BGC wedi cytuno y bydd aelodau'r BGC/BPR yn cydweithio ar yr asesiad i sicrhau eu bod yn cael eu ffurfio gan ddefnyddio arbenigedd, gwybodaeth a mewnwelediad yr holl bartneriaid i osgoi dyblygiad a rhannu adnoddau.

Bydd rhwydwaith y BGC/BPR yn arwain cynhyrchiad y fethodoleg ar y cyd, gyda chynrychiolyddion oddi wrth sefydliadau'r BGC yn ffurfio'r Data, Ymrwymiad a'r Grŵp Ysgrifennu i gynhyrchu pob rhan o'r asesiad, fel enghraifft, bydd arweinwyr data'r BGC yn arwain ar y rhan dadansoddi data. Mae gweithio yn effeithiol mewn partneriaeth erioed wedi bod mor bwysig ar draws pob sector - mae rhai o'r heriau oedd yn bodoli yn barod yn rhanbarth canol a de-orllewin Cymru wedi'i amlygu'n ddiweddar (e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, anghydraddoldebau incwm, newid yn yr hinsawdd ac ati), ac mae rhai newydd wedi dod i'r amlwg, fel anghydraddoldebau iechyd a digideiddio. Mae pandemig COVID-19 yn enghraifft dda o hyn.

Bydd yr ail rownd o asesiadau hefyd yn rhoi cyfle i ystyried darganfyddiadau'r asesiad diwethaf a'r adborth gan ddinasyddion, rhanddeiliaid, ac yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr asesiadau diweddaf yn cael ei defnyddio fel gwaelodion ar gyfer diweddaru a choethder, trwy adeiladu ar y dysgu o'r rownd gyntaf. Mae hyn yn cynnwys:

- Mwy o ffocws ar **ddadansoddi beirniadol a dehongliad** data i lywio ein blaenoriaethau llesiant.
- **Adlewyrchu cyfyngiadau a bylchau data'r** asesiad a sut mae modd goresgyn y rhain.
- **Asesi lesiant at lefel is** e.e. cymunedau ac ardaloedd o fewn ardal y BGC.
- Ymgorffori "meddwl y dyfodol" trwy **ystyried yr anghenion tymor hir** yn yr ardaloedd a hefyd yn y tymor bir.
- Cadarnhau bod **rhaglen ymrwymiad eang** yn cael ei sefydlu gall tanategu pob rhan o ddatblygiad yr asesiadau.
- Arddangos **ymwneud a chydweithio** wrth ddatblygu'r asesiadau gyda sefydliadau'r trydydd sector.

Bydd y fethodoleg yn esbonio ein dull ar y cyd at gynhyrchiad yr Asesiad o Lesiant Lleol o dan bedwar rhan:

Ffig 3. Y Pedwar Rhan i gynhyrchu'r Asesiad o Lesiant Lleol




## Methodoleg

### Adolygiad Data



Y cam cychwynnol wrth gynhyrchu'r Asesiad o Lesiant Lleol ydy'r adolygiad o ddata, sy'n cynnwys ymarfer casglu a dadansoddi data cynhwysfawr o'r dystiolaeth bresennol. Bydd y cam yma yn cael ei ymgymryd mewn partneriaeth agos gydag aelodau'r BGC a sefydliadau perthnasol arall ac mae yn aml yn cael ei chyfeirio at fel y 'Dadansoddiad Sefyllfa'.

Nod yr adolygiad data yw dadansoddi llesiant diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mewn ardal, er mwyn adeiladu dealltwriaeth gyd-destun yr ardal, ei heriau a'r cyfleoedd sydd yn bodoli. Wrth ddefnyddio'r dull yma byddwn yn dechrau tynnu sylw at ardaloedd sydd angen i ni flaenoriaethu er mwyn mynd i'r afael a'r heriau rydym yn wynebu nawr ac yn y dyfodol, er mwyn gwella llesiant hirdymor bob sir. Byddwn yn cyflawni hyn trwy adnabod:

- Cryfderau ac asedau ein pobl a'n cymunedau.
- Yr heriau a'r cyfleoedd a wynebir nawr ac yn y dyfodol.

Bydd yr asesiadau'n cael ei hysbysu gan amrywiaeth eang o ddata, ymchwil gwladol a lleol, ac adborth a darparwyd i ni gan bartneriaid, rhanddeiliaid a dinasyddion trwy ymgynghori yn ystod haf 2021. Er mwyn cychwyn y cyfnod o adolygu data, bydd y BGC/BPR ar draws y tair ardal, yn dod at ei gilydd fel dadansoddwyr data ac ymchwilwyr, trwy'r cyfarfodydd Rhwydwaith misol, gyda'r nod cyffredinol o gymharu â dadansoddi tystiolaeth berthnasol.

Bydd y BGC yn lluniadau ar yr amrywiaeth o ffynonellau sydd ar gael i ymgymryd â'r adolygiad data, mae'r rhain nai llai ar gael yn genedlaethol neu trwy ffynonellau lleol:

- Set Data Craidd a Chatalog Data o Ddata Cymru (ar gael Mai 2021)

- Briffiau Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar Gydraddoldeb, Lles Diwylliannol ac Effaith Covid-19 a Brexit (adroddiadau cychwynnol ar gael Mehefin 2021 ac adroddiad terfynol Awst 2021)
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru (adroddiadau cychwynnol ar gael yn Fehefin 2021)
- Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (ar gael 2021)
- Adroddiadau cenedlaethol a lleol Archwilio Cymru (ar gael ar sail barhaus)
- Data Lleol gan sefydliadau partner y BGC trwy ymarfer ymgysylltu (I'w cynnal Mai 2021)

Er bod yr adolygiad data yn debygol o fod yn bennaf yn feintiol, megis defnyddio data cyfnod amser a phatrymau gofodol, bydd y BGC hefyd yn lluniadu ar dystiolaeth ansoddol sydd ar gael trwy bartneriaid a darparwyr gwasanaethau lleol. Byddwn yn ymgysylltu gyda phartneriaid y BGC yn gynnar yn y proses er mwyn adnabod data lleol a ffynonellau tystiolaeth gall hysbysu'r asesiad, mae hyn yn debygol o fod yn gymysgedd ehangach o ddata meintiol ac ansoddol.

Fel y cymeradwywyd yng nghyfarfodydd y BGC ym mis Chwefror 2021, rôl y tri Phrif Gynghorau sef Sir Caerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yw cyd-drefnu'r broses o baratoi'r asesiad. Dyma'r un dull a fabwysiadwyd yn yr asesiadau blaenorol.

Er hynny, mae gan bartneriaid y BGC a rhanddeiliaid arall rôl allweddol i chware mewn hyrwyddo ei gynhyrchiad, yn enwedig trwy'r ddarpariaeth o dystiolaeth leol, cymryd rhan yn y proses ymgysylltu a monitro'r prosiect hyd at ei gwblhad. Bydd y dull cydweithredol yma i gynhyrchu'r asesiad, rhwng partneriaid y sector cyhoeddus, y trydydd sector ac eraill o ran darparu data, dadansoddi data a dehongliad data.

Bydd yr Asesiad o Lesiant Lleol angen cynnwys dadansoddiad o gyflwr y llesiant yn bob ardal gymunedol ac ar draws ardal y BGC ar y cyfan. Mae'r Arweiniad Statudol 'Rhannu pwrpas: rhannu dyfodol' yn gofyn i'r BGC adnabod Ardaloedd Cymunedol daearyddol sydd yn cynnwys yr ardal i gyd er mwyn cynhyrchu'r Asesiad o Lesiant Lleol. Mae'r arweiniad yn gosod allan y meini prawf gall defnyddio er mwyn diffinio ardaloedd:

- Darparu ymdriniaeth cynhwysfawr o'r ardal BGC cyfan h.y., dylent fod yn ardaloedd cyffiniol ac annibynnol o fewn ardal y BGC.
- Dylent adnabod gwahaniaethau cymdeithasol ac eraill gyda gwahaniaeth gofodol amlwg, megis patrymau o amddifadedd, tlodi, anghydraddoldebau iechyd, neu sefyllfa'r iaith Gymraeg.
- Dylent fod yn ddigon mawr i dangos gwahaniaethau rhyngddynt a chael synnwyr o hunaniaeth ond ddim mor fach â wardiau etholiadol.

- Dylent gyfateb i'r ffiniau o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA).

Yn y rownd gyntaf o Asesiadau, cytunwyd y tri BGC i ddefnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch (USOA) y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Amlygwyd adborth bod y ddaearyddiaeth yma yn annigonol i asesu cyflwr llesiant ar lefel cymunedol. Bydd Rhwydwaith y BGC/BPR yn ystyried manteision opsiynau amrywiol er mwyn penderfynu'r lefel o ddaearyddiaeth sydd angen ar gyfer yr Ardaloedd Cymunedol, er mwyn caniatáu dadansoddiad gwell. Yn unol â'r Arweiniad, sy'n gofyn am "dadansoddiad o'r llesiant yn bob ardal gymunedol", byddwn yn cynhyrchu proffiliau cymunedol ar gyfer pob ardal ac yn cynnwys fel atodiad i'r Asesiad.

Yn ystod y rownd gyntaf o Asesiadau, nodwyd adborth o Lywodraeth Cymru themâu cyffredin er mwyn cryfhau'r dull cyffredinol a gymerwyd. Rhain oedd:

Tabl 1: Sut rydym yn bwriadu datrys y materion a godwyd gan Lywodraeth Cymru yn yr asesiadau

| Mater | *Datrysiad* |
|---|---|
| • Adnabod ardaloedd cymunedol mwy lleol a deall yr heriau o fewn y cymunedau yma. | *Adolygu'r ardaloedd cymunedol lleol mabwysiadwyd yn bob asesiad.* |
| • Mwy o ffocws ar Lesiant grwpiau unigol a/neu gymunedau ar draws yr ardal. | *Cynhyrchu proffiliau ar gyfer yr ardaloedd cymunedol a mabwysiadwyd yn seiliedig ar dempled safonol.* |
| • Cysylltu/mapio'r dull camau bywyd gyda'r nodau Llesiant. | *Dangos y cysylltiadau rhwng y pump cam bywyd a'r Nodau Llesiant.* |
| • Dadansoddi effaith Llesiant dros y tymor byr, canolig a hir. | *Bydd y dadansoddiad data yn edrych ar dueddiadau'r dyfodol, a chynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau posibl y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal.* |
| • Adnabod bylchau mewn tystiolaeth er mwyn deall beth fydd efallai angen yn y tymor bir, canolig a hir. | *Bydd yr asesiad yn adnabod unrhyw gyfyngiadau adnabyddus yn y dystiolaeth ble mae angen i ni wella ein hymwybyddiaeth a'r goblygiadau o hyn i'r Dadansoddiad Ymateb.* |
| • Datganiad ar sut ydym yn ymgymryd y proses. | *Bydd y crynodeb methodoleg a chytunwyd arno yn cael ei chynnwys yn yr asesiad.* |

| | |
|---|---|
| • Roedd gan y Dadansoddiad Ymateb gormod o bwyslais ar waith Meintiol ac angen mwy o bwyslais ar y gwaith Ansoddol. | *Bydd y Grŵp Ysgrifennu yn cyfeirio ar y cydbwysedd rhwng dadansoddiad meintiol ac ansoddol.* |

Rydym yn ymwybodol o'r cyfyngiadau data wrth gyflawni'r Asesiad o Lesiant Lleol. Mae'n debygol bydd bylchau wrth gasglu data ar draws y tri BGC, yn enwedig o fewn yr ystadegau ardal fach. Hefyd, bydd yn bosibilrwydd bod y maint sampl o'r data cynradd a gasglwyd ar gyfer yr Ardaloedd Cymunedol yn mynd i fod yn annigonol, ac felly ddim yn cynrychioli'r boblogaeth gyfan. Er mwyn sicrhau eglurder a chredadwyaeth, bydd yr asesiadau yn amlygu'r cyfyngiadau yma a'r bylchau mewn data, ac mewn amser bydd hyn yn amlygu ardaloedd testun sydd angen fwy o wybodaeth a chasgliad data.

## Dadansoddiad Manwl

Bydd yr Asesiad o Lesiant Lleol hefyd yn cynnwys ffurf fwy manwl o ddadansoddi, er mwyn datblygu esboniadau ac archwilio achosion tueddiadau yn lle disgrifio patrymau a thueddiadau. (Mae hyn hefyd yn cael ei chyfeirio at fel 'Dadansoddiad Ymateb').

Mae Dadansoddiad Ymateb yn ddull mwy manwl o ddadansoddi, sydd yn defnyddio tystiolaeth mewn ffordd fwy heriol a gwerthusol i archwilio'r ffactorau sydd yn gyrru neu achosi'r patrymau a thueddiadau chwiliwyd yn y dadansoddiad sefyllfa. Bydd hyn yn hysbysu'r detholiad o flaenoriaethau ar gyfer ardaloedd lleol, gan y BGC, mewn amser bydd hyn yn hysbysu trafodaethau o amgylch cynnwys y Cynllun Llesiant Lleol.

Mae Dadansoddiad Ymateb yn tueddu i beidio â chynnwys cymaint mewn Asesiadau o Lesiant Lleol i gymharu â'r Dadansoddiad Sefyllfa, gan fod ei phrif rôl mewn cysylltiad â'r Cynllun Llesiant Lleol. Er hyn, ble mae tystiolaeth yn caniatáu, bydd yr asesiad yn cynnwys Dadansoddiad Ymateb. Er enghraifft, ble mae gwerthusiad yn dangos os bod gwasanaethau presennol yn effeithiol, ble mae data yn darparu dealltwriaeth gryfach o'r effeithiau a ble mae'r dystiolaeth eang yn glir ar ba ddynesfeydd sydd yn debygol o weithio. Bydd hefyd yn cael ei defnyddio i adnabod is-set o bynciau ar gyfer ardaloedd y BGC i ddadansoddi mewn mwy o fanylder wrth baratoi am y Cynlluniau Llesiant.

Bydd pob sefydliad sydd yn ymwneud a chynhyrchiad yr asesiadau yn parhau i fod yn ymwneud a phroses y cynlluniau Llesiant, trwy adnabod gweithredai ymatebol, trwy fonitro a trwy gyflawni'r Cynllun Llesiant dros y pum mlynedd nesaf.

Mae datblygiad y system Gwybodaeth Ddigidol, sydd yn debygol o fod yn weithredol yn Fehefin 2021, wedi'i dylunio i gynorthwyo cynhyrchiant a monitro Llesiant ar draws ardaloedd y BGC. Bydd yn darparu ystorfa ganolog i bob aelod y BGC, rhanddeiliaid a dinasyddion i gyfrannu at y recordio cyfredol a'r dadansoddiad o dystiolaeth sydd yn ymwneud a Llesiant, ac ar y cyfan yn cryfhau Asesiadau o Lesiant Lleol a Chynlluniau Llesiant yn y dyfodol. Mae hyn yn ffitio gyda'r arweiniad diweddar oddi wrth Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd yn awgrymu bod yr asesiadau angen cael i'w edrych arno fel dogfen 'datblygol' i ddiweddaru pan a pryd mae tystiolaeth newydd ar gael. Am y rhesymau yma bydd Rhwydwaith y BGC/BPR yn parhau i weithio ar ddatblygu asesiadau yn y flwyddyn i ddod.

Ffig 4. Rôl Adolygu Data a Dadansoddi Data yn yr Asesiad o Lesiant Lleol




## Ymrwymiad ac Ymgynghoriad




Mae ymrwymiad yn yrrwr allweddol i broses yr Asesiad o Lesiant Lleol, mae'n galluogi ni i recordio ac ystyried barnau amrywiol o bartneriaid, rhanddeiliaid a dinasyddion, i ennill dealltwriaeth gwbl adlewyrchol o anghenion pob ardal y BGC.

Mae cynnwys pobl a chymunedau yn effeithiol, yn rhan angenrheidiol o wella llesiant. Bydd ymrwymiad gwell yn arwain at roi mwy o bŵer i unigolion a chymunedau, bydd hyn yn creu synnwyr o falchder a pherchnogaeth yn ein hardaloedd ac yn galluogi ni i adeiladu cyfalaf cymdeithasol.

Byddwn yn datblygu Cynllun Ymrwymiad manwl er mwyn darparu dull safonol i gynnal ymrwymiad, a byddwn yn rhoi hwn yn ei le ar ddechrau'r prosiect yn

Mai 2021. Bydd y Cynllun yn enwi ein technegau ymrwymiad ac ymgysylltiad i ddefnyddio, er mwyn cwblhau y rhan yma o'r asesiad ac i uchafu mewnbwn. Pwrpas y rhan yma yw ennill dealltwriaeth gwbwl adlewyrchol ac ansoddol o'r anghenion yn yr ardal(oedd) ac i ganfod pa wybodaeth a chasglwyd yn ystod y dadansoddiad sefyllfa, sydd yn darparu mesur cywir o lesiant.

Ffig. 5 Ymrwymiad ac Ymgynghoriad fel Gyrrwr Allweddol




Bydd amryw o dechnegau yn cael ei defnyddio er mwyn cynyddu cyrhaeddiad y gynulleidfa i'r eithaf ac i sicrhau bod ein hymrwymiad yn hygyrch i bawb. Mae hyn yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i, Arolygon, Grwpiau Ffocws, digwyddiadau Rhanddeiliaid a gweithdai is-grwpiau y BGC.

Cafodd arolwg Llesiant i'w chynnal fel rhan o'r asesiadau diwethaf, a byddwn yn rhedeg gweithgaredd tebyg y tro yma, gan adeiladau ar y wybodaeth a chafodd ei darganfod yn flaenorol. Bydd yr Arolwg Llesiant ar-lein, yn cael ei ddatblygu ar y cyd gan Gynghorau Sir Ceredigion, Sir Caerfyrddin a Sir Benfro a gan aelodau arall y BGC. Bydd y Cyngor sydd yn cynnal yr arolwg, yn daprau canlyniadau i bob sir, bydd y rhain wedi'i rhannu yn ddibynnol ar fan preswylio. Bydd dulliau traddodiadol o ymrwymo e.e., trwy'r post a dros y ffôn hefyd yn cael i'w defnyddio, er mwyn cadarnhau bod gan bawb y cyfle i gymryd rhan. Bydd y dulliau ymrwymiad arall megis, grwpiau ffocws, digwyddiadau rhanddeiliaid a gweithdai is-grwpiau'r BGC, yn cael ei chytuno yn rhanbarthol ond ei chynnal yn lleol.

Roedd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (GCLl) wedi cyflwyno dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi asesiad o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth. Mae'r tabl isod yn amlygu anghenion ymrwymiad y Ddeddf LlCD a'r Ddeddf GCLl.

Tabl 2: Anghenion ymrwymiad y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

| Testun | Deddf LlCD | Deddf GCLl |
|---|---|---|
| Grwpiau poblogaeth allweddol | Cymunedau yn yr ardal<br>Cymunedau o ddiddordeb yn yr ardal<br>Cynghorau tref a cymunedol<br><br>Grwpiau allweddol awgrymwyd yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb (hefyd plant bregus/dan anfantais, pobl ifanc a phobl gydag anghenion gofal a chymorth) | Gofalwyr a phobl gydag anghenion gofal gan gynnwys plant & phobl ifanc.<br>Anabledd Corfforol<br>Anabledd Dysgu<br>Iechyd Meddwl<br>Pobl hŷn<br>Dioddefwr camdriniaeth ddomestig |
| Cyd-destun 'Llesiant' | Economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol | Unigol (gofalwyr a'r rhai gydag anghenion gofal) |
| Graddfa'r asesiad | Ardaloedd y Sir ac ardaloedd cymunedol | Rhanbarth (gyda dimensiwn Sir) |

Fel canlyniad o'r gyffelybiaeth rhwng y ddwy Ddeddf, ble mae'n bosib, bydd ymrwymiad yn alinio i ymateb i anghenion y ddau, er enghraifft, cynnwys cwestiynau sydd yn cyfateb i'r Asesiad Anghenion Poblogaeth o fewn yr Arolwg Llesiant ar-lein. Bydd hyn yn osgoi dyblygiad gwaith a 'blinder ymrwymiad'. Byddwn yn ymrwymo gydag amrediad eang o bobl o bob oedran, er mwyn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned ac i ymofyn o'r rhai fydd efallai yn anodd ei chyrraedd:

- Dinasyddion
- Busnesau
- Grwpiau Cymunedol
- Sefydliadau Trydydd Sector
- Partneriaid y BGC
- Undebau Llafur
- Darparwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Arall

Fel rhan o'r Cynllun Ymrwymiad bydd ymarfer mapio rhanddeiliaid yn cael ei ymgymryd yn lleol, er mwyn canfod y grwpiau o'r rhestr uchod bydd yn cael ei ymrwymo efo. Bydd y cyfnod ymrwymiad yn dod i ben yn Haf 2021, yna bydd

dadansoddiad o'r darganfyddiadau, y bwriad yw bod hyn yn cael i'w cwblhau erbyn Hydref 2021.

Bydd y BGC yn ymgynghori ar ddrafft yr asesiadau gyda'r grwpiau a nodwyd uchod. Bydd y proses ymgynghori yn sicrhau bod unrhyw fylchau yn cael i'w lenwi a bod pob grŵp yn hapus efo'r ffordd mae llesiant yn cael ei chyflwyno. Bydd hyn yn digwydd rhwng Medi a Rhagfyr 2021, cyn cael ei chyhoeddi a chopïau i'w cyflwyno i Weinidogion Cymraeg, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor arolwg ac archwiliad yr awdurdodau lleol.

Er mwyn sicrhau bod yr asesiadau yn gynhwysol o bawb, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau a dinasyddion sydd yn cynrychioli'r grwpiau yma (e.e., pobl hyn, pobl gydag anabledd, pobl ddi-waith a phreswylwyr sydd yn anweithredol yn economaidd) er mwyn ennill dealltwriaeth well o'r rhwystrau i gyfranogiad a sut gall y rhain cael ei goresgyn. Yn ogystal, mae rhanddeiliaid y BGC/BPR yn cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi, sydd yn cael i'w cynnal gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, sydd yn helpu cyfeirio at rhai o'r problemau, wrth hefyd darparu cyfleoedd i rannu ymarferion orau ymrwymiad.

Mae'r tri phrif gyngor ar hyn o bryd yn profi *system ymrwymiad cymunedol* newydd, gall cael ei defnyddio i reoli ymrwymiad ac ymgynghoriad yr Asesiad o Lesiant Lleol. Er bod y system yn cael ei phrofi ar hyn o bryd, bydd yn darparu nifer o nodweddion er mwyn gwneud ymrwymiad yn fwy rhyngweithiol, darparu sianelu ychwanegol a chynnal yr ymrwymiad gan ongli rhai effeithiau bydd pandemig Covid-19 yn cael ar y cyfnod ymrwymiad. Yr obaith ydy bod y system ar gael i gefnogi'r cyfnod ymrwymiad yn ystod gwanwyn a haf 2021.

Mae pandemig Covid-19 yn peri sialensiau penodol ar ymrwymiad gyda phartneriaid y BGC, y cyhoedd a rhanddeiliaid oherwydd problemau galledd a newidiadau i'r ffordd gall ymrwymiad cael ei chynnal. Bydd ymrwymo gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn angenrheidiol oherwydd rôl allweddol nhw wrth amddiffyn a gwella iechyd a llesiant ar draws Cymru. Ond, gall hyn bod yn sialens oherwydd pwysau ychwanegol sydd wedi gosod ar y Bwrdd Iechyd wrth iddynt weithio ar ymateb Covid-19. Yn ogystal, mae'n debygol bod ymrwymiad ac ymgynghoriad mynd i gael ei chynnal ar-lein. Oherwydd hyn, bydd angen gwneud yn siŵr bod barnau grwpiau penodol (e.e., y rhai sydd yn methu sgiliau digidol neu sydd ddim efo mynediad at y wê) ddim yn cael i'w gadael allan o'r broses ymrwymo.

## Yr Asesiad Terfynol a’r Camau Nesaf

Mae elfen olaf ac elfen derfynol proses yr asesiad yn cynnwys gwerthuso a dadansoddi darganfyddiadau'r ymchwil a’r ymrwymiad, er mwyn datblygu crynodeb o’r anghenion yn bob ardal y BGC. (Mae hyn hefyd yn cael ei chyfeirio at fel y ‘Dadansoddiad Adolygol’).

Bydd Swyddogion yn dod at ei gilydd i ddehongli ac asesu'r darganfyddiadau meintiol ac ansoddol, er mwyn adeiladu darlun cynhwysfawr o lesiant i hysbysu’r Cynlluniau Llesiant Lleol nesaf. Bydd y dystiolaeth yn galluogi ni i adnabod a blaenoriaethu'r materion sydd fwyaf pwysig yn lleol, ac i gychwyn archwilio mewn i sut allant gael i'w ddatrys. Bydd y rhan yma yn galluogi'r BGC i ddatblygu crynodeb o’r anghenion yn ei ardal, ymateb y BGC ac i ddarganfod y dangoswyr sydd yn medru cael ei defnyddio i fonitro anghenion yn y dyfodol.

Yn benodol bydd y Grŵp Ysgrifennu yn sicrhau bod yr asesiad:

- Yn adnabod y cymunedau sydd o fewn yr ardal(oedd).
- Asesi gyflwr Llesiant yn unigol (yn gymunedol).
- Asesi gyflwr Llesiant ar y cyfan (ardal y BGC).
- Cynnwys rhagfynegiadau tueddiadau’r dyfodol.
- Arddangos y cysylltiadau i'r Nodau Llesiant a’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o’r Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

Prif bwrpas yr asesiadau ydy i ddarparu sylfaen tystiolaeth ar gyfer y Cynlluniau Llesiant Lleol.

### Y Camau Nesaf

Yn dilyn cyhoeddi’r Asesiadau o Lesiant Lleol, bydd y BGC yn datblygu ac yn cyhoeddi ei Chynlluniau Llesiant Lleol o fewn deuddeg mis o’r asesiad.

Y ffactorau penodol i gyfeirio at yn yr asesiad ydy:

- Amlinellu sut mae’r darganfyddiadau a sialensiau yn cyfrannu at, neu yn effeithio ar, y nodau llesiant cenedlaethol a’r egwyddor datblygu gynaliadwy.
- Ffocysu ar gymunedau unigol ar draws yr ardal trwy ddefnyddio proffiliau ardaloedd.
- Darparu mwy o wybodaeth ar leoliadau a chymunedau penodol.
- Dadansoddiad penodol o ba sialensiau sydd yn rhai tymor byr, canolig neu hir, a sut mae'r rhain yn effeithio ar lesiant.
- Disgrifiad i'r trydydd sector a’i rôl o ran llesiant.
- Bod yr adran tueddiadau’r dyfodol yn darparu disgrifiad generig o’r tueddiadau gyda dehongliad cyfyngedig.

- Sut mae unigolion a sefydliadau yn parhau i fod yn rhan o broses y Cynllun Llesiant a beth mae'r Cynllun yn fwriadau gwneud.

Er mwyn cynorthwyo'r rhai sydd yn cyfrannu cynnwys ac yn ysgrifennu'r ddogfen derfynol, bydd templed o'r asesiad yn cael i'w creu gyda'r bwriad o ddarparu fformat a strwythur cyffredin, er mwyn dadansoddi themâu gan ddefnyddio'r dull Camau Bywyd.

## Monitro a Cyflwyno


Mae llinell amser manwl wedi'i datblygu, sydd yn amlinellu prif nodweddion yr asesiad i fyny at y dyddiad cyhoeddi yn Fawrth 2022 (gwelir Atodiad 2). Bydd cynllun gweithredol i'r prosiect hefyd yn cael i'w ddatblygu, a bydd yn nodi beth sydd angen gwneud, pryd mae angen cwblhau erbyn, pwy sydd angen fod yn rhan ohono a'r adnoddau angenrheidiol. Bydd cynllun gweithredol y prosiect yn cael i'w adolygi, a bydd y cynnydd yn cael ei monitro mewn cyfarfodydd misol rhwydwaith y BGC/BPR.

Mae cynnig am Grant Cyllid Cymorth y BGC wedi'i chyflwyno, er mwyn recriwtio Cydlynydd Asesu Llesiant Rhanbarthol, os yn llwyddiannus, bydd hyn yn chware rôl hanfodol wrth gydgysylltu'r prosiectau, darparu cymorth dadansoddol ac yn sicrhau bod terfynau amser yn cael i'w cyrraedd.

Bydd grwpiau gweithio penodol hefyd yn cael i'w sefydlu er mwyn datblygu'r fethodoleg ar y cyd (rhwydwaith y BGC/ BPR), y cynllun ymrwymiad (Grŵp Ymrwymiad) ac ysgrifennu'r asesiad (Grŵp Ysgrifennu). Bydd y grwpiau gweithio yn cynnwys aelodau perthnasol o ar draws y tri BGC a'i phartneriaid i alluogi rhannu gwybodaeth, adnoddau ac ymarferion gorau.

Bydd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael i'w diweddaru ar broses yr asesiad trwy ddiweddariadau yn gyfarfodydd llawn y BGC a bydd angen iddynt wneud penderfyniadau er mwyn arwain y prosiect tan y diwedd.

Ffig 6. Strwythur y grwpiau gweithio sydd yn ymwneud a chynhyrchu'r Asesiad o Lesiant Lleol




## Casgliad


I grynhoi, mae'r fethodoleg ar y cyd yn ganllaw ymarferol i'r tair BGC (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, a Sir Benfro) ar gynnal yr Asesiad o Leisiant Lleol. Mae cynhyrchu dadansoddiad cynhwysfawr o les yn hanfodol i'r; BGC, dinasyddion a sefydliadau, gan fod gan yr asesiadau rôl allweddol wrth benderfynu blaenoriaethau yn y Cynllun Llesiant Lleol, dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'r BGC wedi cytuno i gymryd dull cydweithredol i gymryd mantais o fuddion gweithio mewn partneriaeth, helpu lleddfu materion cynhwysedd wrth gyflawni'r asesiadau ac osgoi dyblygu gwaith. Bydd fersiwn hon o'r asesiadau yn ystyried yr adborth, wybodaeth a'r dystiolaeth o'r rownd ddiwethaf o asesiadau.

Mae'r fethodoleg hon yn nodi'r cyfleoedd ar gyfer cydweithredu o dan y pedwar cam: adolygu data, dadansoddi manwl, ymgysylltu ac ymgynghori, ac asesiad terfynol a'r camau nesaf. Mae'r dull cymysg yn defnyddio data ansoddol a meintiol o amrywiaeth o ffynonellau, a fydd yn ein galluogi i gasglu achosion, deall ffactorau a nodi'r materion sydd bwysicaf yn lleol. Bydd yr asesiadau'n mabwysiadu dull 'dan arweiniad ymgysylltu', gan ei fod yn ffynhonnell wybodaeth allweddol i'r holl bartneriaid ddefnyddio, gyrru newid a ffurfio gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion ein preswylwyr nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r data a'r cyfyngiadau cysylltiedig â Covid-19 a allai effeithio cyflawni'r Asesiad o Lesiant Lleol, wedi'i adnabod fel, diffyg data lleol a heriau hygyrchedd. Byddwn yn delio â'r heriau hyn trwy; rhwydwaith y BGC/BPR, cynhwysedd ychwanegol a chefnogaeth ddadansoddol gan y Cydlynydd Asesu Llesiant Rhanbarthol, a'r defnydd o'r System Lles Digidol. Hefyd, rydym yn gobeithio cael

mewnwelediadau i oresgyn heriau gyfranogi ac ymgysylltu'n effeithiol a chymunedau, trwy ein hymglymiad a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.

## Atodiad 1 – Llinell Amser



# 2: Sefydliadau a oedd yn rhan o'r Asesiad

Arweiniwyd cynhyrchiad yr Asesiad Llesiant gan ymgysylltu, ac mae hyn wedi cynnwys casglu barnau trigolion Ceredigion trwy Arolwg Llesiant Rhanbarthol, a hefyd ymgysylltu gydag amrywiaeth o grwpiau lleol a rhanbarthol fel rhan o'r gweithgareddau ymgysylltu trwy ddigwyddiadau rhanddeiliaid, gweithdai a chyflwyniadau. Mae'n hynod bwysig ein bod ni wedi ymgysylltu gyda phobl na chlywir yn aml, y rhai a nodweddion gwarchodedig a'r rhai sy'n dioddef o anfanteision economaidd cymdeithasol. Gwnaethom ddadansoddiad cynhwysfawr o rhanddeiliaid gyda mewnbwn gan holl sefydliadau partner BGC Ceredigion a gwahoddwyd pawb i gyfrannu at yr Asesiad gan gynnwys ein partneriaid BGC, Cynghorau Tref a Cymunedol a grwpiau gwirfoddol. Mae rhestr lawn o'r sefydliadau wedi rhestri isod.

| Rhanddeiliaid | |
|---|---|
| Fforwm Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog | Cynghorau Ysgol |
| CAVO | Grŵp Meibion a Merched Gofalwyr Maeth |
| · Grwpiau Cymorth Cymunedol Covid | Cynghrair y Trydydd Sector |
| · Neuaddau Cymunedol a Phentref | Cynghorau Tref a Chymuned |
| · Age Cymru | WWAMH Gorllewin Cymru Gweithredu ar gyfer Iechyd Meddwl |
| · Menter Aber | Grŵp Gofalwyr Ifanc |
| · Whilen y Porthmyn | Clybiau Ieuenctid |
| · Menter Aberteifi | Fforwm Gwasanaeth Ieuenctid |
| · Pentir Pumlumon | |
| Cered Menter Iaith Fforwm Siriol | |
| Cynghrair Gofalwyr Ceredigion | |
| Panel Dinasyddion Ceredigion | |
| Partneriaethau Diogelwch Cymunedol | |
| Swyddogion Arweiniol Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion | |
| Aelodau Etholedig Cyngor Sir Ceredigion | |
| Fforwm Anabledd Ceredigion | |
| Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion | |
| Cyngor Chwaraeon Lleol Ceredigion | |
| Fforwm Gofalwyr Ceredigion | |
| Bwrdd Rhanddeiliaid Cylch Caron | |
| Cynnal y Cardi | |
| Dysgu Bro | |
| Canolfannau Teulu | |
| · Borth | |
| · Llandysul | |
| · Llanbedr Pont Steffan | |
| · Tregaron | |
| Grwpiau Lleol Dechrau'n Deg x3 | |
| Grwpiau ymgynghori â gofalwyr maeth | |
| Grŵp Cymorth "Give Us" | |
| Cymdeithasau Tai | |
| Rhestr Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | |
| Fforwm Landlordiaid | |
| Fforwm LGBTQ+ | |
| Aelodau Bwrdd y BGC | |
| Grwpiau Prosiect y BGC x 6 | |

# 3: Digwyddiadau Ymgysylltu ac Ymgynghori

Mae'r tabl isod yn darparu rhestr o'r digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd fel rhan o'r Asesiad.
Gellir gweld manylion llawn o'r dulliau ymgysylltu yn Gynllun Ymgysylltu Asesiad Ceredigion o Lesiant Lleol. Cafodd pob un o'r gweithdai rhanddeiliaid ei rhedeg gan ddefnyddio'r model Tri Gorwel i helpu ni i drefnu yn well yn yr hir dymor wrth gadw'r weledigaeth yn glir ac ystyried tueddiadau'r dyfodol.

| Dyddiad | Grŵp | Disgrifiad |
|---|---|---|
| 26ain Mai 2021 | BGC Ceredigion Grŵp Prosiect Menter ac Arloesedd | Cyflwyniad i ddilyn gan weithdy yn ceisio barn ar lesiant yn ymwneud a'r sefyllfa bresennol, beth sydd wedi newid ers yr asesiad diwethaf, beth ydy'r heriau a beth sydd angen newid er mwyn cael Ceredigion yr ydym eisiau yn y dyfodol. |
| 28ain Mai 2021 | Gweithdy Ymgysylltu Rhanbarthol | Cyflwyniad a gweithdy i holl bartneriaid y BGC rhanbarthol i gofnodi barn ar sut y dylid cynnal yr ymgysylltiad ar gyfer yr Asesiad ac archwilio themâu y mae angen eu cynnwys yn yr ail rownd o asesiadau. |
| 7fed Mehefin 2021 | BGC Ceredigion Grŵp Prosiect Cyd-leoli ac Integreiddio Gwasanaethau Rheng Flaen | Cyflwyniad i ddilyn gan weithdy yn ceisio barn ar lesiant yn ymwneud a'r sefyllfa bresennol, beth sydd wedi newid ers yr asesiad diwethaf, beth ydy'r heriau a beth sydd angen newid er mwyn cael Ceredigion yr ydym eisiau yn y dyfodol. |
| 8fed Mehefin 2021 | BGC Ceredigion Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd | Cyflwyniad i ddilyn gan weithdy yn ceisio barn ar lesiant yn ymwneud a'r sefyllfa bresennol, beth sydd wedi newid ers yr asesiad diwethaf, beth ydy'r heriau a beth sydd angen newid er mwyn cael Ceredigion yr ydym eisiau yn y dyfodol. |
| 9fed Mehefin 2021 | Gweithgor Cydraddoldebau Corfforaethol | Casglu barn y grŵp ar draws y themâu ymgysylltu o safbwynt cydraddoldeb. |
| 11eg Mehefin 2021 | Gweithdy Ymgysylltu Rhanbarthol | Cyflwyniad a gweithdy i holl bartneriaid y BGC rhanbarthol i gofnodi barn ar sut y dylid cynnal yr ymgysylltiad ar gyfer yr Asesiad ac archwilio themâu y mae angen eu cynnwys yn yr ail rownd o asesiadau. |
| 18fed Mehefin 2021 | BGC Ceredigion Grŵp Prosiect Deall ein Cymunedau | Cyflwyniad i ddilyn gan weithdy yn ceisio barn ar lesiant yn ymwneud a'r sefyllfa bresennol, beth sydd wedi newid ers yr asesiad diwethaf, beth ydy'r heriau a beth sydd angen newid er mwyn cael Ceredigion yr ydym eisiau yn y dyfodol. |
| 29ain Mehefin 2021 | BGC Ceredigion Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol | Cyflwyniad i ddilyn gan weithdy yn ceisio barn ar lesiant yn ymwneud a'r sefyllfa bresennol, beth sydd wedi newid ers yr asesiad diwethaf, beth ydy'r heriau a beth sydd angen newid er mwyn cael Ceredigion yr ydym eisiau yn y dyfodol. |
| 7fed Gorffennaf 2021 | Fforwm Anabledd Ceredigion | Casglu barn y grŵp ar draws y themâu ymgysylltu o safbwynt anableddau. |

| Dyddiad | Grŵp | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Mehefin 2021 | Datrysiadau Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd BGC Ceredigion | E-bost wedi danfon i aelodau'r grŵp Datrysiadau Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd yn ceisio barn ar lesiant yn ymwneud a'r sefyllfa bresennol, beth sydd wedi newid ers yr asesiad diwethaf, beth ydy'r heriau a beth sydd angen newid er mwyn cael Ceredigion yr ydym eisiau yn y dyfodol. (Mae'r grŵp yma ddim yn gweithredu yn ystod cyfnod y pandemig). |
| 10fed Awst 2021 | Arolwg Ymgysylltu Rhanbarthol yn agor | Yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol yn agor ar draws y rhanbarth, ar gael ar-lein, ar bapur, ieithoedd gwahanol a hawdd ei ddarllen. Roedd Ceredigion hefyd wedi rhoi'r cyfle i gymryd atebion dros y ffôn ar gais a defnyddiwyd y platfform ymgysylltu newydd "Dweud Eich Dweud" wrth roi cyfle i ymatebwyr i ddarparu adborth bellach mewn ffordd ryngweithiol. |
| 1af Medi 2021 | Cynghrair Gofalwyr | Casglu barn y grŵp ar draws y themâu ymgysylltu o safbwynt gofalwyr yng Ngheredigion. |
| 16eg Medi 2021 | Cynghorau Tref a Chymuned – Gogledd Ceredigion | Casglu barn y grŵp ar draws y themâu ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned. |
| 20fed Medi 2021 | Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc | Gweithdy ymgysylltu ar-lein i gasglu barn y grŵp ar draws y themâu ymgysylltu o safbwynt pobl ifanc. |
| 22ain Medi 2021 | Cymuned y Lluoedd Arfog | Casglu barn y grŵp ar draws y themâu ymgysylltu o safbwynt cyn-filwyr y lluoedd arfog. |
| 5ed Hydref 2021 | Gweithdy "Give Us Support" Ar-lein wedi trefnu | Casglu barn y grŵp ar draws y themâu ymgysylltu o safbwynt pobl ifanc. (Mae RAY Ceredigion yn elusen sydd yn gwella iechyd a llesiant, pobl o bob oedran a galluoedd, yn enwedig y rhai bregus a dan anfantais). |
| 8fed Hydref 2021 | Arolwg Ymgysylltu Rhanbarthol yn cau | Caeodd yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol. |

# 4: Ffynonellau Data

Ynghyd a'r gweithgareddau ymgysylltu, roedd cynhyrchiant yr asesiad yn cynnwys dadansoddi amrywiaeth o ddata meintiol ac ansoddol, roedd rhai ohonynt ar gael yn genedlaethol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac roedd rhai ar gael yn lleol er mwyn gwneud dadansoddiad lleol o'r materion llesiant yn y sir. Roedd hyn yn cynnwys y rhestr o ffynonellau statudol a oedd wedi nodi yn gyfarwyddiadau'r asesiadau llesiant, roedd y Set Data Craidd a'r Catalog Data ar gael o Ddata Cymru i gynorthwyo'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gasglu data am ei asesiadau, roedd y ffynonellau lleol wedi casglu o'r gweithdai gyda phartneriaid y BGC. Mae'r rhestr isod yn dangos y ffynonellau cynradd a defnyddiwyd yn yr Asesiad.

## Data Statudol

**Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021 (fersiwn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus)**

**Evidence for the third UK Climate Change Risk Assessment (CCRA3): Summary for Wales 2021**
*Assessment of the risks for the United Kingdom of the current and predicted impact of climate change sent to the Welsh Ministers under section 56(6) of the Climate Change Act 2008 (c.27). Refer to the Climate Change Risk Assessment for Wales which provides a national assessment of potential risks and opportunities from climate change facing Wales. (Saesneg yn unig)*

*Review of the sufficiency of nursery education provision for the local authority area carried out under section 119(5)(a) of the School Standards and Frameworks Act 1998 (c.31).*

**Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017-2022 & Asesiad Drafft o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022-27**
*Asesiad o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn yr awdurdod lleol a gynhelir yn unol â rheoliadau o dan adran 26(1) o Ddeddf Gofal Plant 2—6 (p.21)*

**Asesiad o Ddigonolrwydd Chwarae 2019 & Asesiad Drafft Digonolrwydd Chwarae 2022**
*Asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn yr awdurdod lleol a gynhelir o dan adran 11(1) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.*

**Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru 2017 & Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru 2022 (Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru)**
*Asesiad a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 ("asesiad poblogaeth" o anghenion am ofal a chefnogaeth, cefnogaeth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol)*

**Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys: Cynllun Heddlu a Throseddu 2017-2021**
*Asesiad strategol a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan adran 6 o Ddeddf Trosedd ac Anhwylder 1998 (p.37) sy'n ymwneud â lleihau trosedd ac anhrefn yn ardal yr awdurdod lleol.*

**Alcohol and Drug Misuse Desktop Health Needs Assessment 2019**
*Strategic assessment prepared in accordance with regulations under that section relating to combating substance misuse in the local authority area.*

**CNC Datganiad Ardal i Ceredigion a Gorllewin Cymru**
*Pob datganiad ardal o dan adran 11 o Fil yr Amglychedd (Cymru) 2016, ar ôl ei ddeddfu, sy'n ymwneud ag unrhyw ran o ardal yr awdurdod lleol.*

**Cynllun Lleihau Aildroseddu Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS)**
*Asesiad strategol a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan yr adran honno sy'n ymwneud â lleihau aildroseddu yn ardal yr awdurdod lleol.*

## Set Data Craidd (Data Cymru)

% y bobl o oedran gweithio sy'n economaidd weithgar
% y bobl 50+ oed o oedran gweithio sydd mewn swydd
% y pobl oedran gweithio â chymhwyster i NQF lefel 3 neu'n uwch
% yr oedolion oedran gweithio â chymhwyster i NQF lefel 4 neu'n uwch
% y poblogaeth oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau
Tâl wythnosol crynswth cyfartalog pobl sy'n byw yn yr ardal ac sy'n gweithio amser llawn (£)
Bunnoedd gwahaniaeth mewn cyflog wythnosol llawn-amser cyfartalog (canolrif) rhwng dynion a menywod
Bunnoedd gwahaniaeth mewn cyflog llawn-amser cyfartalog (canolrif) yr awr rhwng gwrywod a menywod
Pris cyfartalog ty sengl (£)

Pris cyfartalog ty pâr (£)
Pris cyfartalog ty teras (£)
Pris cyfartalog fflat (£)
Pris cyfartalog holl dai (£)
Nifer y gwerthiannau tai
Pris ty cyfartalog am prynwr tro cyntaf (£)
% newid blynyddol mewn prisiau tai cyfartalog
Nifer y busnesau newydd
Nifer y busnesau gweithredol yn cau
% y busnesau newydd
% y busnesau gweithredol yn cau
Cyfradd busnesau gweithredol newydd am bob 10,000 o'r boblogaeth oedran gweithio
Cyfradd busnesau gweithredol yn cau am bob 10,000 o'r boblogaeth oedran gweithio
Nifer y busnesau gweithredol
Cyfradd busnesau gweithredol am bob 10,000 o'r boblogaeth oedran gweithio
% y busnesau newydd sy'n goroesi masnachu am dair blynedd
Nifer yr adeiladau newydd a gwblhawyd
% y bobl o oedran gweithio sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith
% yr hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith sydd rhwng 17 a 24 oed
% o adawyr ysgol Blwyddyn 11 sy'n NEET (y gwyddir nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg llawn amser na hyfforddiant yn y gwaith ar gyfer pobl ifainc)
% o adawyr ysgol Blwyddyn 13 sy'n NEET (y gwyddir nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg llawn amser na hyfforddiant yn y gwaith ar gyfer pobl ifainc)
% o'r bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith
% o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw
% y disgyblion 15 oed a wnaeth gyrraedd trothwy Lefel 2
% y disgyblion 15 oed a wnaeth gyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg
% y plant sy'n byw mewn aelwydydd di-waith
% yr aelwydydd di-waith
Bwlch rhwng cyfradd gyflogaeth y sawl sydd ag anhwylder iechyd hirdymor a chyfradd gyflogaeth pobl 16 - 64 blwydd oed
% y genedigaethau unigol byw pwysau geni isel
Cyfradd cofrestriadau canser gwrywod am bob 100,000 o'r boblogaeth
Cyfradd cofrestriadau canser benywod am bob 100,000 o'r boblogaeth
% y plant mewn angen sy'n cyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen
% y bobl 16 oed sy'n gadael gofal heb unrhyw gymwysterau
% y plant 4 - 5 oed â phwysau iach
Cyfradd feichiogi o dan 18 oed fesul 1,000 o fenywod 15 - 17 oed
Cyfradd y marwolaethau oherwydd clefyd y galon fesul 100,000 o bobl (oed-safonedig Ewropeaidd)
Cyfradd y marwolaethau oherwydd canser fesul 100,000 o bobl (oed-safonedig Ewropeaidd)
Nifer yr anheddau a gafodd eu gwella drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
Nifer y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gafodd eu cwblhau
Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (am bob rheswm)
Nifer y gwaharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir
Bwlch ym mlynyddoedd disgwyliad oes gwrywod adeg eu geni (rhwng y rhai mwyaf a lleiaf difreintiedig)
Bwlch ym mlynyddoedd disgwyliad oes menywod adeg eu geni
Disgwyliad oes iach pob person adeg eu geni
Disgwyliad oes iach benywod adeg eu geni
Bwlch ym mlynyddoedd disgwyliad oes iach gwrywod adeg eu geni (rhwng y rhai mwyaf a lleiaf difreintiedig)
Bwlch ym mlynyddoedd disgwyliad oes menywod adeg eu geni
% yr holl blant wedi eu himiwneiddio'n llawn yn ôl yr amserlen erbyn pedair oed
Nifer o beryglon categori 1 HHSRS a ganfuwyd yn ystod y flwyddyn
% yr anheddau sydd heb beryglon
Cyfradd derbyniadau brys am dorri'r glun ymhlith pobl 65+ oed am bob 100,000 o bobl (safonedig yn ôl oedran yn Ewrop)

Cyfradd y teuluoedd y cafodd digartrefedd ei osgoi'n llwyddiannus ar eu cyfer am o leiaf 6 mis am bob 10,000 o deuluoedd
Cyfradd y teuluoedd y derbyniwyd eu bod yn gymwys, yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol am bob 10,000 o deuluoedd
Nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd
% o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol
% o'r bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith
% o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt
% o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio
% o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw
Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl 16 oed neu drosodd
% o'r bobl sy'n unig
% yr oedolion a nododd fod yn weithgar am 150 o funudau yn yr wythnos
% yr oedolion a nododd fod yn ordew (Mynegai Mas y Corff o 30 neu fwy)
% yr oedolion a nododd fod yn ordrwm neu'n ordew (Mynegai Mas y Corff o 25 neu fwy)
% yr oedolion a nododd eu bod yn yfed mwy na 14 uned neu fwy o alcohol yr wythnos
% y bobl a alwodd ambiwlans yn y deuddeg mis diwethaf
Nifer cyfartalog y dannedd wedi pydru, colli neu eu llenwi ymhlith plant 5 mlwydd oed.
Nifer cyfartalog y dannedd wedi pydru, colli neu eu llenwi ymhlith plant 12 mlwydd oed.
Cyfradd yr holl droseddau fesul 1,000 o bobl
% y babanod a fwydir ar y fron yn unig 10 niwrnod ar ôl eu geni
Nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd
SCA/002a - Pobl hŷn sy'n derbyn cymorth yn y gymuned, fesul 1,000 o'r boblogaeth 65+
SCC/004 - Plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael 3 lleoliad neu'n fwy (%)
% y plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar eu cerrig milltir datblygiadol yn 3 oed
Nifer yr unigolion a aseswyd am gamddefnydd alcohol
Nifer yr unigolion a aseswyd am gamddefnydd cyffuriau
Nifer y marwolaethau hunanladdiad a gofrestrwyd
Cyfradd farwolaethau hunanladdiad fesul 100,000 o bobl
% yr oedolion a adroddodd eu bod yn ysmygwr cyfredol
% yr oedolion a adroddodd eu bod yn goryfed mewn pyliau ar o leiaf un diwrnod yn yr wythnos ddiwethaf
% yr oedolion a adroddodd eu bod wedi bwyta pum darn neu fwy o ffrwythau a llysiau'r diwrnod blaenorol
% yr oedolion a adroddodd eu bod wedi diwallu canllawiau ymarfer/gweithgarwch corfforol yn yr wythnos ddiwethaf
% yr oedolion a adroddodd eu bod yn ordrwm neu'n ordew
Microgramau (µg) cyfartalog o $NO_2$ mewn lleoliadau anheddau preswyl am bob $m^3$
Microgramau (µg) cyfartalog o $PM_{2.5}$ mewn lleoliadau anheddau preswyl am bob $m^3$
Microgramau (µg) cyfartalog o $PM_{10}$ mewn lleoliadau anheddau preswyl am bob $m^3$
Ôl-troed ecolegol fesul person (hectarau byd-eang)
Ôl-troed carbon fesul person ($tCO_2e$)
% o eiddo gyda risg gan lifogydd
% yr eiddo gyda risg uchel gan lifogydd
% yr eiddo gyda risg canolig gan lifogydd
% o eiddo gyda risg isel gan lifogydd
% yr eiddo gyda risg isel iawn gan lifogydd
Capasiti offer ynni adnewyddadwy sydd wedi eu gosod (MW)
% gwastraff trefol wedi'i anfon i'w ailddefnyddio/ailgylchu/gompostio
Nifer y bobl sydd ddim yn ystyried eu bod yn Gymro/raes
% y bobl 3+ oed sy'n gallu siarad Cymraeg
% sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol
% o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch
% o'r bobl sy'n gwirfoddoli
% o'r bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn
% o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg
% o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos

| |
|---|
| % yr oedolion a adroddodd eu bod wedi diwallu canllawiau ymarfer/gweithgarwch corfforol yn yr wythnos ddiwethaf |

| Ffynonellau o'r Catalog Data a ddefnyddir yn yr Asesiad (Data Cymru) |
|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Cadw |
| Child Poverty Action Group |
| Cyngor ar Bopeth Cymru |
| Data Cymru |
| Synnwyr Bwyd Cymru |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Race Council Cymru |
| Samaritans Cymru |
| Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion |
| Chwaraeon Cymru |
| Trussell Trust |
| Victim Support Cymru |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) |
| Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol Llywodraeth Cymru |

| Other Sources Consulted in the Assessment | |
|---|---|
| Action on Smoking and Health | Smoking and Young people |
| Age UK | Changes to State Pension Age |
| Age UK | Conditions and illnesses |
| Age UK | Later life in the United Kingdom 2019 |
| Area 43 | Various resources |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Cynllun Corffotaethol Cyngor Celfyddydau Cymru 2018 |
| BBC Wales | GCSE gap widens for children from poorer backgrounds |
| Sefydliad Bevan | Yn ei hymdrechion i roi terfyn ar dlodi plant, mae Llywodraeth Cymru wedi cynllunio nifer o gynlluniau i gefnogi teuluoedd gyda'u costau byw, megis Prydau Ysgol am Ddim, y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad a Thalebau Cychwyn Iach |
| Biodiversity Partnership | Introducing children to nature |
| BMJ Journals | Primary care patient and practitioner views on weight and weight-related discussions: a mixed-methods study |
| British Liver Trust | Various resources |
| CACI Paycheck | Data incwm 2020 a 2021 |
| Cancer Research UK | Smoking among young adults increased by 25% during first lockdown |
| Prifysgol Caerdydd | Dyfodol gofal yng Nghymru: darparu adnoddau ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion hŷn |
| Prifysgol Caerdydd; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru; Iechyd Cyhoeddus Cymru | Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol: Meysydd gweithredu mewn gwaith, hinsawdd a newid demograffig – adroddiad llawn |
| Caerdydd: NSPCC, National Centre for Mental Health, Mind Cymru, Mental Health Foundation, Maternal Mental Health Everyone's Business | Beichiogrwydd a babis: gofal iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru |
| Cardigan Bay and Ynys Enlli to the Great Orme Coastal Group | Shoreline Management Plan 2 |
| CARE | At Home Group |
| Care Sourcer | |
| Gyrfa Cymru | Hynt disgyblion diweddar yn ôl blwyddyn, carfan ac awdurdod addysg leol o ysgolion yng Nghymru |
| Carehome.co.uk | Care home fees and costs: How much do you pay? |

| | |
|---|---|
| Carers UK | Carers Week: worn out unpaid carers uncertain the services they relied on will continue post |
| CAVO | Mae'r Grant Partneriaeth Amgylcheddol yn cau ar 30 Mehefin 2021 |
| Census 2011 | Lone parent households. |
| Centre for Disease Control and Prevention | |
| Cyngor Sir Ceredigion | Adroddiad Teithio Llesol 2019-20 |
| Cyngor Sir Ceredigion | Codi Tâl am Ofal a Chymorth Preswyl Canllaw i Asesu Ariannol a Thaliadau 2021-2022 |
| Cyngor Sir Ceredigion | Hybu Economi Ceredigion: Strategaeth i weithredu 2020-35 |
| Cyngor Sir Ceredigion | Cyngor Sir Ceredigion Cynllun Gweithredu Gwywiad Coed Ynn |
| Cyngor Sir Ceredigion | Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant: Adroddiad Cynnydd Blwyddyn 4 |
| Cyngor Sir Ceredigion | Ymgynghoriad ar ddatblygu Strategaeth Economaidd newydd Ceredigion 2020-2035 |
| Cyngor Sir Ceredigion | Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Cylch Caron: Adroddiad Tystiolaeth ac Ymgynghori |
## £ Economy & Employment:

### % pobl o oedran gweithio mewn amddifadedd cyflogaeth:




Ffynhonnell: WIMD 2019

### Y 5 Prif Diwydiant Cyflogaeth:




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011.

Ffynhonnell: WIMD 2019

Oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau **9.9%**


Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn mynd i Addysg Uwch

**33%**

| | Borth & Bont-goch | | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Gweithgaredd Economaidd** | 3,899 | **69.9%** | 61.1% | 65.8% |
| **Cyfradd Anweithgaredd Economaidd** | 1,680 | **30.1%** | 38.9% | 34.2% |


Ffynhonnell: ONS 2021

### Cyfrif Hawlwyr:





Ffynhonnell: ONS 2021

### Incwm Canolrif Aelwydydd:




Ffynhonnell: CACI Paycheck 2021

# Aberteifi & Aberporth




## Penawdau Allweddol

Canran uchaf y boblogaeth mewn amddifadedd incwm. **19%**

**240** Y nifer uchaf o aelwydydd rhiant sengl â phlant dibynnol.

Y gyfradd uchaf o bobl â salwch tymor hir cyfyngol. **22.8** fesul 100 o'r boblogaeth

**38%** Canran uchaf o aelwydydd un person.


Canran isaf yr aelwydydd heb wres canolog. **4.3%**

Lleolir ardal Aberteifi ac Aber-porth ar ben deheuol Ceredigion ac mae tua 78.6km² o ran maint. Er mai'r ardal hon yw un o'r ardaloedd cymunedol lleiaf yng Ngheredigion, mae'n cynnwys yr ail dref fwyaf yng Ngheredigion, sef Aberteifi. Mae'n cynnwys amrediad o gyfleoedd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac mae'n cynnwys sefydliadau addysg bellach ac iechyd gwladol. Caiff ei chynrychioli yn dda yn y celfyddydau gan Theatr Mwldan a Theatr Byd Bychan. Mae gan Aberteifi apêl benodol ymhlith twristiaid o ganlyniad i'w threftadaeth sy'n rhychwantu canrifoedd o hanes a Chastell Aberteifi o'r 12fed Ganrif, a adnewyddwyd yn ddiweddar. Mae'r ardal yn cynnwys ardal Gwbert, rhan ddeniadol iawn o Fae Ceredigion sy'n denu nifer o dwristiaid oherwydd ei mannau cerdded poblogaidd a'i golygfeydd godidog. Lleolir Aber-porth i'r gogledd o'r ardal ac mae hon yn ardal arall sy'n denu nifer o dwristiaid a'r sawl sy'n dymuno prynu ail gartref. Mae rhan orllewinol yr ardal yn glogwyni arfordirol ac yn fryniau yn bennaf, ac yn cynnig cartref i nifer o adar a bywyd gwyllt arall. Mae'r A487 yn rhedeg trwy'r ardal ac mae'n allweddol er mwyn cysylltu gogledd a de Cymru. Mae'r A487 yn rhedeg trwy bentrefi Pen-parc a Blaenannerch.

## Nodweddion Poblogaeth:

| | Aberteifi & Aberporth | | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Poblogaeth Ganol Blwyddyn 2012 | 8,801 | 11.6% | 75,932 | 3,049,971 |
| **Poblogaeth Ganol Blwyddyn 2020** | **8,873** | **12.2%** | **72,895** | **3,169,586** |
| Dynion | **4,342** | **48.9%** | 36,262 | 1,563,524 |
| Merched | **4,531** | **51.1%** | 36,633 | 1,606,062 |
| Oedran 0-15 | **1,422** | **16.0%** | 10,774 | 562,730 |
| Oedran 16-64 | **4,778** | **53.8%** | 43,453 | 1,938,266 |
| Oedran 65+ | **2,673** | **30.1%** | 18,668 | 668,590 |
| | | | | |
| Siarad Cymraeg | 4,456 | 52.0% | 47.3% | 19% |
| Dim sgiliau Cymraeg | 3,036 | 35.5% | 42.4% | 73.3% |

Ffynhonnell: ONS, MYE: 2012 & 2020 & Cyfrifiad 2011





Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

## Iechyd:

| | Aberteifi & Aberporth | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|
| Diagnosis o gyflwr cronig a gofnodwyd gan feddyg teulu *(cyfradd fesul 100)* | **12.6** | 12.7 | 14.3 |
| Salwch Hirdymor Cyfyngol *(cyfradd fesul 100)* | **22.8** | 20.0 | 22.7 |
| Marwolaethau cynamserol *(cyfradd fesul 100,000)* | **397.8** | 322.4 | 382.4 |
| Diagnosis o gyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddyg teulu *(cyfradd fesul 100)* | **18.4** | 19.9 | 23.2 |
| Nifer yr achosion o Ganser *(cyfradd fesul 100,000)* | **576.8** | 545.5 | 611.9 |
| Pwysau Geni Isel, Genedigaethau Sengl (genedigaethau byw sy'n llai na 2.5 Kg) *(%)* | **5.3** | 4.8 | 5.5 |
| Plant 4-5 oed sy'n Ordew *(%)* | **11.1** | 10.5 | 11.8 |

Ffynhonnell: WIMD 2019

## Diogelwch Cymunedol:




Ffynhonnell: WIMD 2019

## Mynediad i Wasanaethau:

Amser teithio dwyffordd cyfartalog cyhoeddus i meddygfa

**61 (munudau)**

Amser teithio dwyffordd cyfartalog cyhoeddus i siop fwyd

**41 (munudau)**

Diffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e

**9.5%**

Ffynhonnell: WIMD 2019

## Yr Amgylchedd Ffisegol:

| | Aberteifi & Aberporth | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|
| **Y pellter cyfartalog i'r Parc, Ardd Gyhoeddus neu'r Cae Chwarae agosaf (m)** | **648** | 914 | 432 |
| **Canran y cyfeiriadau gyda gofod awyr agored preifat** | **91%** | 88% | 91% |
| **Sgôr cartrefi sydd mewn perygl o lifogydd** | **17.1** | 22.5 | - |


Ffynhonnell: WIMD 2019 & ONS 2021

## Trefniadau tai a byw:

| | Aberteifi & Aberporth | | Ceredigion |
|---|---|---|---|
| | Rhif | % | |
| Cyfanswm yr aelwydydd | 4,165 | - | 31,562 |
| Pob cartref un person | 1,587 | 38.0% | 10,456 |
| Pob cartref â phlant dibynnol | 965 | 23.2% | 7,203 |
| Pob cartref 65+ | 1,309 | 31.4% | 8,261 |
| Maint cartref ar gyfartaledd (personau) | 2.3 | - | 2.3 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

**Prisiau Tai ar gyfartaledd:**




Ffynhonnell: ONS, Median House Prices 2020

4.3% cartref heb wres canolog

5.22% cartref gorlawn


22.5% cartref heb gar na faniau

27.0% Tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael

Ffynhonnell: WIMD 2019 & Cyfrifiad 2011

# Economi a Chyflogaeth:


## % pobl o oedran gweithio mewn amddifadedd cyflogaeth:




Ffynhonnell: WIMD 2019

## Y 5 Prif Diwydiant Cyflogaeth:

Ffynhonnell: WIMD 2019




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011.



Oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau

**18.3%**

Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn mynd i Addysg Uwch


**31.0%**



| | | Aberteifi & Aberporth | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Gweithgaredd Economaidd** | 3,813 | **60.4%** | 61.1% | 65.8% |
| **Cyfradd Anweithgaredd Economaidd** | 2,495 | **39.6%** | 38.9% | 34.2% |


Ffynhonnell: ONS 2021

## Cyfrif Hawlwyr:





Ffynhonnell: ONS 2021

## Incwm Canolrif Aelwydydd:




Ffynhonnell: CACI Paycheck 2021

# Llanbedr Pont Steffan & Llanfihangel Ystrad




## ! Penawdau Allweddol

**Prisiau cyfartalog tŷ isaf yng Ngheredigion.** **£165,000**

**6.8%** **Canran ail uchaf yr aelwydydd heb wres canolog.**

**Incwm aelwyd canolrif ail isaf.** **£24,328**

**0.22 fesul 100 o'r boblogaeth** **Un o'r cyfraddau isaf o ddigwyddiadau tân yng Ngheredigion.**


**Un o'r sgoriau uchaf o gartrefi sydd mewn perygl o lifogydd.** **24.4**

Lleolir Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad i'r de-ddwyrain o'r sir, mae'n ardal hollol fewndirol sydd tua 226.7km² o ran maint. Lleolir un o brif drefi Ceredigion yn yr ardal, sef Llanbedr Pont Steffan. Mae'r ardal yn adnabyddus am fod yn gartref i nifer fawr o fudwyr o Wlad Pwyl. Ceir un 'ysgol pob oed' yn yr ardal, Ysgol Bro Pedr, sy'n addysgu plant rhwng 3 a 18 oed. Mae Prifysgol Llanbedr Pont Steffan, sef y sefydliad academaidd hynaf yng Nghymru, yn cynnig ystod eang o gyrsiau yn y dyniaethau. Un o'r diwydiannau cyflogaeth mwyaf poblogaidd yw addysg felly, ac mae cyfanwerthu a manwerthu yn boblogaidd hefyd, yn ôl pob tebyg oherwydd y cyfleoedd yn nhref Llanbedr Pont Steffan. Mae'r ardal yn ymestyn ar draws i Orllewin y sir ac mae'n cynnwys pentrefi Ystradaeron, Dihewyd, Trefilan, Talsarn a Nantcwnlle. Mae Llanwnnen i'r de o dref Llanbedr Pont Steffan ac mae Llanfair Clydogau i'r gogledd. Mae'r ardal o gwmpas tref Llanbedr Pont Steffan yn ardal wledig iawn lle y mae'r topograffi yn fryniog ac yn cynnwys nifer o goetiroedd.

## Nodweddion Poblogaeth:

| | Llanbedr Pont Steffan & Llanfihangel Ystrad | | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Poblogaeth Ganol Blwyddyn 2012 | 8,522 | 11.2% | 75,932 | 3,049,971 |
| **Poblogaeth Ganol Blwyddyn 2020** | **8,191** | **11.2%** | **72,895** | **3,169,586** |
| Dynion | **4,086** | **49.4%** | 36,262 | 1,563,524 |
| Merched | **4,145** | **50.6%** | 36,633 | 1,606,062 |
| Oedran 0-15 | **1,430** | **17.5%** | 10,774 | 562,730 |
| Oedran 16-64 | **4,626** | **56.5%** | 43,453 | 1,938,266 |
| Oedran 65+ | **2,136** | **26.1%** | 18,668 | 668,590 |
| | | | | |
| Siarad Cymraeg | 4,240 | 52.4% | 47.3% | 19% |
| Dim sgiliau Cymraeg | 3,168 | 39.2% | 42.4% | 73.3% |

Ffynhonnell:ONS, MYE: 2012 & 2020 & Cyfrifiad 2011





Ffynhonnell:Cyfrifiad 2011

## Iechyd:

Ffynhonnell:WIMD 2019

| | Llanbedr Pont Steffan & Llanfihangel Ystrad | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|
| Diagnosis o gyflwr cronig a gofnodwyd gan feddyg teulu *(cyfradd fesul 100)* | **12.5** | 12.7 | 14.3 |
| Salwch Hirdymor Cyfyngol *(cyfradd fesul 100)* | **20.4** | 20.0 | 22.7 |
| Marwolaethau cynamserol *(cyfradd fesul 100,000)* | **344.0** | 322.4 | 382.4 |
| Diagnosis o gyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddyg teulu *(cyfradd fesul 100)* | **19.0** | 19.9 | 23.2 |
| Nifer yr achosion o Ganser *(cyfradd fesul 100,000)* | **523.6** | 545.5 | 611.9 |
| Pwysau Geni Isel, Genedigaethau Sengl (genedigaethau byw sy'n llai na 2.5 Kg) *(%)* | **5.2** | 4.8 | 5.5 |
| Plant 4-5 oed sy'n Ordew *(%)* | **9.2** | 10.5 | 11.8 |

## Diogelwch Cymunedol:




Ffynhonnell:WIMD 2019

## Mynediad i Wasanaethau:

Amser teithio dwyffordd cyfartalog cyhoeddus i siop fwyd

**85 (munudau)**

Amser teithio dwyffordd cyfartalog cyhoeddus i meddygfa

**96 (munudau)**

Diffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e

**25.6%**

Ffynhonnell:WIMD 2019

## Yr Amgylchedd Ffisegol:

| | Llanbedr Pont Steffan & Llanfihangel Ystrad | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|
| **Y pellter cyfartalog i'r Parc, Ardd Gyhoeddus neu'r Cae Chwarae agosaf (m)** | **660** | 914 | 432 |
| **Canran y cyfeiriadau gyda gofod awyr agored preifat** | **88%** | 88% | 91% |
| **Sgôr cartrefi sydd mewn perygl o lifogydd** | **24.4** | 22.5 | - |


Ffynhonnell:WIMD 2019 & ONS 2021

## Trefniadau tai a byw:

| | Llanbedr Pont Steffan & Llanfihangel Ystrad | | Ceredigion |
|---|---|---|---|
| | Rhif | % | |
| Cyfanswm yr aelwydydd | 3,432 | - | 31,562 |
| Pob cartref un person | 1,093 | 32.0% | 10,456 |
| Pob cartref â phlant dibynnol | 833 | 24.0% | 7,203 |
| Pob cartref 65+ | 916 | 26.7% | 8,261 |
| Maint cartref ar gyfartaledd (personau) | 2.3 | - | 2.3 |

Ffynhonnell:Cyfrifiad 2011

**Prisiau Tai ar gyfartaledd:**




Ffynhonnell:ONS, Median House Prices 2020

6.8% cartref heb wres canolog

5.83% cartref gorlawn


14.7% cartref heb gar na faniau

35.1% Tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael

Ffynhonnell:WIMD 2019 & Cyfrifiad 2011

# £ Economi a Chyflogaeth:


## % pobl o oedran gweithio mewn amddifadedd cyflogaeth:




Ffynhonnell:WIMD 2019

## Y 5 Prif Diwydiant Cyflogaeth:

Ffynhonnell:WIMD 2019




Ffynhonnell:Cyfrifiad 2011.


Oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau
**16.8%**

Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn mynd i Addysg Uwch
**33.6%**

| | Llanbedr Pont Steffan & Llanfihangel Ystrad | | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Gweithgaredd Economaidd** | 3,868 | **62.2%** | 61.1% | 65.8% |
| **Cyfradd Anweithgaredd Economaidd** | 2,348 | **37.8%** | 38.9% | 34.2% |


Ffynhonnell:ONS 2021

## Cyfrif Hawlwyr:





Ffynhonnell:ONS 2021

## Incwm Canolrif Aelwydydd:




Ffynhonnell:CACI Paycheck 2021

# Cei Newydd & Penbryn




## Penawdau Allweddol

Un o'r nifer isaf o gyfraddau troseddu am droseddau cyffuriau. **1.2** fesul 100 o'r boblogaeth

**133** Y cyfraddau isaf o droseddau trais yn erbyn y person.

Y cyfraddau isaf o gyflwr cronig a gofnodwyd gan feddygon teulu yng Ngheredigion. **10.6** fesul 100 o'r boblogaeth

**£235,000** Prisiau tai uchaf ar gyfartaledd yng Ngheredigion.

Y cyfraddau isaf o gyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddygon teulu. **14.5** fesul 100 o'r boblogaeth

Lleolir Ceinewydd a Phenbryn ar hyd yr arfordir yn ne Ceredigion. Mae Ceinewydd yn dref glan môr fechan ac yn gyrchfan hynod o boblogaidd i dwristiaid. Lleolir Maes Carafannau Quay West ychydig i'r gogledd o Geinewydd ac mae'n rhan bwysig iawn o'r economi leol. Nid oes syndod mai'r diwydiannau mwyaf poblogaidd o ran cyflogaeth yw cyfanwerthu a manwerthu a llety a gwasanaethau bwyd yn ardal Ceinewydd a Phenbryn. Lleolir Llangrannog i'r de o Geinewydd ac mae'n bentref glan môr poblogaidd sy'n denu nifer o dwristiaid. Mae Llangrannog yn gartref i un o wersylloedd yr Urdd hefyd, sy'n cynnig gwyliau gweithgarwch, gwyliau teuluol, cyrsiau addysgol a gwersylloedd haf i blant. I'r dwyrain o Geinewydd, ceir pentrefi Plwmp a Synod Inn. Mae'r A487, sy'n brif ffordd sy'n cysylltu de a gogledd Cymru, yn rhedeg bron yn uniongyrchol trwy ardal Ceinewydd a Phenbryn.

## Nodweddion Poblogaeth:

| | Cei Newydd & Penbryn | | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Poblogaeth Ganol Blwyddyn 2012 | 6,696 | 8.8% | 75,932 | 3,049,971 |
| **Poblogaeth Ganol Blwyddyn 2020** | **6,579** | **9.0%** | **72,895** | **3,169,586** |
| Dynion | **3,310** | **50.3%** | 36,262 | 1,563,524 |
| Merched | **3,269** | **49.7%** | 36,633 | 1,606,062 |
| Oedran 0-15 | **929** | **14.1%** | 10,774 | 562,730 |
| Oedran 16-64 | **3,609** | **54.9%** | 43,453 | 1,938,266 |
| Oedran 65+ | **2,041** | **31.0%** | 18,668 | 668,590 |
| | | | | |
| Siarad Cymraeg | 3,168 | 48.6% | 47.3% | 19% |
| Dim sgiliau Cymraeg | 2,683 | 41.1% | 42.4% | 73.3% |

Ffynhonnell: ONS, MYE: 2012 & 2020 & Cyfrifiad 2011





Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

## Iechyd:

| | Cei Newydd & Penbryn | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|
| Diagnosis o gyflwr cronig a gofnodwyd gan feddyg teulu *(cyfradd fesul 100)* | **10.6** | 12.7 | 14.3 |
| Salwch Hirdymor Cyfyngol *(cyfradd fesul 100)* | **19.0** | 20.0 | 22.7 |
| Marwolaethau cynamserol *(cyfradd fesul 100,000)* | **283.2** | 322.4 | 382.4 |
| Diagnosis o gyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddyg teulu *(cyfradd fesul 100)* | **14.5** | 19.9 | 23.2 |
| Nifer yr achosion o Ganser *(cyfradd fesul 100,000)* | **537.3** | 545.5 | 611.9 |
| Pwysau Geni Isel, Genedigaethau Sengl (genedigaethau byw sy'n llai na 2.5 Kg) *(%)* | **3.5** | 4.8 | 5.5 |
| Plant 4-5 oed sy'n Ordew *(%)* | **9.5** | 10.5 | 11.8 |

Ffynhonnell: WIMD 2019

## Diogelwch Cymunedol:




Ffynhonnell: WIMD 2019

## Mynediad i Wasanaethau:

Amser teithio dwyffordd cyfartalog cyhoeddus i siop fwyd

**97 (munudau)**

Amser teithio dwyffordd cyfartalog cyhoeddus i meddygfa

**104 (munudau)**

Diffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e

**26.1%**

Ffynhonnell: WIMD 2019

## Yr Amgylchedd Ffisegol:

| | **Cei Newydd & Penbryn** | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|
| **Y pellter cyfartalog i'r Parc, Ardd Gyhoeddus neu'r Cae Chwarae agosaf (m)** | **1163** | 914 | 432 |
| **Canran y cyfeiriadau gyda gofod awyr agored preifat** | **88%** | 88% | 91% |
| **Sgôr cartrefi sydd mewn perygl o lifogydd** | **20.5** | 22.5 | - |


Ffynhonnell: WIMD 2019 & ONS 2021

## Trefniadau tai a byw:


| | **Cei Newydd & Penbryn** | | **Ceredigion** |
|---|---|---|---|
| | Rhif | % | |
| Cyfanswm yr aelwydydd | 2,921 | - | 31,562 |
| Pob cartref un person | 854 | 29.2% | 10,456 |
| Pob cartref â phlant dibynnol | 653 | 22.3% | 7,203 |
| Pob cartref 65+ | 850 | 29.0% | 8,261 |
| Maint cartref ar gyfartaledd (personau) | 2.3 | - | 2.3 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

**Prisiau Tai ar gyfartaledd:**





Ffynhonnell: ONS, Median House Prices 2020




Ffynhonnell: WIMD 2019 & Cyfrifiad 2011


# Economi a Chyflogaeth:

## % pobl o oedran gweithio mewn amddifadedd cyflogaeth:




Ffynhonnell: WIMD 2019

## Y 5 Prif Diwydiant Cyflogaeth:




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011.

Ffynhonnell: WIMD 2019

Oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau

**16.6%**


Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn mynd i Addysg Uwch

**30.0%**

| | Cei Newydd & Penbryn | | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Gweithgaredd Economaidd** | 3,134 | **63.7%** | 61.1% | 65.8% |
| **Cyfradd Anweithgaredd Economaidd** | 1,786 | **36.4%** | 38.9% | 34.2% |

Ffynhonnell: ONS 2021

## Cyfrif Hawlwyr:




Ffynhonnell: ONS 2021


## Incwm Canolrif Aelwydydd:




Ffynhonnell: CACI Paycheck 2021



# Rheidol, Ystwyth & Caron




## Penawdau Allweddol

**131** munudau — Amser teithio ar gyfartaledd yn ôl i'r llyfrgell gyhoeddus uchaf yng Ngheredigion.

**18.3** fesul 100 o'r boblogaeth — Y gyfradd isaf o bobl â salwch tymor hir cyfyngol.

**31.2%** — Y ganran uchaf o ddiffyg band eang ar gael ar 30Mb/s yng Ngheredigion.

**11.54** — Y gyfradd isaf o aelwydydd sydd mewn perygl o


**0.98** fesul 100 o'r boblogaeth — Y cyfraddau isaf o ymddygiad

Rheidol, Ystwyth a Caron yw'r ardal gymunedol fwyaf yng Ngheredigion o bell ffordd, ac mae tua 758.2km² o ran maint ac yn ymestyn ar draws rhan fwyaf o'r ffin orllewinol. Mae'n ardal wledig yn bennaf ac mae'n cynnwys rhan o Fynyddoedd Cambria, tirlun garw a heb ei difetha i raddau helaeth, gyda ffermydd a chymunedau gwledig bychain wedi'u gwasgaru ar ei thraws. Lleolir y dref leiaf yng Ngheredigion, Tregaron, wrth droed Mynyddoedd Cambria, a chynhelir Eisteddfod Genedlaethol Cymru yma yn 2022. Lleolir Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron i'r gogledd o Dregaron, sy'n cynnwys tair cyforgors, ac mae'n gartref i gymysgedd o gynefinoedd unigryw ac amrywiaeth o fywyd gwyllt. Mae'r ardal yn cynnwys pentrefi amaethyddol Pontrhydfendigaid a Phont-rhyd-y-groes. Mae gogledd yr ardal yn cynnwys rhan o'r A44 sy'n cysylltu Ceredigion a dwyrain Cymru a chanolbarth Lloegr, ac mae'r ffordd hon yn rhedeg trwy Goginan a Phonterwyd. I'r de o Bonterwyd, lleolir Pontarfynach, ac mae'r pentref hwn yn adnabyddus oherwydd Rhaeadrau Pontarfynach, sy'n atyniad poblogaidd i dwristiaid. Mae gorllewin yr ardal yn dilyn yr arfordir ac mae'n cynnwys rhan o ffordd arfordirol yr A487, sy'n rhedeg trwy Llanfarian a Rhydyfelin, ardaloedd poblogaidd ar gyrion Aberystwyth.

## Nodweddion Poblogaeth:

| | Rheidol, Ystwyth & Caron | | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Poblogaeth Ganol Blwyddyn 2012 | 11,609 | 15.3% | 75,932 | 3,049,971 |
| **Poblogaeth Ganol Blwyddyn 2020** | **11,623** | **15.9%** | **72,895** | **3,169,586** |
| Dynion | **5,686** | **48.9%** | 36,262 | 1,563,524 |
| Merched | **5,937** | **51.1%** | 36,633 | 1,606,062 |
| Oedran 0-15 | **1,896** | **16.3%** | 10,774 | 562,730 |
| Oedran 16-64 | **6,433** | **55.3%** | 43,453 | 1,938,266 |
| Oedran 65+ | **3,294** | **28.3%** | 18,668 | 668,590 |
| | | | | |
| Siarad Cymraeg | 6,213 | 54.7% | 47.3% | 19% |
| Dim sgiliau Cymraeg | 4,025 | 35.4% | 42.4% | 73.3% |

Ffynhonnell:ONS, MYE: 2012 & 2020 & Cyfrifiad 2011





Ffynhonnell:Cyfrifiad 2011

## Iechyd:

| | Rheidol, Ystwyth & Caron | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|
| Diagnosis o gyflwr cronig a gofnodwyd gan feddyg teulu *(cyfradd fesul 100)* | **12.8** | 12.7 | 14.3 |
| Salwch Hirdymor Cyfyngol *(cyfradd fesul 100)* | **18.3** | 20.0 | 22.7 |
| Marwolaethau cynamserol *(cyfradd fesul 100,000)* | **285.2** | 322.4 | 382.4 |
| Diagnosis o gyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddyg teulu *(cyfradd fesul 100)* | **19.9** | 19.9 | 23.2 |
| Nifer yr achosion o Ganser *(cyfradd fesul 100,000)* | **505.4** | 545.5 | 611.9 |
| Pwysau Geni Isel, Genedigaethau Sengl (genedigaethau byw sy'n llai na 2.5 Kg) *(%)* | **4.7** | 4.8 | 5.5 |
| | **10.5** | 10.5 | 11.8 |

Ffynhonnell:WIMD 2019

## Diogelwch Cymunedol:




Ffynhonnell:WIMD 2019



## Mynediad i Wasanaethau:

Amser teithio dwyffordd cyfartalog cyhoeddus i meddygfa

**103 (munudau)**

Amser teithio dwyffordd cyfartalog cyhoeddus i siop fwyd

**83 (munudau)**

Diffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e

**31.2%**

Ffynhonnell:WIMD 2019

## Yr Amgylchedd Ffisegol:

| | Rheidol, Ystwyth & Caron | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|
| **Y pellter cyfartalog i'r Parc, Ardd Gyhoeddus neu'r Cae Chwarae agosaf (m)** | **1512** | 914 | 432 |
| **Canran y cyfeiriadau gyda gofod awyr agored preifat** | **90%** | 88% | 91% |
| **Sgôr cartrefi sydd mewn perygl o lifogydd** | **25.6** | 22.5 | - |


Ffynhonnell:WIMD 2019 & ONS 2021

## Trefniadau tai a byw:

| | Rheidol, Ystwyth & Caron | | Ceredigion |
|---|---|---|---|
| | Number | % | |
| Cyfanswm yr aelwydydd | 5,027 | - | 31,562 |
| Pob cartref un person | 1,509 | 30.0% | 10,456 |
| Pob cartref â phlant dibynnol | 1,272 | 25.3% | 7,203 |
| Pob cartref 65+ | 1,366 | 27.2% | 8,261 |
| Maint cartref ar gyfartaledd (personau) | 2.3 | - | 2.3 |

Ffynhonnell:Cyfrifiad 2011

**Prisiau Tai ar gyfartaledd:**




Ffynhonnell:ONS, Median House Prices 2020

5.6% cartref heb wres canolog

3.67% cartref gorlawn


10.8% cartref heb gar na faniau

36.9% Tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael

Ffynhonnell:WIMD 2019 & Cyfrifiad 2011


# Economi a Chyflogaeth:

## % pobl o oedran gweithio mewn amddifadedd cyflogaeth:




Ffynhonnell:WIMD 2019


## Cyfrif Hawlwyr:




Ffynhonnell:ONS 2021

## Y 5 Prif Diwydiant Cyflogaeth:

Ffynhonnell:WIMD 2019




Ffynhonnell:Cyfrifiad 2011.

Oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau
**13.2%**

Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn mynd i Addysg Uwch
**34.5%**

| | Rheidol, Ystwyth & Caron | | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Gweithgaredd Economaidd** | 5,738 | **67.8%** | 61.1% | 65.8% |
| **Cyfradd Anweithgaredd Economaidd** | 2,724 | **32.2%** | 38.9% | 34.2% |

Ffynhonnell:ONS 2021


## Incwm Canolrif Aelwydydd:




Ffynhonnell:CACI Paycheck 2021



# Ceredigion


W02000116
Borth & Bont-goch
W02000117
Gogledd Aberystwyth
W02000118
De Aberystwyth
W02000421
Rheidol, Ystwyth & Caron
W02000120
Aberaeron & Llanrhystud
W02000122
Cei Newydd & Penbryn
W02000123
Llanbedr Pont Steffan & Llanfihangel Ystrad
W02000124
Aberteifi & Aberporth
W02000125
Beulah, Troed-yr-aur & Llandysul
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100024419
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100024419

## Nodweddion Poblogaeth:

| | Ceredigion | | Cymru |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth Ganol Blwyddyn 2012 | 75,932 | 2.5% | 3,049,971 |
| **Poblogaeth Ganol Blwyddyn 2020** | 72,895 | **2.3%** | **3,169,586** |
| Dynion | 36,262 | **49.7%** | 1,563,524 |
| Merched | 36,633 | **50.3%** | 1,606,062 |
| Oedran 0-15 | 10,774 | **14.8%** | 562,730 |
| Oedran 16-64 | 43,453 | **59.6%** | 1,938,266 |
| Oedran 65+ | 18,668 | **25.6%** | 668,590 |
| | | | |
| Siarad Cymraeg | 34,964 | 47.3% | 19% |
| Dim sgiliau Cymraeg | 31,286 | 42.4% | 73.3% |

Ffynhonnell: ONS, MYE: 2012 & 2020 & Cyfrifiad 2011





Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

## Iechyd:

| | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|
| Diagnosis o gyflwr cronig a gofnodwyd gan feddyg teulu *(cyfradd fesul 100)* | 12.7 | 14.3 |
| Salwch Hirdymor Cyfyngol *(cyfradd fesul 100)* | 20.0 | 22.7 |
| Marwolaethau cynamserol *(cyfradd fesul 100,000)* | 322.4 | 382.4 |
| Diagnosis o gyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddyg teulu *(cyfradd fesul 100)* | 19.9 | 23.2 |
| Nifer yr achosion o Ganser *(cyfradd fesul 100,000)* | 545.5 | 611.9 |
| Pwysau Geni Isel, Genedigaethau Sengl (genedigaethau byw sy'n llai na 2.5 Kg) *(%)* | 4.8 | 5.5 |
| Plant 4-5 oed sy'n Ordew *(%)* | 10.5 | 11.8 |

Ffynhonnell: WIMD 2019

## Diogelwch Cymunedol:




Ffynhonnell: WIMD 2019

## Mynediad i Wasanaethau:

Amser teithio dwyffordd cyfartalog cyhoeddus i siop fwyd

**64 (minutes)**

Amser teithio dwyffordd cyfartalog cyhoeddus i meddygfa

**80 (minutes)**

Diffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e

**19.3%**

Ffynhonnell: WIMD 2019

## Yr Amgylchedd Ffisegol:

| | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|
| **Y pellter cyfartalog i'r Parc, Ardd Gyhoeddus neu'r Cae Chwarae agosaf (m)** | 914 | 432 |
| **Canran y cyfeiriadau gyda gofod awyr agored preifat** | 88% | 91% |
| **Sgôr cartrefi sydd mewn perygl o lifogydd** | 22.5 | - |


Ffynhonnell: WIMD 2019 & ONS 2021

## Trefniadau tai a byw:

| | Ceredigion | |
|---|---|---|
| | Rhif | % |
| Cyfanswm yr aelwydydd | 31,562 | - |
| Pob cartref un person | 10,456 | 33.1% |
| Pob cartref â phlant dibynnol | 7,203 | 22.8% |
| Pob cartref 65+ | 8,261 | 26.2% |
| Maint cartref ar gyfartaledd (personau) | 2.3 | - |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

**Prisiau Tai ar gyfartaledd:**




Ffynhonnell: ONS, Median House Prices 2020

5.9% cartref heb wres canolog

5.08% cartref gorlawn


18.3% cartref heb gar na faniau

30.4% Tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael

Ffynhonnell: WIMD 2019 & Cyfrifiad 2011


# Economi a Chyflogaeth:

## % pobl o oedran gweithio mewn amddifadedd cyflogaeth:




Ffynhonnell: WIMD 2019

## Y 5 Prif Diwydiant Cyflogaeth:




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011.

Ffynhonnell: WIMD 2019

Oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau
**14.4%**


Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn mynd i Addysg Uwch

**32.2%**

| | Ceredigion | | Cymru |
|---|---|---|---|
| **Cyfradd Gweithgaredd Economaidd** | 35,064 | 61.1% | 65.8% |
| **Cyfradd Anweithgaredd Economaidd** | 22,341 | 38.9% | 34.2% |


Ffynhonnell: ONS 2021

## Cyfrif Hawlwyr:




Ffynhonnell: ONS 2021

## Incwm Canolrif Aelwydydd:




Ffynhonnell: CACI Paycheck 2021



# 9: Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

Mae'r 46 Dangosydd Cenedlaethol yn mesur cynnydd tuag at gyflawni'r saith Nod Llesiant Cenedlaethol. Mae Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion wedi ystyried y dangosyddion wrth ei gynhyrchu ac yn benodol lle maent yn cynorthwyo ein dealltwriaeth o lesiant yn y Sir, a gellir gweld cyfeiriadau trwy'r ddogfen hon. Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r canlyniadau diweddaraf ar gyfer cyfeirio atynt a'r Nodau Llesiant y mae'n eu cefnogi.

| | | | |
|---|---|---|---|
| ■ | Cymru lewyrchus | ■ | Cymru o gymunedau cydlynus |
| ■ | Cymru gydnerth | ■ | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| ■ | Cymru iachach | ■ | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| ■ | Cymru sy'n fwy cyfartal | N/A | Nid yw'r data ar gael ar lefel sirol |

| Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol | | Ceredigion | Cymru | Dyddiad y Canlyniad | Nodau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 1 | Canran y genedigaethau byw sengl â phwysau geni islaw 2,500g | 5.5% | 6.1% | 2020 | • | • | ■ | ■ | • | • | • |
| 2 | Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf amddifadus | 6.7 Merched<br>9.3 Bechgyn | 18.2 Merched<br>18.7 Bechgyn | 2010-14 | • | • | ■ | ■ | • | • | • |
| 3 | Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw | 10.80% (2019/20) | 7.41% | C4 2020/21 | • | • | ■ | ■ | ■ | ■ | • |
| 4 | Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer | 4 | 9 | 2019 | ■ | ■ | ■ | • | • | • | ■ |
| 5 | Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw | N/A | 12.31% | 2017/18 | • | • | ■ | ■ | ■ | • | • |
| 6 | Mesur o ddatblygiad plant bach | N/A | 7 mewn 10 Disgybl ar gam datblygu sy'n gyson neu'n fwy na'u hoedran mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol | 2019 | ■ | • | • | ■ | ■ | ■ | • |
| 7 | Sgôr pwyntiau 9 cyfartalog wedi'i gapio y disgyblion, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r rhai sydd a dim hawl | N/A | 74.9% (A*-C) | 2019/20 | ■ | • | • | ■ | • | ■ | • |
| 8 | Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol | 86.9% Lefel 2+<br>72.9% Lefel 3+<br>51.6% Lefel 4+<br>4.8% | 80.9% Lefel 2+<br>62.3% Lefel 3+<br>41.4% Lefel 4+<br>7.3% | 2020 | ■ | • | ■ | ■ | • | • | • |

| Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol | | Ceredigion | Cymru | Dyddiad y Canlyniad | Nodau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| | | Dim | Dim | | | | | | | | |
| 9 | Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU) | 70.22 | 84.10 | 2019 | ■ | • | • | • | • | • | • |
| 10 | Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen | £16,673 | £17,100 | 2018 | ■ | • | ■ | ■ | • | • | • |
| 11 | Y ganran o'r busnesau sydd wrthi'n arloesi | N/A | 34% | 2016-18 | ■ | ■ | • | • | • | • | ■ |
| 12 | Capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod | 266 | 4,059 | 2019 | ■ | ■ | • | • | ■ | • | ■ |
| 13 | Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd (gC y Kg) | N/A | 107.6 | 2013-16 | ■ | ■ | • | • | • | • | ■ |
| 14 | Ôl Troed Ecolegol Cymru (Mgha = million global hectares) | N/A<br><br>3.59 (gha/c) | 10.05<br><br>3.28 (gha/c) | 2011 | ■ | ■ | • | • | • | • | ■ |
| 15 | Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen | 226 kg | 180 kg | 2018/19 | ■ | ■ | • | • | ■ | • | ■ |
| 16 | Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU | N/A | 70.7% | 2020 | ■ | • | ■ | ■ | • | • | ■ |
| 17 | Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau | -£3.08 | £0.59 | 2020 | ■ | • | • | ■ | • | • | • |
| 18 | Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU, wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn | 32.4% Pob Oedran (2020)<br>32.9% Pob Oedran Cymru (2020) | 30.6% Plant<br>22.35% Oedran gwaith<br>17.86% Pensiynwyr | 2017-20 | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| 19 | Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol | 11% | 13% | 2019/20 | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| 20 | Y ganran o'r bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith | N/A | 82% | 2019/20 | ■ | • | ■ | ■ | • | • | • |
| 21 | Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith | 73.3% | 72.2% | 31 Maw 2021 | ■ | • | ■ | ■ | • | • | • |
| 22 | Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran | N/A | 88.9% 16-18oed<br>84.3% 19-24oed | 2019 | ■ | • | ■ | ■ | ■ | • | • |
| 23 | Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol | 18% | 19% | 2018/19 | • | • | • | ■ | ■ | • | ■ |
| 24 | Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y | 70% | 80% | 2018/19 | • | • | ■ | ■ | ■ | • | • |

| Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol | | Ceredigion | Cymru | Dyddiad y Canlyniad | Nodau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| | cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt | | | | | | | | | | |
| 25 | Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio | 89% | 71% | 2018/19 | • | • | ■ | ■ | ■ | • | • |
| 26 | Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw | 94% | 85% | 2018/19 | • | ■ | ■ | | ■ | ■ | • |
| 27 | Y ganran o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch | 58% | 52% | 2018/19 | • | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |
| 28 | Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli | 30% | 26% | 2019/20 | • | • | • | • | ■ | ■ | ■ |
| 29 | Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl | N/A | 51 | 2018/19 | • | • | ■ | ■ | • | • | • |
| 30 | Y ganran o'r bobl sy'n unig | N/A | 15% | 2019/20 | • | • | ■ | ■ | ■ | • | • |
| 31 | Y ganran o'r anheddau sydd heb beryglon | N/A | 82% | 2017/18 | • | ■ | ■ | ■ | ■ | • | • |
| 32 | Nifer yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr | 513 Afon<br>557 Llanw | 20,518 Afon<br>9,792 Llanw | 2019 | • | ■ | ■ | ■ | ■ | • | • |
| 33 | Y ganran o'r anheddau gyda pherfformiad ynni digonol | N/A | 47% | 2017/18 | ■ | ■ | ■ | • | • | • | ■ |
| 34 | Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref am bob 10,000 o aelwydydd | 32 | 405 | 2019/20 | ■ | • | ■ | ■ | ■ | • | • |
| 35 | Y ganran o'r bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn | 66% | 71% | 2019/20 | • | • | ■ | ■ | ■ | ■ | • |
| 36 | Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg | 36% | 10% | 2019/20 | • | • | • | • | ■ | ■ | ■ |
| 37 | Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg | 47.3% | 19.0% | 2011 | • | • | • | • | ■ | ■ | ■ |
| 38 | Y ganran o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos | 34% | 32% | 2019/20 | • | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | • |
| 39 | Y ganran o'r amgueddfeydd ac archifau sy'n dal casgliadau archifol/treftadaeth sy'n cyrraedd safonau achredu'r DU | N/A | 59% Amgueddfeydd<br>86% Archifau | 2019 | • | • | • | • | • | ■ | ■ |
| 40 | Y ganran o asedau dynodedig yr amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well | 79% Cofadeiladau<br>76.6% Adeilad Rhestredig | 59% Cofadeiladau<br>76% Adeilad Rhestredig | 2020/21 | • | ■ | • | • | • | ■ | ■ |
| 41 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru (MtCO2e) | N/A | 77.0 | 2019 | ■ | ■ | ■ | • | • | • | ■ |

| Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol | | Ceredigion | Cymru | Dyddiad y Canlyniad | Nodau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 42 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru (MtCO2e) | N/A | 34 | 2011 | ■ | ■ | ■ | • | • | • | ■ |
| 43 | Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru (ha) | N/A | 640,827 | 2018 | ■ | ■ | ■ | • | ■ | ■ | ■ |
| 44 | Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru | Dangosydd yn cael ei ddatblygu | | | ■ | ■ | • | • | ■ | ■ | ■ |
| 45 | Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb, a'r cyrff dŵr daear, sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan | N/A | 40% | 2019 | • | ■ | ■ | • | ■ | ■ | ■ |
| 46 | Yr adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau gan bartneriaethau Cymreig yng Nghymru a'r tu allan i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig | Dangosydd yn cael ei ddatblygu | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ |

# Fframwaith Rhanbarthol Ymgysylltu ac Ymgynghori

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**Awdur** / Author: Grŵp Gweithio Rhanbarthol Sir Caerfyrddin, Ceredigion & Sir Benfro

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 2

2. Cefndir 2

3. Dull Rhanbarthol i Ymgysylltu ac Ymgynghori 3

*3.1 Cysylltu'r Deddf Llesiant Cenedlaethol a Deddf Llesiant y Gwasanaethau Cymdeithasol* 4

*3.2 Safonau* 5

*3.3 Themâu Ymgysylltu Craidd* 5

*3.4 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid* 6

*3.5 Ymgynghori Diweddar Perthnasol* 6

*3.6 Eglurhad ar Cynnal yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol* 7

*3.7 Opsiynau Ymgysylltu* 8

*3.8 Dull Rhanbarthol a Lleol* 8

4. Y Cynllun Gweithredu 10

Atodiad 1 – Llinell Amser 12

Atodiad 2 – Strwythur Grwpiau BGC Gorllewin Cymru 13

# Asesiad o Lesiant Lleol: Dull Rhanbarthol i Ymgysylltu ac Ymgynghori

## 1. Cyflwyniad

Nod y Fframwaith Rhanbarthol Ymgysylltu ac Ymgynghori yw darparu dull safonol wrth gynnal digwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol, ar draws tair ardal y BGC sef Sir Caerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae ein dull 'dan arweiniad ymgysylltu' i'r Asesiad, yn sicrhau mae barnau ein dinasyddion ydy'r prif yrwyr wrth gynhyrchu'r ddogfen a'u rhoi wrth wraidd y Cynllun Llesiant nesaf. Mae'r dull rhanbarthol o ymgysylltu ac ymgynghori yn darparu cyfleoedd i gasglu barnau a blaenoriaethau lleol (data agwedd), cyd-destunol a phrofi canfyddiadau meintiol amlwg a llenwi unrhyw fylchau wrth ddadansoddi.

## 2. Cefndir

Mae'r Asesiad o Lesiant a'r Asesiad Poblogaeth yn ofynion o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Ymgysylltu ac Ymgynghori yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth - mae'n darparu **data ansoddol** sydd yn helpu ni i ddeall profiadau, agweddau a storïau pobl. Hefyd, bydd y proses yma yn helpu ni i adnabod unrhyw fylchau yn y data ac adnabod y grwpiau sydd 'ar goll' mewn rhifau (er enghraifft, y gymuned ddigartref). Bydd hyn hefyd yn ategu'r **data meintiol**, a fydd yn golygu cael mewnwelediad mwy dwfn. Mae Ffig 1. yn dangos y pedwar cam i gynhyrchu'r Asesiadau.

**Ffig 1. Y Pedwar Cam i gynhyrchu'r Asesiadau o Lesiant Lleol.**



Mae Asesiad Llesiant neu Asesiad Poblogaeth dda wedi'i adeiladau ar ddata o'r ddau fath (ansoddol a meintiol) ac mae'r perthynas yn ddynamig - efallai bydd y data yn awgrymu bod mater yn bryder ond bydd y data ansoddol yn cadarnhau neu yn gwadu os bod y mater yn bryder i ddinasyddion, a hefyd os bod canfyddiadau pobl wedi'i ategu gan ddata. Bydd cyfuniad effeithiol o'r rhain wrth ddadansoddi'r data yn helpu sefydlu'r Asesiadau fel pe bai ganddo radd uchel o berthnasedd polisi, yn enwedig yng nghyd-destun gyrru Cynlluniau Llesiant.


## 3. Dull Rhanbarthol o Ymgysylltu ac Ymgynghori

Mae cynnwys pobl a chymunedau yn effeithiol, yn rhan hanfodol o wella llesiant. Felly, bydd ymgysylltu ac ymgynghori yn yrrwr allweddol yn ystod y rownd yma o asesiadau, a fydd yn cael ei chynnal mewn dau rhan - bydd yr ymgysylltu cychwynnol ac yna ymgynghoriad ar yr Asesiad drafft o Lesiant Lleol.

Bydd gwaith ymgysylltu gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a dinasyddion yn cymryd lle yn ystod Awst-Medi 2021. Ar ôl hynny, bydd dadansoddiad o'r darganfyddiadau gyda'r bwriad o gwblhau drafftiau cyntaf yr Asesiadau erbyn hydref 2021.

Bydd ymgynghoriad ar ddrafft yr Asesiadau yn digwydd rhwng Tachwedd 2021 ac Ionawr 2022, cyn cael ei diwygio a'i chyhoeddi yn hwyr ym mis Mawrth 2022. Bydd yr Asesiad yn hanfodol wrth adeiladu'r Cynlluniau Llesiant nesaf erbyn Mai 2023. Mae Ffig 2 yn dangos y digwyddiadau a'r raddfa amser er mwyn cwblhau'r ymgysylltu ac ymgynghori ar gyfer yr Asesiadau. Mae llinell amser mwy manwl sydd yn amlinelli brif nodau'r Asesiadau i fyny at y dyddiad cyhoeddi ym Mawrth 2022, wedi'i chynnwys fel Atodiad 1.

**Ffig 2. Defnyddio Dull Gorllewin Cymru o Ymgysylltu**




| Llinell Amser | Gweithgaredd |
|---|---|
| Mai - Meh 2021 | Ymgysylltu Rhanbarthol gydag aelodau'r BGC ar yr Arolwg Rhanbarthol |
| Gorff 2021 | Y Grŵp Arolwg Rhanbarthol yn cynllunio'r Arolwg Llesiant Rhanbarthol |
| Awst - Medi 2021 | Yr Arolwg Rhanbarthol yn rhedeg gyda'r digwyddiadau rhanddeiliaid |
| Tach - Rhag 2021 | Ymgynghoriad ar yr Asesiad drafft o Lesiant Lleol |

Bydd y dull rhanbarthol i ymgysylltu ac ymgynghori yn galluogi partneriaid i gymryd mantais o’r adnoddau cyfunol ar lefel rhanbarthol, ond hefyd i ddarparu’r hyblygrwydd i drefnu yn lleol i gipio data lleol pwrpasol:

**Cyfuno adnoddau yn Rhanbarthol**

- Cynllunio - cynnwys cytuno ar y ddogfen Fframwaith Rhanbarthol yma, y Fethodoleg ar y cyd a’r llinellau amser cyffredinol ar gyfer cyhoeddi.
- Rhannu cynhwysedd - cynnwys y proses o recriwtio Cydlynydd Llesiant Rhanbarthol, trafod y cynnydd gyda Tîm Partneriaeth y Llywodraeth Leol ac ymgeisio am gymorth o Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.
- Cyflwyno ymarferion ymgysylltu y gellir eu cyflwyno ar raddfa - cynnwys rhedeg y gweithdai ymgysylltu gydag Aelodau’r BGC er mwyn cipio eu barnau ar draws y tair ardal BGC, a hefyd dylunio a rhedeg yr arolwg llesiant rhanbarthol.

**Defnyddio fformat cyffredin gyda adnoddau ein hunan a trefnu yn lleol**

- Adnabod data ymgynghori perthnasol sydd yn bodoli yn barod
- Cynnal digwyddiadau ymgysylltu i fformat safonol, ond wedi cynnal ar sail sirol, er enghraifft y pecyn cymorth rhanddeiliaid ar gyfer rhedeg gweithgareddau rhanddeiliaid.

## 3.1 Cysylltu’r Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a’r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Mae’r tabl isod yn dangos sut mae gofynion y Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn debyg i gofynion y Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Ble mae’n bosib, cymerir cyfleodd i alinio’r gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn ymateb i ofynion y ddwy ddeddfwriaeth. Efallai bydd hyn trwy gyfuno gweithgareddau ymgysylltu, rhannu arbenigedd neu trwy gyd-drefnu'r ddau fel bod nhw’n ategu ei gilydd.

**Tabl 1: Gofynion Ymgysylltu y Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a’r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

| | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
|---|---|---|
| **Grwpiau Poblogaeth Allweddol** | Cymunedau yn yr ardal; cymunedau o ddiddordeb yn yr ardal; cynghorau tref a chymuned<br><br>Grwpiau allweddol awgrymwyd yn unol â’r Ddeddf Cydraddoldeb (hefyd plant sy’n agored i niwed / dan anfantais, pobl ifanc a phobl gydag anghenion gofal a chymorth) | Gofalwyr a phobl gydag anghenion cymorth gan gynnwys plant & phobl ifanc;<br>anabledd ffisegol;<br>anabledd dysgu;<br>iechyd meddwl;<br>pobl hyn;<br>dioddefwyr o gamdriniaeth ddomestig |
| **Diffiniad ‘Llesiant’** | Economeg, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol | Unigol (gofalwyr a’r rhai gydag anghenion cymorth) |

| Graddfa yr Asesiad | Ardaloedd sirol a cymunedol | Rhanbarth (gyda dimensiwn sirol) |
|---|---|---|

### 3.2 Safonau

Byddwn ym mabwysiadu'r Egwyddorion a'r Safonau Cenedlaethol mewn i'r gwaith a'r gweithgareddau ymgysylltu:

- Yr *Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru* - datblygwyd yr Egwyddorion gan Gyfranogaeth Cymru ac maent wedi'i arnodi gan Lywodraeth Cymru.
- *Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc*
- *Y Pum Egwyddor Cyd-gynhyrchu* - mae cyd-gynhyrchu yn ddull sy'n seiliedig ar asedau i wasanaethau cyhoeddus, sy'n galluogi pobl sydd yn darparu a phobl sydd yn derbyn gwasanaethau i rannu pŵer a chyfrifoldeb, ac i weithio ynghyd mewn perthnasau cyfartal, cilyddol a gofalgar.

### 3.3 Themâu Ymgysylltu Craidd

Bydd ymgysylltu yn ffocysu ar agweddau, teimladau a phrofiadau llesiant gwahanol grwpiau ar draws tair ardal y BGC, yn enwedig o ran:

- Llesiant Cymdeithasol
- Llesiant Economaidd
- Llesiant Amgylcheddol
- Llesiant Diwylliannol

Yn debyg i'r rownd ddiwethaf o asesiadau, byddwn yn fabwysiadau'r 'model camau bywyd', sydd yn galluogi mewnwelediad unigryw mewn i'r gwahaniaethau a'r cyffelybiaethau o brofiadau llesiant trwy gydol bywyd person. Mae yna pum cam fywyd, Dechreuadau Newydd, Plentyndod, Ieuenctid, Oedran Gwaith Oedolion ac Oedolion Hyn, gwelir Ffig 3. Mae'r dull yma yn cyd-fynd gyda'r dystiolaeth bod ein llesiant personol yn newid dros amser ac yn darparu'r buddion penodol canlynol:

- Mae'n darparu ffordd o integreiddio ar draws themâu trwy ffocysu ar, er enghraifft, ystyried y perthynas rhwng amddifadedd, ansawdd tai ac iechyd.
- Bydd defnyddio'r dull yma wrth ymgysylltu ac ymgynghori yn darparu dealltwriaeth fanwl o lesiant unigolion a'i anghenion gwasanaethau cyhoeddus.

**Ffig 3: Y Dull Camau Bywyd a Fabwysiadwyd gan y tri BGC**




## 3.4 Ymgysylltu Rhanddeiliaid

Mae casglu barnau'r gymuned leol, yn enwedig y grwpiau anodd ei chyrraedd a’r rhai gyda nodweddion gwarchodedig, yn holl bwysig wrth ymgymryd â’r asesiadau. Y tro yma, mae hefyd angen darpariaeth benodol wrth ystyried pandemig Covid-19 i sicrhau bod yr ymgysylltu yn parhau i fod yn gynhwysol a bod y dinasyddion sydd ddim yn medru cymryd rhan ar-lein neu o bell, yn cael ei ystyried. Mae dadansoddiad cynhwysfawr o rhanddeiliad wedi’i wneud i adnabod y set gyffredin o grwpiau i ymgysylltu efo, maent yn cynnwys y canlynol:

| **Rhestr Craidd Rhanddeiliaid** | | |
|---|---|---|
| Siambrau Masnach | Grwpiau / Cynghorau Ieuenctid | Grwpiau / Fforwm Digartrefedd |
| Cynghorau Tref a Chymuned | Undebau Myfyrwyr | Grwpiau Crefyddol |
| Grwpiau Menter Cymunedol | Fforwm 50+ | Grwpiau Cymorth Covid-19 |
| Grwpiau defnyddwyr a gofalwyr gwasanaethau | Canolfannau teuluoedd / rhieni | Rhestr Rhanddeiliaid Hywel Dda |
| Undebau Llafur | Ysgolion / cynghorau ysgolion | Red Cross |
| Panel Dinasyddion | Sefydliadau Chwaraeon | Fforwm Landlordiaid |
| Fforwm Gofalwyr | Cyrff Llywodraethu | Sefydliadau cymunedol dysgu oedolion |
| Sefydliadau partneriaid y BGC | Lleoliadau Busnesau a Twristiaeth | Fforwm Cefnogi Pobl |
| Grwpiau Anabledd / Mynediad | Fforwm y Lluoedd Arfog | Partneriaeth Strategol Tai |
| Grwpiau gweithredu Dementia | Grwpiau Gofalwyr Maeth | Sefydliadau’r Trydydd Sector |
| Cymdeithasau Deiliad | Grwpiau Gofalwyr Ifanc | Grwpiau Ffermwyr Ifanc |
| Grwpiau Cydraddoldeb arall | Grwpiau / Fforwm Iechyd Meddwl | Grwpiau Ieuenctid |
| Elusennau sy’n helpu gofalwyr a’r rhai gyda anghenion cymorth | Grwpiau Lleol Dechrau’n Deg | Cofrestr Gofalwyr |
| Clybiau ar ôl ysgol | Grwpiau Crefyddol | Grwpiau Cymunedol a Chwaraeon |
| Canolfannau Teulu | Addysg Uwch a Bellach | Meddygfeydd Meddygon Teulu |
| Sefydliadau Tai / RSLs | Papurau Cymunedol | Sefydliadau Rhieni ac Athrawon |

| | | |
|---|---|---|
| Meithrinfeydd y Sector Preifat / Cynlluniau Chwarae | Llywodraethwyr Ysgolion | WI |
| Partneriaethau Diogelwch Cymuned | Rhwydwaith Sipsiwn a Theithwyr | Grŵp Gweithredu Lleol |
| Grwpiau Cymorth Cymunedol Covid | Age Cymru | Rhestr Rhanddeiliaid Hywel Dda |

### 3.5 Ymgynghoriad Perthnasol Diweddar

Un o'r ffynonellau allweddol sydd ar gael i'r BGC ydy ymgynghoriadau diweddar, mae rhestr sampl i Geredigion ar gael isod:

- Cynllun Strategol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (2017-2020)
- Cynllun Strategol Cydraddoldeb (2020-2024)
- Ymchwil Prifysgol Aberystwyth: Effaith Covid-19
- Adeiladu dyfodol iachach yn dilyn Covid-19 - Hywel Dda
- Adroddiad Diweddariad Economaidd
- Rhoi Hwb i Economi Ceredigion: Strategaeth ar gyfer Gweithredu
- Ail-gysylltu Natur
- Ymgynghoriad y Cynllun Datblygu Lleol
- Ymgynghoriad Cyhoeddus ar wastraff
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Canllawiau Agor Llwybrau Cwricwlwm i Gymru
- Ymgynghoriad Strategaeth Gweithgareddau Ffisegol
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

Bydd y bylchau wrth ddadansoddi yn amrywio ym hob sir. Felly, awgrymwyd bod gweithgareddau ymgysylltu sy'n benodol i bob sir yn adlewyrchu ac yn nodi'r gwahaniaethau.

### 3.6 Dewisiadau Ymgysylltu

| Techneg | Disgrifiad | Ystyriaethau | Graddfa Trosglwyddiad | Graddfa Amser |
|---|---|---|---|---|
| **Arolwg Llesiant Rhanbarthol** | Casglu data meintiol ac ansoddol trwy'r arolwg llesiant. Bydd copïau papur a chopïau ar-lein ar gael (gan gynnwys hawdd ei ddarllen a thestun plaen). Bydd ymatebion ar-lein yn cael ei annog ond bydd gwasanaeth papur ar gael.<br><br>Dolennau i'r arolwg ar-lein i'w ddanfon i'r holl rhanddeiliaid sydd wedi canfod yn y Rhestr Graidd Rhanddeiliaid. | ▪ Cost<br>▪ Amser – pob sir i gyd-drefnu cynhyrchiant a mewnbynnu'r arolwg<br>▪ Cynnwys cwestiynau demograffig / canlyniadau traws pynciol.<br>▪ Sicrhau bod y dull papur yn cael ei asesu o ran risg Covid-19 ac yn cydymffurfio i ganllawiau'r Awdurdod Lleol. | Rhanbarthol | i) Gwaith paratoi (dyluniad yr arolwg & samplau) Gorffennaf 2021<br>ii) Trosglwyddiad (amser ymateb, mewnbwn data & postio allan ar gais) – 26ain Gorffennaf i 9fed Awst<br>iv) Bwriadau rhedeg yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol o 10fed Awst i 8fed Hydref 2021 9 wythnos<br>iii) Dadansoddi – 11eg Hydref i 29ain Hydref |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaeth dros y ffon wedi darparu i sicrhau bod gan bawb y cyfle i gymryd rhan wrth fod mewn cyfnod clo gyda mesuriadau pellter cymdeithasol mewn lle. (Ceredigion yn unig) | ▪ Sicrhau bod y dulliau ar gael i ddinasyddion sydd heb fynediad digidol.<br>▪ Blinder Arolygon | | |
| **Digwyddiadau Rhanddeiliaid** | Gwahodd rhanddeiliaid allweddol i ddigwyddiadau rhyngweithiol er mwyn trafod heriau cymwys mewn grwpiau. Wedi'i dal dros gynhadledd fideo. Defnyddio arolwg barn a chwestiynau trafod allweddol. | • Cynulleidfa Targed<br>• Presenoldeb<br>• Pecyn Cymorth Rhanddeiliaid<br>• Mynediad i'r rhai heb mynediad digidol | Dull cyffredin wedi cytuno yn rhanbarthol ond wedi'i trosglwyddo yn lleol | ▪ Amser – tua 3 wythnos i baratoi (cyhoeddusrwydd, gosod agenda) |
| **Grwpiau Ffocws** | Grwpiau ffocws o sefydliadau'r BGC i gwirio'r Asesiad drafft o Lesiant a casglu barnau arbenigol. | • Presenoldeb<br>• Aelodaeth y Grwpiau Ffocws<br>• Galluoedd sefydliadau y BGC | Lleol | • Unwaith bod digwyddiadau wedi rhestri a'r fformat wedi penderfynu, bydd modd cymryd dull adweithiol. |
| **Cymryd rhan mewn digwyddiadau a cyfarfodydd arall** | Ymuno a cyfarfodydd yn rhithiol sydd wedi sefydlu yn barod. | ▪ Adnabod digwyddiadau / cyfarfodydd addas | Lleol | • Unwaith bod digwyddiadau wedi rhestri a'r fformat wedi penderfynu, bydd modd cymryd dull adweithiol. |
| **Engagement HQ** | Platfform ymgysylltu rhyngweithiol. Os yn ddefnyddiol mewn amser, bydd Engagement HQ yn cynnig cyfleoedd deniadol ar-lein i bobl er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn yr Asesiad o Lesiant Lleol. Bydd offer yn cynnwys fforymau, syniadau, ardaloedd a storïau. | • Llwyddiant y treial<br>• Amseru | Rhanbarthol | • Yn dibynnol ar os bod meddalwedd ar gael mewn amser ac yn dibynnol ar llwyddiant y treial. |

### 3.7 Eglurhad ar gynnal yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol:

Bydd y **Grŵp Ymgysylltu Gweithiol Rhanbarthol**, sydd wedi gwneud i fyny o 'arweinwyr ymgysylltu' o'r sefydliadau BGC ar draws y tair ardal, yn cael ei chreu yn Mai/Mehefin 2021 a fydd yn rhedeg gweithdai i gasglu barnau partneriaid ar sut dylai'r ymgysylltu a'r ymgynghori cael ei chynnal ar gyfer y rownd yma o asesiadau, ynghyd a chasglu barnau ar y themâu dylwn gynnwys.

Bydd y **Grŵp Arolwg Rhanbarthol**, sydd wedi gwneud i fyny o arweinwyr ymgysylltu yr awdurdodau lleol ac unrhyw aelodau'r BGC sydd efo diddordeb mewn bod yn rhan o ddylunio'r arolwg, yn cwrdd yn ystod Gorffennaf 2021 i ystyried yr adborth o aelodau'r BGC ac i ddatblygu'r Arolwg Llesiant Rhanbarthol a'r digwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol. Bydd yr arolwg ei hunan yn cael ei rhedeg gan Gyngor Sir

Caerfyrddin ond ei dadansoddi gan y BGC unigol. Mae strwythur grwpiau BGC Gorllewin Cymru wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

Bydd partneriaid unigol yn rheoli lledaenu a'r mewnbwn data o'r **ymatebion papur/ffisegol** ar gyfer ei ardal/sefydliad. (Bydd yr ymatebion ffisegol yn cynnwys y fersiynau hawdd ei ddarllen a thestun plaen o'r arolwg).

Mae ymgysylltu ac ymgynghori llwyddiannus yn ddibynnol ar **gyfathrebiad effeithiol**. Er bydd y cynnwys yn cael ei datblygu yn ganolog, bydd partneriaid unigol yn uchafu'r cyfleoedd i hysbysebu'r arolwg rhanbarthol a'r digwyddiadau rhanddeiliaid trwy sianelu lleol presennol. Bydd mecanweithiau yn cynnwys papurau cyngor am ddim, gwefannau, y cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw fecanweithiau arall a defnyddiwyd gan sefydliadau unigol.

### 3.8 Dull Rhanbarthol a Lleol

Ar y lefel lleol (sirol), bydd Cynghorau yn arwain rhedeg yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol ond yn ymgysylltu yn llawn gyda phartneriaid y BGC i gyd. Bydd y tri Awdurdod yn rhannu ymarferion gorau a syniadau trwy'r Grŵp Arolwg Rhanbarthol mewn perthynas â'r dull arfaethedig, i ddysgu ac ymarfer yn well. Mae'r gwahaniaeth rhwng y gweithgareddau a gynhaliwyd yn rhanbarthol neu yn lleol wedi dangos isod:

<u>Wedi cytuno yn rhanbarthol, cynnal yn rhanbarthol:</u>

- Cytuno i ymgymryd yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol safonol (awdurdodau i benderfynu'r dull o ledaenu)

<u>Wedi cytuno yn rhanbarthol, cynnal yn lleol (fesul ardal BGC):</u>

- Mapio a chymryd rhan mewn cyfarfodydd a digwyddiadau presennol - cynnal yn ddibynnol ar y fformat cyffredin (gyda lle i wahaniaethau sirol)
- Digwyddiadau Rhanddeiliaid – cynnal yn ddibynnol ar y fformat cyffredin (gyda lle i wahaniaethau sirol)

<u>Wedi cytuno yn lleol, cynnal yn lleol:</u>

- Cynnal dadansoddiad bwlch o'r ymgynghoriad diweddar presennol i helpu i benderfynu ar faterion o ddiddordeb ymgysylltu ac ymgynghori sirol
- Datblygu rhestr o rhanddeiliaid lleol
- Gweithredu cynllun cyfathrebu ar gyfer cyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori


## 4. Cynllun Gweithredu

Amlinellir y Cynllun Gweithredu i gyflawni'r **Arolwg Llesiant Rhanbarthol** a'r **Digwyddiadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid** isod.


| **Beth** | **Sut** | **Pryd** (cwblhau) | **Pwy** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Dull cyffredinol i'r ymgysylltu a'r ymgynghori ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol** | Wedi cytuno trwy pob un o'r BGC | Chwefror 2021 | Pawb | Bydd cytundeb mewn partneriaeth a'r cyd-weithwyr rhanbarthol, bydd hyn yn galluogi rhannu adnoddau, galluoedd ac arbenigedd ar draws y tair sir. |
| **Adnabod arweinwyr ymgysylltu o sefydliadau y BGC** | Arweinwyr wedi adnabod trwy cysylltiadau sefydliadau | 1- 21 Mai 2021 | Pawb | I adnabod y cysylltiadau addas i fod yn rhan o'r Grŵp Ymgysylltu Gweithiol Rhanbarthol |
| **Cyfarfodydd y Grŵp Ymgysylltu Gweithio Rhanbarthol** | Gweithdai wedi cynnal gyda holl arweinwyr aelodau'r BGC | 28 Mai 2021 &<br>11 Mehefin 2021 | Pawb | I casglu barnau ar y dull cyffredinol i ymgysylltu efo y tro yma a'r themâu y dylwn cynnwys yn yr arolwg |
| **Grŵp Arolwg Llesiant Rhanbarthol** | Gweithdai wedi cynnal gyda arweinwyr ymgysylltu yr Awdurdodau Lleol ac arweinwyr aelodau'r BGC a oedd eisiau fod yn rhan o ddatblygu'r arolwg | 8 Gorffennaf 2021<br>&<br>9 Gorffennaf 2021 | Pawb | Grwpiau gweithiol llai o faint yn datblygu ac yn darparu'r Arolwg Llesiant Rhanbarthol yn seiliedig ar adborth o Aelodau'r BGC gan cynnwys – dyluniad yr arolwg, cytuno ar themâu, cytuno ar cwestiynau a therfynau amser. |
| **Cytuno ar fformat cyffredinol i'r sesiynau ymgysylltu rhanddeiliaid** | Gweithdai wedi cynnal gyda arweinwyr ymgysylltu yr Awdurdodau Lleol ac arweinwyr aelodau'r BGC a oedd eisiau fod yn rhan o ddatblygu'r gweithdai | 8 Gorffennaf 2021<br>&<br>9 Gorffennaf 2021 | Pawb | I gytuno yn y Grŵp Arolwg rhanbarthol, cynnwys cytuno ar y fformat cyffredinol, trefniadau recordio gwybodaeth o'r sesiynau ymgysylltu a chytuno ar drefniadau o gyfuno adroddiadau ymgysylltu. |
| **Adeiladau'r Arolwg Llesiant Rhanbarthol** | Defnyddio SNAP a'i cynnal gan Cyngor Sir Caerfyrddin | Gorffennaf 2021 | Pawb | Trosglwyddo'r arolwg a gytunwyd arno o'r Grŵp Arolwg Rhanbarthol i mewn i SNAP yn barod i fynd 'yn fyw'. |

| **Beth** | **Sut** | **Pryd** (cwblhau) | **Pwy** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Rhedeg yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol** | Yr arolwg ar-lein yn fyw ar SNAP ac wedi hysbysebu yn lleol | 10fed Awst to 8fed Hydref 2021 | Pawb | Mae'r arolwg SNAP yn fyw ar-lein a bydd copïau papur (hawdd ei ddarllen, testun plaen) ar gael os angen, a bydd yr arolwg yn cael ei hysbysebu yn lleol. |
| **Cynnal sesiynau ymgysylltu i adnabod cyfarfodydd rhanddeiliaid** | Defnyddio fformat cyffredin i'r digwyddiadau rhanddeiliaid | Awst i Medi 2021 | Pawb | Digwyddiadau yn cael ei chynnal dros dair ardal y BGC wrth ochr yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol, wedi'i chynnal gan sefydliadau aelodau'r BGC. |
| **Terfyn amser i'r holl adroddiadau adborth o'r digwyddiadau ymgysylltu efo rhanddeiliaid** | Adroddiadau ymgysylltu i'w bwydo yn ôl i'r arweinydd ymgysylltu ym mhob Awdurdod Lleol | 15 Hydref 2021 | Pawb | Mae'r adroddiadau adborth yn y fformat cyffredinol wedi'i chyfuno yn barod i ddadansoddi gan bob Awdurdod Lleol. |
| **Ymgynghoriad ffurfiol ar yr Asesiad o Lesiant Lleol** | Dogfen yn gyhoeddus ar wefannau partneriaid - datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol | Tachwedd i Ionawr | Pawb | Bydd hyn yn cael ei chyd-drefnu gan bob Awdurdod Lleol ond y bwriad yw ymgynghori yr un amser. |

## Atodiad 1 –Llinell Amser



# Atodiad 2 – Strwythur Grwpiau BGC Gorllewin Cymru



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion
## Arolwg Lles





Adroddiad Adborth Ymgysylltu

Tachwedd 2021

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | Cyflwyniad | 3 |
| **2** | Arolwg Lles | 4 |
| **3** | Arolwg Ysgolion | 27 |
| **4** | Digwyddiadau Rhanddeiliaid | 31 |
| **5** | Dweud eich Dweud Ceredigion | 35 |
| **6** | Nodweddion Gwarchodedig | 36 |

## Cefndir

Rhwng 10 Awst ac 8 Hydref 2021, bu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion yn ymgysylltu gyda phreswylwyr ynghylch lles yn y sir er mwyn cwblhau'r Asesiad Llesiant Lleol. Cynhaliwyd yr arolwg ar draws y rhanbarth, gyda Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, a safonwyd y cwestiynau er mwyn gallu adnabod materion rhanbarthol ehangach sy'n effeithio ar Orllewin Cymru.

## Cyfradd Ymateb

At ei gilydd, cafwyd **405** o ymatebion i'r arolwg, **39** yn Gymraeg, **366** yn Saesneg. Yn ogystal, cafwyd **741** o awgrymiadau a sylwadau ysgrifenedig, ac er nad oes modd cynnwys pob un ohonynt air am air yn yr adroddiad hwn, cynigir detholiad er mwyn dangos y gwahanol safbwyntiau.

## Methodoleg

O ganlyniad i bandemig iechyd parhaus COVID-19, darparwyd yr arolwg ar-lein ac fe'i hysbysebwyd trwy rwydweithiau partneriaid BGC a chyfryngau cymdeithasol. Roedd copïau papur ar gael hefyd, ynghyd â fersiwn mewn iaith hawdd i'w darllen, ac o wneud cais, roedd modd i ymatebwyr roi eu hymatebion dros y ffôn. Lluniwyd rhestr o'r rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod pob partner a grŵp lleol yn cael gwybod am yr arolwg.


Bydd BGC yn defnyddio adborth preswylwyr, busnesau a grwpiau eraill er mwyn helpu i gyfrannu at yr Asesiad Llesiant Lleol, a'r Cynllun Llesiant pum mlynedd yn dilyn hyn.

Mae'n bwysig nodi mai rhan o'r gweithgarwch ymgysylltu a gynlluniwyd i gynorthwyo'r Asesiad Llesiant Lleol oedd yr Arolwg Lles. Yn ogystal, trefnwyd nifer o weithdai gyda grwpiau amrywiol ar draws y sir, a gynhaliwyd gan bartneriaid GC. Nod y rhain oedd ystyried y materion sy'n effeithio ar les yn y sir, ac ar eu grŵp nhw, yn fanylach. Defnyddiodd strwythur y sesiynau hyn ddull Tri Gorwel wrth feddwl am y dyfodol, lle'r oedd y cwestiwn cyntaf yn trafod ein sefyllfa bresennol, roedd yr ail gwestiwn yn trafod y cyfnod pontio rhwng lle'r ydym nawr a lle'r ydym yn dymuno bod, ac roedd y cwestiwn olaf yn trafod y man lle'r ydym yn dymuno bod, h.y. Ceredigion yr ydym yn dymuno ei chreu yn y dyfodol. Gellir gweld manylion pellach am y dull ymgysylltu a ddefnyddiwyd yn y Methodoleg Rhanbarthol a'r Pecyn Cymorth Ymgysylltu.


Mae'r paragraffau sy'n dilyn yn cynnig crynodeb o'r canfyddiadau.

## C1. Rydw i'n byw yng Ngheredigion

Y cwestiwn cyntaf a ofynnwyd i'r ymatebwyr yn ein Harolwg Lles oedd ym mha sir y maent yn byw, er mwyn gwahaniaethu data rhwng y rhanbarthau. O blith 1,333 o ymatebion, dywedodd 405 (30%) eu bod yn byw yng Ngheredigion.





## C2. Nodwch gyfeiriad post eich cartref heb ddefnyddio unrhyw fylchau (e.e. SA154EA)



Mae'r map uchod yn dangos o ble ddaeth yr ymatebion yng Ngheredigion. Roedd ail gwestiwn yr Arolwg yn gofyn i'r ymatebwyr nodi eu cod post llawn. Nodwyd cyfanswm o oddeutu 225 o wahanol godau post ar gyfer y cwestiwn hwn. Er y cafwyd 405 o ymatebion at ei gilydd, rhaid i ni ystyried y ffaith bod rhai pobl yn byw yn yr un ardal cod post efallai. O edrych ar y map uchod, mae'n amlwg y cafwyd ymatebion o bob cwr o Geredigion.

## C3. Ym mha grŵp oedran ydych chi?





Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'n Harolwg Lles rhwng 55 a 64 oed (21%). Roedd grŵp oedran 45 i 54 oed (20%) yn agos iawn y tu ôl. Roedd 18% o'r ymatebion gan y rhai rhwng 65 a 74 oed ac roedd 13% gan y rhai rhwng 35 a 44 oed. Dim ond 1% o'r ymatebion oedd gan y rhai 85+ oed. Nododd 2% o ymatebwyr y byddai'n well ganddynt beidio dweud i ba grŵp oedran y maent yn perthyn. Ni chafwyd unrhyw ymatebion gan y rhai dan 16 oed, er y cynhaliwyd arolygon eraill a oedd yn fwy addas i'r grŵp oedran hwn.

## C4. Beichiogrwydd a mamolaeth/tadolaeth: Nodwch a oes unrhyw rai o'r canlynol yn berthnasol i chi?




Nid oedd rhan fwyaf yr ymatebwyr i'r arolwg (97%) yn feichiog, nid oeddent wedi cael baban yn ystod y chwe mis diwethaf ac nid oeddent ar gyfnod o absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth. Nododd 2% o'r ymatebwyr y byddai'n well ganddynt beidio dweud ac roedd 1% o'r ymatebwyr wedi cael baban yn ystod y chwe mis diwethaf.

## C5. Rhyw: Sut fyddech yn disgrifio eich hun:





### Nodwch 'byddai'n well gennyf ddefnyddio term arall'

- Rhyweddhylifol
- Rhyweddhylifol
- Anneuaidd
- Rhywedd Hylifol (Nhw)
- Rhyweddhylifol

Disgrifiodd mwyafrif yr ymatebwyr i'n Harolwg Lles eu hunain fel unigolyn benywaidd (69%), a disgrifiodd 28% o'u hunain fel unigolyn gwrywaidd. Nododd 2% o ymatebwyr y byddai'n well ganddynt beidio dweud sut y byddent yn disgrifio eu hunain ac roedd yn well gan 1% ddefnyddio term arall. Nododd mwyafrif y rhai yr oedd yn well ganddynt ddefnyddio term arall mai 'Rhyweddhylifol' yw'r term y maent yn ei ffafrio.

## C6. Anabledd: A yw eich gweithgareddau dydd-i-ddydd yn cael eu cyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para 12 mis neu y mae disgwyl iddi bara o leiaf 12 mis arall?




Dywedodd 20% o'n hymatebwyr bod eu gweithgareddau dydd-i-ddydd yn cael eu cyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para 12 mis, neu y disgwylir iddi bara o leiaf 12 mis arall.

Dywedodd 76% nad yw eu gweithgareddau dydd-i-ddydd yn cael eu cyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para 12 mis neu y disgwylir iddi bara o leiaf 12 mis arall.

Roedd yn well gan 16 o ymatebwyr (4%) beidio datgelu'r wybodaeth hon.


## C7. Ailbennu rhywedd: A yw eich rhyw yr un fath â'r un a neilltuwyd i chi ar eich genedigaeth?




Dywedodd bron i 90% o ymatebwyr (89%) i'n harolwg lles bod eu rhyw yr un fath â'r un a neilltuwyd iddynt ar eu genedigaeth.

Atebodd 8% nac ydy i'r cwestiwn hwn, sy'n golygu nad yw eu rhyw yr un fath â'r un a neilltuwyd iddynt ar eu genedigaeth ac roedd yn well gan 3% beidio dweud.

## C8. Cyfrifoldebau Gofalu: A ydych chi'n darparu gofal rheolaidd, di-dâl a sylweddol ar gyfer perthynas, ffrind neu gymydog nad ydynt yn gallu ymdopi yn eu cartref heb help oherwydd salwch, eu hoedran neu anabledd?




Dywedodd 80 o'n hymatebwyr (20%) bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu a'u bod yn darparu gofal rheolaidd, di-dâl a sylweddol ar gyfer perthynas, ffrind neu gymydog nad ydynt yn gallu ymdopi yn eu cartref heb help oherwydd salwch, oedran neu anabledd.

Nododd bron i 80% o'r ymatebwyr (77%) nad oes ganddynt gyfrifoldebau gofalu ac roedd yn well gan 3% beidio datgelu'r wybodaeth hon.


## C9. Cyfeiriadedd Rhywiol: Beth yw'ch cyfeiriadedd rhywiol?




Nododd rhan fwyaf yr ymatebwyr i'n Harolwg Lles eu bod yn heterorywiol/strêt (82%). Roedd yn well gan 7% beidio dweud.

Dywedodd 5% o ymatebwyr eu bod yn ddeurywiol, dywedodd 2% eu bod yn fenyw hoyw/lesbiad neu arall a dywedodd dim ond 5 ymatebydd (1%) eu bod yn ddyn hoyw.

## C10. Grŵp Ethnig: Beth yw eich grŵp ethnig?





### Nodwch 'unrhyw grŵp ethnig arall'

- Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
- Groegwr/Groeges, Iddew/Iddewes Cymreig
- Canadiad Cymreig gyda hanes teulu ethnig Prydeinig (Albanaidd, Gwyddelig, Seisnig a Chymreig)

Nododd dros 90% o ymatebwyr eu bod yn ystyried eu bod yn perthyn i'r grŵp 'Gwyn (Cymro/Cymraes, Sais/Saesnes, Albanwr/Albanes, Gwyddel/Gwyddeles, Prydeiniwr/Prydeinwraig)' (93%). Nododd 3% eu bod yn ystyried eu bod yn perthyn i grŵp 'Gwyn arall, gan gynnwys Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig) ac roedd yn well gan 2% beidio dweud. Dim ond 4 ymatebydd neu 1% ddywedodd eu bod yn perthyn i grwpiau ethnig cymysg/lluosog.

Nododd 3 ymatebydd neu 1% eu bod yn perthyn i grŵp ethnig arall, gan nodi'r grŵp hwn, ac mae modd eu gweld yn y rhestr uchod.


## C11. Priodas a phartneriaeth sifil: A ydych chi?



Dywedodd union hanner yr ymatebwyr i'n Harolwg Lles eu bod yn briod (50%). 'Sengl' oedd yr ail ddewis mwyaf poblogaidd, ac roedd 97 o ymatebwyr wedi nodi hyn (24%). Nododd 10% o ymatebwyr eu bod wedi ysgaru neu wahanu ac roedd yn well gan 7% beidio dweud.

Yn yr un modd, roedd 10% o ymatebwyr naill ai mewn partneriaeth sifil (5%) neu'n ŵr/gwraig weddw (5%).

## C12. Crefydd: Beth yw eich crefydd chi?





### Nodwch unrhyw grefydd arall:

- Pagan
- Ysbrydegydd
- Pagan
- Pagan
- Pagan
- Crynwr
- Pagan
- Catholig
- Panentheist
- Pagan
- Pagan
- Pagan
- Tolkienism
- Ysbrydol
- Pagan
- Ietsism
- Ysbrydegydd

Nododd hanner ein hymatebwyr nad oes ganddynt unrhyw grefydd (50%) a dywedodd 39% eu bod yn Gristnogion (pob enwad). Roedd yn well gan 5% beidio dweud a nodwyd crefydd arall gan 4%, a gellir gweld yr ymatebion hyn yn y rhestr uchod. Dywedodd 4 ymatebydd (1%) eu bod yn Fwdhyddion.

## C13. Incwm yr Aelwyd: Tua faint o incwm fydd yn dod i'ch aelwyd bob blwyddyn?




Nododd rhan fwyaf ein hymatebwyr bod incwm eu haelwyd rhwng tua £15,001 a £30,000 (32%). Yr ail ateb mwyaf poblogaidd oedd bod incwm yr aelwyd dros £45,000 (21%) a rhwng £30,001 a £45,000 (21%). Nododd 14% o

ymatebwyr bod incwm eu haelwyd yn llai na £15,000 ac roedd yn well gan 13% o ymatebwyr beidio datgelu'r wybodaeth hon.

## C14. Yr Iaith Gymraeg: A ydych chi'n gallu deall, siarad neu ysgrifennu Cymraeg?




Dywedodd dros hanner ein hymatebwyr eu bod yn gallu deall Cymraeg a siaradir (54%). Roedd gallu siarad Cymraeg a gallu darllen Cymraeg wedi cael 44% o'r pleidleisiau, a dywedodd 38% eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg. Dewisodd 37% o'r ymatebwyr 'dim un o'r uchod', sy'n golygu nad ydynt yn gallu deall, siarad, darllen nac ysgrifennu Cymraeg.

## C15. Beth yw eich prif iaith?




Saesneg oedd prif iaith rhan fwyaf yr ymatebwyr i'n Harolwg Lles (81%). Cymraeg oedd prif iaith 17% o'r ymatebwyr ac roedd 2% wedi rhestru iaith arall, y gellir eu gweld yn y rhestr isod.

### Nodwch eich 'prif iaith' arall:

- Almaeneg
- Saesneg ond yn dysgu Cymraeg yn araf
- Almaeneg
- Almaeneg
- Byddai'n well gennyf beidio dweud
- Pwyleg
- Rwsieg
- Y brif iaith yw Saesneg. Cymraeg sylfaenol


## C16. A ydych chi'n gwirfoddoli?




Nododd mwyafrif ein hymatebwyr nad ydynt yn gwirfoddoli (66%). Wedi dweud hyn, dywedodd 34% eu bod yn gwirfoddoli.

## C17 Soniwch wrthym am eich gwaith gwirfoddol ac am sawl awr y mis y byddwch yn gwirfoddoli?


## C18. Pa dri pheth yr ydych chi'n eu gwerthfawrogi fwyaf mewn cymuned llewyrchus?




Y tri ateb mwyaf poblogaidd a ddewiswyd gan ymatebwyr pan ofynnwyd iddynt nodi'r tri pheth y maent yn ei werthfawrogi fwyaf mewn cymuned llewyrchus yw cyfleoedd i sicrhau tai fforddiadwy (47%), a ddilynwyd gan rwydwaith trafnidiaeth da sy'n bodloni anghenion yr ardaloedd gwledig a'r ardaloedd nad ydynt yn rhai gwledig (45%) ac incwm sefydlog (38%).

Yr ateb lleiaf cyffredin i'r cwestiwn hwn oedd gofal plant digonol a fforddiadwy(10%). Rydym yn gwybod bod prisiau gofal plant yn codi. Gwnaethpwyd mwyafrif yr ymatebion i'r arolwg hwn gan bobl dros 45 oed, ac mae'n llai tebygol bod angen gofal plant digonol a fforddiadwy arnyn nhw.


## C19. Gan edrych i'r dyfodol, beth sy'n eich pryderu chi fwyaf am lewyrch y sir?




Gan ystyried y dyfodol, diffyg tai fforddiadwy (62%) oedd y peth a oedd yn pryderu ymatebwyr fwyaf am ffyniant yn y sir, a diffyg cyfleoedd am swyddi addas oedd yn ail (58%). Mae'r ymatebion hyn yn cysylltu â'n canfyddiadau yn yr Asesiad ei hun, mae prisiau tai wedi bod yn codi ac mae costau byw wedi bod yn codi hefyd. Mae angen cael rhagor o gartrefi fforddiadwy yng Ngheredigion, ond hefyd, cyfleoedd i sicrhau swyddi sy'n cyfateb â phrisiau tai uwch a chostau byw uchel.

Yn ôl ein harolwg, y peth a oedd yn pryderu ein hymatebwyr leiaf am ffyniant yn y dyfodol oedd diffyg gofal plant digonol a fforddiadwy, ond er hyn, dewiswyd hwn gan 20% o'r ymatebwyr. Unwaith eto, bydd demograffeg oed ymatebwyr wedi cael effaith ar y mater hwn.


## C20. Beth fyddech chi'n ystyried ei wneud i wella eich amgylchiadau economaidd chi neu amgylchiadau economaidd eich cymuned?



Pan ofynnwyd beth fyddech chi'n ystyried ei wneud i wella eich amgylchiadau economaidd chi neu amgylchiadau economaidd eich cymuned, heb os, yr ateb mwyaf poblogaidd oedd cefnogi busnesau lleol (79%). Mae hon yn thema sy'n codi dro ar ôl tro ac yn thema a welir ar draws ein Harolwg Lles. Rydym yn gwybod bod Ceredigion yn cynnig nifer o gyfleoedd i brynu a gwerthu pob math o gynnyrch yn lleol ac mae ymatebwyr yn dymuno gwneud mwy o hyn.

Yn eithaf pell y tu ôl i hwn, yr ail ateb mwyaf poblogaidd oedd dilyn cymhwyster neu hyfforddiant (35%).

## C21. Pa gymorth y byddai angen iddo fod yn ei le i gyflawni'r pethau hyn?




Gan gyd-fynd â'r ymatebion uchod, nid yw'n peri syndod mai help ar gyfer busnesau lleol oedd ar frig y rhestr (58%) pan holwyd pa gymorth y byddai angen iddo fod yn ei le. Yn ail oedd mwy o gyflogaeth a gweithgarwch creu swyddi ar gyfer pobl leol (52%). Unwaith eto, mae'n peri syndod mai gofal plant digonol a fforddiadwy oedd yr ymateb lleiaf poblogaidd (16%), ond gallai hyn fod o ganlyniad i ddemograffeg yr ymatebwyr ac oherwydd ein bod wedi gweld cynnydd yn nifer y rhai sy'n gallu gweithio mewn ffordd hyblyg.

## C22. Unrhyw sylwadau eraill

Darparwyd 51 o sylwadau ysgrifenedig gan ymatebwyr ar gyfer yr adran hon o'r arolwg, sef 13% o gyfanswm yr ymatebwyr. Ni welwyd unrhyw dueddiadau clir o'r ymatebion hyn oherwydd y soniwyd am nifer o wahanol bynciau.

Un peth y soniwyd amdano ychydig yn fwy aml nag unrhyw beth arall efallai oedd cysylltedd digidol. Rydym yn gwybod nad yw tua 12% o aelwydydd yng Ngheredigion yn gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd. Yn ogystal, rydym yn gwybod bod nifer o fannau gwan yng Ngheredigion, y maent yn ei chael hi'n anodd cael cysylltiad ffôn a rhyngrwyd dibynadwy.

Mater arall y soniwyd amdano oedd mwy o gyfleoedd i fanteisio ar addysg a hyfforddiant pellach. Mae Ceredigion yn cynnwys poblogaeth sy'n heneiddio, rydym yn gwybod bod y cenedlaethau hŷn yn aml yn darganfod gwerth ac ymdeimlad o ddiben pan fyddant yn cwblhau cyrsiau neu hyfforddiant er mwyn gwella eu sgiliau.


Cyfeirir at gefnogi busnesau lleol yn yr ymatebion ysgrifenedig hyn hefyd, a nododd un cyfranogydd na allwn barhau fel yr ydym a bod yn rhaid i ni wneud newidiadau fel y gall pobl gefnogi busnesau yn lleol.

Isod, gweler sampl o sylwadau a gymrwyd o'r 52 o ymatebion ysgrifenedig a ddarparwyd ar gyfer yr adran hon o'r arolwg.

| **Sampl o sylwadau** | |
|---|---|
| "Mae Ceredigion Llewyrchus yn dibynnu'n fawr ar gysylltedd digidol da. Pam bod rhai rhannau gwledig o'r sir heb unrhyw gysylltiadau digidol o hyd." | "Cysylltedd digidol gwell – bydden i naill ai'n gweithio o bell y tu allan i'r sir (cyfleoedd a lefel y swydd) neu'n cychwyn busnes sy'n ddibynnol ar gysylltedd a chysylltiadau gwell o ran trafnidiaeth gyhoeddus." |
| "Cyfleoedd hyblyg i fanteisio ar ddysgu y tu allan i oriau gwaith." | "Cyfleoedd i fanteisio ar addysg amrywiol a diddorol, yn addysg academaidd ac ymarferol." |


| | |
|---|---|
| “Mae angen mwy o fuddsoddiad mewn busnesau newydd lleol, yn ogystal â’r celfyddydau, er mwyn helpu i wella symudedd cymdeithasol.” | “Rhaid i ni ystyried syniadau newydd ynghylch sut i gynorthwyo busnesau lleol yn lle parhau i wneud yr un peth.” |
| “Codi cyflogau byw neu orfodi landlordiaid i godi rhent sy’n fforddiadwy.” | “Gofal iechyd da, trafnidiaeth gyhoeddus, dylid ailgychwyn y marchnadoedd.” |

## C23. Pa dri pheth yr ydych chi'n eu gwerthfawrogi fwyaf am eich amgylchedd lleol?




Nododd ymatebwyr i'n Harolwg Lles mai mynediad i fyd natur a mannau gwyrdd oedd un o'r tri phrif beth yr oeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu hamgylchedd lleol (68%). Yn yr ail safle oedd bywyd gwyllt (46%) ac yn y trydydd safle oedd aer glân (42%).


## C24. Gan edrych i'r dyfodol, beth sy'n eich pryderu chi fwyaf am eich amgylchedd lleol?




Mae'n peri ychydig syndod mai'r peth a oedd yn pryderu ein hymatebwyr fwyaf am eu hamgylchedd lleol yn y dyfodol oedd taflu ysbwriel/tipio anghyfreithlon (65%), ac rydym bellach yn llawer mwy ymwybodol o'r effeithiau y gall taflu sbwriel/tipio anghyfreithlon eu cael ar ein hamgylchedd a'n bywyd gwyllt. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ffaith hefyd mai'r ail ateb mwyaf poblogaidd a ddewiswyd oedd yr effeithiau ar fywyd gwyllt (53%). Ein hymwybyddiaeth o'r ffordd y gall pethau yr ydym ni yn eu gwneud fel pobl, effeithio ar ein bywyd gwyllt a dyfodol cynefinoedd.

Yr ateb lleiaf poblogaidd oedd pryderon ynghylch cyflenwadau dŵr annigonol/sychder (14%).


## C25. Beth fyddech chi'n ystyried ei wneud er mwyn gwella'ch amgylchedd lleol?




Wrth holi beth fyddai ein hymatebwyr yn ystyried ei wneud er mwyn gwella eu hamgylchedd lleol, roedd tri ateb yn amlwg yn fwy poblogaidd na'r lleill. Defnyddio bwyd a gynhyrchir yn lleol (76%), ailgylchu mwy (74%) a lleihau

gwastraff (73%) oedd yr atebion hyn. Cynigiwyd y cyfle i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol o'r rhestr, fel y gwelir uchod, ac mae'n amlwg bod nifer o ymatebwyr wedi dewis dewisiadau lluosog, gan bod yr ateb a ddewiswyd leiaf, sef helpu i reoli mannau gwyrdd lleol mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer bywyd gwyllt, wedi cael 38% o'r pleidleisiau o hyd.

## C26. Pa gymorth y byddai angen iddo fod yn ei le er mwyn cyflawni'r pethau hyn?




Roedd ymatebwyr yn credu mai'r cymorth y byddai angen iddo fod yn ei le er mwyn eu galluogi i gyflawni'r pethau uchod oedd cael rhagor o lwybrau er mwyn cysylltu trefi/pentrefi (55%), bod ailgylchu yn haws (54%) a thrafnidiaeth gynaliadwy fforddiadwy (53%). Mae gan Ceredigion hanes gwych o ailgylchu, ond mae ymatebwyr yn credu y byddai modd gwneud pethau er mwyn sicrhau bod y broses yn haws. Rydym yn gwybod bod trafnidiaeth i ardaloedd mwyaf gwledig Ceredigion ac oddi yno yn eithaf gwael, felly nid yw'n peri syndod bod rhan fwyaf yr ymatebwyr yn dymuno cael mwy o lwybrau er mwyn cysylltu ardaloedd a thrafnidiaeth gynaliadwy fforddiadwy.

## C27. Unrhyw sylwadau eraill

Roedd 65 o ymatebwyr wedi rhoi sylw ysgrifenedig ar gyfer yr adran hon o'r Arolwg Lles, sef 16% o gyfanswm yr ymatebwyr. Y mater y cyfeiriwyd ato fwyaf oedd y ffordd y byddai modd gwella cysylltiadau trafnidiaeth yng Ngheredigion. Fel y soniwyd yn flaenorol, mae'n hysbys bod cysylltiadau trafnidiaeth rhwng ardaloedd gwledig yn eithaf gwael, ac y byddai cynyddu cyfanswm y drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael yn hwyluso pethau gryn dipyn i rai.


Nid yn unig hyn, mae nifer o sylwadau yn ymwneud â gwella ffyrdd yn y sir ac allan o'r sir. Ffyrdd B a C yw ffyrdd Ceredigion yn bennaf, a dim ond un ffordd ddeuol sy'n bodoli yn y Sir. Mae ymatebwyr yn credu y byddai pethau yn fwy diogel ac yn haws pe bai'r ffyrdd yn cael eu gwella.

Yn ogystal, byddai cynnal a chadw a gwella llwybrau beicio a chael llwybrau beicio lle y gwaharddir cerbydau yn golygu y byddai pobl yn fwy tebygol o ddewis trafnidiaeth gwyrddach.

Cymrwyd y samplau isod o'r 65 o sylwadau ysgrifenedig a ddarparwyd gan ymatebwyr yn yr adran hon o'r Arolwg Lles.


| **Sampl o'r sylwadau** | |
|---|---|
| "Rydw i eisoes yn gwneud nifer fawr o'r pethau hyn – diffyg trafnidiaeth gyhoeddus yw fy mhroblem fwyaf gan na allaf ymdopi heb gar ar hyn o bryd, er y byddwn yn defnyddio bws pe bai bws ar gael." | "Nid oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael ac eithrio Bwcabus, ac er ei fod yn werthfawr iawn, nid yw'n wasanaeth bws rheolaidd." |
| "Cynnal a chadw y llwybrau beicio, ond nid oes unrhyw un yn gwneud hyn." | "Ni chaiff llwybrau beicio presennol eu cynnal a'u cadw. Dylid gwahanu llwybrau beicio a thraffig." |
| "Ffyrdd gwell allan o'r Sir." | "Cynnal a chadw yr hawliau tramwy sy'n bodoli eisoes, h.y. Llwybrau ceffylau a llwybrau troed. Mae nifer wedi tyfu'n wyllt, nid ydynt yn hygyrch / maent yn anodd i'w defnyddio. Mae hyn oherwydd cyflwr y ddaear (corslyd/wedi tyfu'n wyllt/anodd agor gatiau)." |

## C28. Pa dri pheth yr ydych chi'n ei werthfawrogi fwyaf am y ffaith eich bod yn byw mewn cymdeithas sy'n ceisio sicrhau cydraddoldeb i bawb?




Gofynnodd ein Harolwg Lles pa dri pheth y mae ein hymatebwyr yn ei werthfawrogi fwyaf am fyw mewn cymdeithas sy'n ceisio sicrhau cydraddoldeb i bawb. Y tri ateb mwyaf poblogaidd oedd, cael fy nerbyn am bwy ydw i (43%), a byw mewn cymuned lle nad wyf yn teimlo'n anniogel oherwydd fy oedran, fy rhyw, fy hil, fy nghefndir, fy nghredo neu fy anabledd / y ffaith nad oes gennyf anabledd (41%). Dylid nodi, fel y gwelir yn y graff uchod, bod yr holl atebion i'r cwestiwn hwn wedi cael ymateb cymharol debyg.


## C29. Gan edrych i'r dyfodol, beth sy'n eich pryderu chi am eich cymuned yn dod yn fwy teg i bawb?




Heb os, y peth a oedd yn pryderu ein hymatebwyr fwyaf am eu cymuned yn dod yn fwy teg i bawb yn y dyfodol oedd y toriadau parhaus i wasanaethau cyhoeddus (78%). Mae gwasanaethau cyhoeddus yn rhywbeth y mae pawb yn eu defnyddio, mae'n amlwg yn destun pryder i'n hymatebwyr y gallai fod toriadau i wasanaethau cyhoeddus, y gallent effeithio ar ba mor hawdd y gallwn fanteisio ar y gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

Dau bryder arall oedd dim digon o dai i fodloni gwahanol anghenion (55%) a phobl yn credu bod bywydau'r rhai sy'n wahanol iddynt yn llai gwerthfawr na'u bywyd nhw (50%). Mae tai i fodloni gwahanol anghenion yn thema a welir yn aml trwy gydol ein hymatebion i'n Harolwg Lles. Gan bod gennym boblogaeth sy'n heneiddio a bydd nifer y bobl 65+ oed yn codi yn y dyfodol, efallai y byddwn yn gweld mwy o angen am dai sy'n bodloni anghenion pobl hŷn.


## C30. Beth fyddech chi'n ystyried ei wneud er mwyn helpu i sicrhau bod pethau yn decach i bawb yn eich cymuned?




Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn am yr hyn y byddech chi'n ystyried ei wneud er mwyn helpu i wneud pethau yn decach i bawb yn eich cymuned yn weddol debyg. Er enghraifft, yr ateb a ddewiswyd leiaf wrth ateb y cwestiwn hwn

oedd ymgyrchu dros gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (39%) a'r atebion a ddewiswyd fwyaf oedd y rhai a oedd yn ymwneud â thriniaeth annheg (63%) a throseddau casineb (63%).

## C31. Pa gymorth y byddai angen iddo fod yn ei le er mwyn cyflawni'r pethau hyn?




Nododd ymatebwyr mai bod yn hyderus na fyddai mynegi pryderon am driniaeth annheg / adrodd am drosedd casineb yn cael canlyniadau negyddol i mi neu fy nheulu (56%) oedd y peth mwyaf poblogaidd y mae angen iddo fod yn ei le er mwyn eu galluogi i gyflawni'r uchod. Gallai hyn olygu bod angen i ymatebwyr fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd ynghylch sut i adrodd am drosedd casineb neu driniaeth annheg a chael eu sicrhau na fyddai unrhyw ganlyniadau negyddol yn deillio o hyn.

## C32. Unrhyw sylwadau eraill

Dim ond 27 ymateb ysgrifenedig a gafwyd i'r adran hon o'r Arolwg Lles, a oedd yn ymwneud â Cheredigion sy'n Gyfartal, sef 7% yn unig o'r holl ymatebwyr.


Nid oedd modd nodi unrhyw themâu clir o'r sylwadau ysgrifenedig hyn. Er hyn, roedd rhai sylwadau yn ymwneud â'r ffordd y mae pobl yn teimlo nad ydynt yn cael eu trin mewn ffordd gyfartal fel rhywun di-Gymraeg. Cyfeiriwyd at themâu a oedd wedi codi dro ar ôl tro hefyd yn y sylwadau ysgrifenedig, megis tai addas a thai fforddiadwy.

Yn anffodus, mae rhai o'n sylwadau ysgrifenedig gan ein hymatebwyr yn nodi hefyd eu bod wedi dioddef troseddau casineb, camdriniaeth a bwlio. Ond, ar y llaw arall, ceir sylwadau sy'n nodi eu bod yn byw mewn cymuned gyfeillgar ac sy'n derbyn pawb. Mae'n amlwg bod rhai gwahaniaethau rhwng cymunedau.

Isod, gweler sampl o sylwadau a gymrwyd o'r 27 o ymatebion ysgrifenedig o'r adran hon o'r Arolwg Lles.


| **Sampl o'r sylwadau** | |
|---|---|
| "Fel rhywun di-Gymraeg, rydw i'n pryderu bod yr ALl yn dangos rhagfarn yn erbyn fy anghenion." | "Ceir teimlad 'Gwrth-Seisnig' cyson wrth wraidd llawer o'r gwleidyddiaeth a rhai polisïau sydd mewn grym yng Ngorllewin Cymru." |
| "Mynediad i dai sy'n bodloni angen fy nghyflwr iechyd." | "Rydw i'n anabl ac rydw i wedi bod yn destun erledigaeth a bwlio trwy gydol fy mywyd ac nid yw byw yma wedi newid unrhyw beth. Ni allaf fynd allan i siopa heb ddioddef rhyw fath o deimlad o fod dan fygythiad, ac mae apwyntiadau iechyd yr un fath." |
| "Rydw i'n byw mewn pentref cynhwysol sy'n croesawu ac sy'n cynorthwyo pawb mewn ffordd dda." | "Yn fy swydd, rydw i'n aml yn teimlo yn destun gwahaniaethu gan fy mod i'n Sais." |
| "Mae pobl cas iawn yn byw yn y pentref hwn ac rydw i wedi dioddef difrod troseddol ac ymddygiad difrïol." | "Os ydym wir yn dymuno creu cymdeithas decach, mae angen i ni sicrhau bod tai ar gael i bawb." |

## C33. Pa dri pheth yr ydych chi'n eu gwerthfawrogi fwyaf mewn perthynas â'ch iechyd corfforol a/neu'ch lles meddyliol?




Y tri pheth yr oedd ein hymatebwyr yn eu gwerthfawrogi fwyaf mewn perthynas â'u hiechyd corfforol a/neu eu lles meddyliol oedd teimlo'n iach ac yn hapus (41%), gallu gwneud y pethau yr wyf yn dymuno eu gwneud er mwyn fy nghadw yn egnïol ac yn hapus (31%) a chael mynediad i wasanaethau gofal ac iechyd pan fydd eu hangen arnaf mor agos ag y bo modd i'm cartref neu sydd ar gael trwy dechnoleg (28%).

## C34. Gan feddwl am y ddeng mlynedd nesaf, beth sy'n eich pryderu chi fwyaf am allu cadw'n iach yn gorfforol a/neu'n feddyliol?




Wrth ystyried y ddeng mlynedd nesaf, methu gallu manteisio ar ofal iechyd neu gymorth arall y mae ei angen arnaf, mor agos i'm cartref ag y bo modd neu sydd ar gael trwy dechnoleg oedd y peth a oedd yn pryderu ein hymatebwyr fwyaf (56%). Nid yw hyn yn peri syndod pan fyddwn yn ystyried bod Ceredigion yn sir wledig iawn, er enghraifft, mae'r amseroedd teithio cyfartalog i gyrraedd meddyg teulu yn uchel iawn. Yn ogystal â hyn, rydym yn gwybod bod poblogaeth 65+ oed Ceredigion yn mynd i barhau i godi, ac wrth i ni fynd yn hŷn, mae'n fwy tebygol y bydd gennym ni rhyw fath o broblem iechyd, ac fe allai hyn roi pwysau cynyddol ar ein gwasanaethau gofal iechyd, gan olygu ei bod yn anodd manteisio arnynt.

Yn ail, roedd ein hymatebwyr yn pryderu am y ffaith na fyddant yn gallu treulio amser allan yn yr awyr agored neu ym myd natur neu mewn mannau gwyrdd yn y dyfodol (52%). Gallai hyn fod o ganlyniad i bryderon am y newid yn yr hinsawdd a/neu ddatblygiadau yn lleihau nifer y mannau gwyrdd sydd ar gael yn yr awyr agored, neu oherwydd pryderon ynghylch mynd yn hŷn a methu mynd allan gymaint.

## C35. Gan feddwl am y dyfodol, beth allech chi ei wneud i wella eich lles corfforol a/neu feddyliol chi?

Atebodd 211 (52%) o ymatebwyr y cwestiwn agored a oedd yn gofyn iddynt nodi'r hyn y gallent ei wneud i wella eu lles corfforol a/neu feddyliol nhw, trwy roi ateb ysgrifenedig.

Roedd 37% o ymatebwyr wedi nodi "Gwneud mwy o ymarfer corff" neu sylw tebyg am wneud ymarfer corff, parhau i fod yn egnïol neu gadw'n heini.

Soniodd 17% am gadw mewn cysylltiad neu gymdeithasu gyda ffrindiau, teulu neu grwpiau cymunedol, ac roedd y sylwadau yn cynnwys "dod i adnabod mwy o bobl yn lleol..." a "...chyfarfod gyda ffrindiau".

Y thema fwyaf gyffredin nesaf oedd gofalu am eu lles eu hunain, wrth i 9% gyfeirio at hyn, gan gynnwys "hunanofal", cymhelliant personol neu reoli amser personol ac roedd atebion testun yn cynnwys "helpu fy hunan yn fwy..." a "gwneud amser i mi...".

Dilynwyd hyn gan wella'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith (7%), manteisio ar le gwyrdd neu dreulio amser allan yn yr awyr agored (6%) a gwella neu gynnal diet iach (6%).

Isod, nodir sampl o rai o'r sylwadau a gymrwyd o'r ymatebion agored hyn.

| **Sampl o'r sylwadau** | |
|---|---|
| "Gwneud mwy fyth o ymarfer corff mewn lleoliadau cymdeithasol". | "Cadw mewn cysylltiad". |
| "Gwneud mwy o ymarfer corff". | "Sicrhau cydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith, mwy o hunanofal – ymarfer corff a rheoli fy mhwysau". |
| "Ymuno â rhagor o ddosbarthiadau ymarfer corff". | "Cerdded yn fwy mewn mannau gwyrdd". |
| "Cymdeithasu gyda phobl". | "Sicrhau cydbwysedd gwell rhwng gwaith ac ymlacio". |

## C36. Beth, os unrhyw beth, y byddai angen iddo fod yn ei le er mwyn i chi wneud y pethau hyn?

Rhoddodd 189 (47%) ateb ar ffurf testun ar gyfer y cwestiwn beth, os unrhyw beth, y byddai angen iddo fod yn ei le er mwyn eu galluogi i wneud yr uchod.

Cyfeiriodd 13% o'r ymatebwyr hyn at fwy o ddosbarthiadau hamdden ac ymarfer corff ar gael sy'n briodol, yn fforddiadwy neu am ddim, neu mwy o fynediad iddynt. Roedd y sylwadau yn cynnwys "mynediad gwell i gampfeydd yn yr ardaloedd mwy gwledig...", "mwy o ddosbarthiadau ymarfer corff..." a "mynediad i gyfleusterau am bris rhesymol".

Soniodd 13% am wasanaethau gofal iechyd gwell neu fynediad gwell i wasanaethau gofal iechyd (gan gynnwys gofal sylfaenol, gofal eilaidd, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau deintyddol) megis "...gwasanaeth iechyd gwell...", "archwiliadau deintyddiaeth ac iechyd rheolaidd am ddim a "mynediad gwell i feddygon teulu...".

Gwnaethpwyd sylw ynghylch cymorth – bod rhywun yn gwrando arnoch ac yn eich cynorthwyo, cymorth gofal cymdeithasol gwell, neu gymorth gan gyflogwyr, gan 8% o'r rhai a roddodd ateb ar ffurf testun i'r cwestiwn hwn.

Soniodd 7% am weithgarwch rheoli amser, cymhelliant personol neu ewyllys gwell (roedd y sylwadau yn ymwneud â'r unigolyn neu'r 'hunan').

Soniodd 5% o'r rhai yng Ngheredigion a roddodd ateb ar ffurf testun i'r cwestiwn hwn am grwpiau cymunedol, gweithgareddau neu gyrsiau lleol. Cyfeiriodd 5% at arian, gan gynnwys mwy o arian, diogelwch incwm a phensiwn neu gyflogau uwch.

Isod, gweler sampl o rai o'r sylwadau a gymrwyd o'r ymatebion a roddwyd i'r cwestiwn hwn.

| Sampl o'r sylwadau | |
|---|---|
| "Cyfleusterau i aros ar agor a chael eu cynnal a'u cadw yn dda." | "Mynediad gwell i Feddygon Teulu. Mwy o gyfleoedd i drafod ffyrdd o wella fy iechyd gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, a chael archwiliadau iechyd rheolaidd." |
| "Mwy o ddosbarthiadau ar gael yn lleol fel y gallaf gymryd rhan, mynd yn heini a chyfarfod pobl." | "Gofal a chymorth pan fydd ei angen." |
| "Mynediad i gyfleusterau iechyd a champfa nad ydynt yn costio llawer iawn." | "Cymuned gymorth agos." |
| "Darpariaeth well o ran gwasanaethau." | "Cymhelliant personol." |


## C37. Unrhyw sylwadau eraill

Pan ofynnwyd am unrhyw sylwadau eraill, roedd llai wedi ateb hwn nag a atebodd y ddau gwestiwn blaenorol, a chafwyd 59 (15%) o ymatebion ar ffurf testun. Teimlwyd bod yr atebion i'r cwestiwn hwn yn ailadrodd pwyntiau a wnaethpwyd yn flaenorol, eu bod yn benodol/personol iawn neu'n eang iawn/heb fod yn ymwneud ag iechyd a lles. Felly, nid oedd themâu clir ac ni wnaethpwyd unrhyw waith pellach i ddadansoddi'r atebion i'r cwestiwn hwn.

Isod, gweler sampl o'r sylwadau a gymrwyd o'r ymatebion ysgrifenedig yn yr adran hon o'r Arolwg Lles.


| **Sampl o'r sylwadau** | |
|---|---|
| "Agorwch y canolfannau hamdden a'r pyllau nofio unwaith eto." | "Mae angen ariannu'r gwasanaeth iechyd yn well." |
| "Ceir prinder mawr cyfleusterau a chyfleoedd chwaraeon ac ymarfer corff." | "Dylid cael mwy o leoedd gwyrdd mewn datblygiadau tai." |
| "Pwysigrwydd mannau gwyrdd er mwyn gwneud ymarfer corff a hyrwyddo iechyd meddwl da." | "Mae angen i mi wella fy niet a dysgu sut i gyllidebu yn well." |

## C38. Pa dri pheth yr ydych chi'n eu gwerthfawrogi fwyaf am y gymuned yr ydych yn byw ynddi?




Pan ofynnwyd iddynt nodi'r tri pheth y maent yn ei werthfawrogi fwyaf mewn perthynas â'r gymuned y maent yn byw ynddi, cyfeiriodd rhan fwyaf yr ymatebwyr at deimlo'n ddiogel yn eu cartref (61%). Roedd teimlo'n ddiogel yn eu cymuned (57%) yn ail agos i hwn. Y trydydd ateb mwyaf poblogaidd oedd pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch (54%).


## C39. Gan edrych i'r dyfodol, beth sy'n eich pryderu chi fwyaf am gydlyniant cymunedol?




Adnoddau cymunedol yn cau (70%) oedd y peth a oedd yn pryderu ein hymatebwyr fwyaf am gydlyniant cymunedol. Diffyg buddsoddiad yn ein cymuned oedd yr ail beth mwyaf cyffredin a oedd yn pryderu ein hymatebwyr (67%). Mae pandemig COVID-19 wedi cael effeithiau mawr ar adnoddau cymunedol a'r cyllid ar gyfer pethau o'r fath, ac mae'r pandemig yn debygol o barhau i gael effaith ar y pethau hyn yn y dyfodol. Mae ein hymatebwyr o'r farn mai buddsoddi yn ein cymunedau a sicrhau na fydd adnoddau yn cau yw'r pethau pwysicaf.


Ar y pen arall, bygythiadau eithafiaeth oedd y peth a oedd yn pryderu ymatebwyr leiaf (14%).

## C40. Beth fyddech chi'n ystyried ei wneud er mwyn helpu i sicrhau cydlyniant cymunedol da yn eich cymdogaeth?




Mae ymatebwyr yn fwyaf tebygol o gadw golwg ar eu cymdogion (60%), defnyddio eu sgiliau/gwybodaeth/profiad er mwyn helpu eraill yn eu cymuned (58%) a chymryd rhan mewn digwyddiad cymunedol (56%) er mwyn helpu i sicrhau cydlyniant cymunedol da yn eu cymdogaeth. Mae'n hysbys bod cydlyniant cymunedol eithaf da yn bodoli yng Ngheredigion ac mae'n adnabyddus fel man lle y mae canran uchel o bobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau ac yn teimlo bod pobl yn eu cymunedau yn cyd-dynnu'n dda. Adlewyrchir hyn yn yr ymatebion hyn.

## C41. Pa gymorth y byddai angen iddo fod yn ei le er mwyn cyflawni'r pethau hyn?




Er mwyn i ymatebwyr allu cyflawni'r pethau a nodir yn y cwestiwn uchod, nodwyd mwy o gyllid ar gyfer grwpiau lleol (59%) a mwy o wybodaeth am grwpiau cymunedol (50%) fwyaf. Mae grwpiau lleol a chymunedol yn un ffordd y gallwn sicrhau cymunedau cydlynus yng Ngheredigion, lle y mae pobl yn dod ynghyd i drafod materion a'u datrys pan fo modd.

Help/cyngor ynghylch sefydlu grŵp cymunedol lleol oedd yr ateb lleiaf cyffredin (19%).

## C22. Unrhyw sylwadau eraill


Rhoddodd 26 (6%) o ymatebwyr sylw ysgrifenedig yn yr adran hon o'r Arolwg Lles. Unwaith eto, trafodwyd amrywiaeth o bynciau yn y sylwadau agored ac nid oedd unrhyw fater amlwg yn cael ei drafod yn fwy nag unrhyw un arall.

Mae sawl un o'r sylwadau ysgrifenedig ar gyfer yr adran hon yn nodi bod yr ymatebwyr eisoes yn gwneud y pethau a nodir yn y cwestiynau blaenorol. Wedi dweud hyn, mae ymatebwyr yn gofyn i fwy o gyfleoedd fod ar gael iddynt yn lleol, fel y gallant wneud mwy. Mae un sylw yn sôn nad oes neuadd gymunedol yn eu pentref, a gallai lle fel hwn fod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr ardal yn cynnwys cydlyniant cymunedol da, lle y gall pobl drafod materion.

Yn ogystal, mae amser yn rhywbeth y mae pobl yn cael anhawster gydag ef, wrth i rai sylwadau nodi ei bod yn gallu bod yn anodd gwneud mwy o bethau yn ein cymunedau er mwyn iddynt fod yn gydlynus os oes ganddynt swydd amser llawn a phlant.


| **Sampl o'r sylwadau** | |
|---|---|
| "Unwaith eto, rydw i'n gwneud cryn dipyn o'r pethau hyn yn barod." | "Rhywle i'n cymuned ddod ynghyd. Nid oes neuadd gymunedol yn y pentref." |
| "Rydw i eisoes yn gwneud cryn dipyn ar gyfer fy nghymuned leol." | "Mwy o amser – mae swydd amser llawn (lle'r wyf yn cefnogi eraill), dyletswyddau teuluol a chynorthwyo aelod o'm teulu trwy ofalu yn golygu nad oes gennyf rhyw lawer o amser i wirfoddoli." |
| "Rydw i'n gwneud yr holl bethau uchod, ac mae fy nheulu yn eu gwneud." | "Mwy o amser – fel rhiant sy'n gwneud gwaith amser llawn, mae'n anodd neilltuo amser i unrhyw beth arall. Ceir adnodd enfawr ymhlith pobl sydd newydd ymddeol, y gallem alw arnynt i helpu gyda chydnerthedd cymunedol." |
| "Mae pethau yr arferwn eu gwneud ond na allaf eu gwneud nawr. Cyfrannais pan oeddwn yn gallu gwneud hynny." | "Rydw i eisoes yn rhedeg grwpiau cymunedol, ni allaf wneud mwy!" |

### C43. Pa dri pheth yr ydych chi'n eu gwerthfawrogi fwyaf mewn perthynas â chymuned fywiog eich sir a'r ffaith bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu ynddi?




Pan ofynnwyd pa dri pheth y mae ein hymatebwyr yn eu gwerthfawrogi fwyaf mewn perthynas â chymuned fywiog y Sir a'r ffaith bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu ynddi, roedd y tri ateb pennaf fel a ganlyn. Bwyd a gynhyrchir yn lleol (60%), gallu defnyddio'r iaith Gymraeg (44%) a threftadaeth/hanes (40%). Ffydd/crefydd oedd yr ateb a ddewiswyd leiaf (9%).


### C44. Gan edrych i'r dyfodol, beth sy'n eich pryderu chi fwyaf am gymuned fywiog eich Sir a'r ffaith bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu ynddi?




Heb os, y peth a oedd yn pryderu ein hymatebwyr fwyaf am gymuned fywiog y Sir a'r ffaith bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu ynddi yn y dyfodol oedd y ffaith bod prisiau tai yn anfforddiadwy i bobl leol (75%). Yn ail oedd y ffaith bod pobl ifanc yn gorfod gadael yr ardal leol/Cymru i astudio/gweithio (60%). Nid yw hyn yn peri syndod gan bod Ceredigion wedi gweld cynnydd cyflym mewn prisiau tai, ac rydym yn gwybod os na all pobl fforddio prynu tŷ yma, mae'n debygol iawn y byddant yn symud i ardal arall.


Y peth a oedd yn pryderu preswylwyr leiaf oedd diffyg ysgolion/colegau sy'n darparu addysg Gymraeg (14%). System addysg Ceredigion yw un o'i phrif asedau, ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion Ceredigion yn rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, felly nid yw hi'n anarferol i ymatebwyr ofidio llai am hyn.

### C45. Beth fyddech chi yn ystyried ei wneud er mwyn helpu i sicrhau cymuned fywiog lle y mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu?



Er mwyn helpu i sicrhau cymuned fywiog lle y mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae ein hymatebwyr yn fwyaf tebygol o ymweld â'u hamgueddfa leol neu sefydliadau treftadaeth eraill (54%), a ddilynir yn agos gan gynlluniau i gynorthwyo pobl ifanc i fyw a gweithio yn yr ardal leol (48%). Unwaith eto, mae hyn yn ymwneud â'r pryderon ynghylch pobl leol yn symud i rywle arall oherwydd prisiau tai anfforddiadwy. Roedd ymatebwyr yn lleiaf tebygol o gymryd rhan mewn prosiectau trwy gyfrwng y Mentrau Iaith lleol (9%).

## C46. Pa gymorth y byddai angen iddo fod yn ei le er mwyn cyflawni'r pethau hyn?




Yn ôl ein hymatebwyr, y cymorth y byddai ei angen er mwyn ein galluogi i gyflawni'r uchod fyddai cyfleoedd i ddysgu a gwella sgiliau (48%) a chysylltiadau trafnidiaeth da gyda lleoliadau Celfyddydau a Diwylliant (47%). Yng Ngheredigion, bu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn, a gallai cynnig cysylltiad trafnidiaeth da i ddigwyddiadau o'r fath leddfu hyn. Yn ogystal, rhoddwyd pwys ar ragor o wybodaeth am grwpiau cymunedol lleol (44%) a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn ffordd anffurfiol (43%) fel pethau y byddai angen iddynt fod yn eu lle er mwyn cyflawni'r uchod.

## C47. Unrhyw sylwadau eraill

Pan ofynnwyd am unrhyw sylwadau eraill, cafwyd 56 o ymatebion ysgrifenedig at ei gilydd. Mae 14% o'r ymatebwyr i'r arolwg hwn wedi darparu sylw ysgrifenedig ar gyfer yr adran hon. Roedd y sylwadau ysgrifenedig hyn yn cyfeirio at nifer o faterion. Wedi dweud hyn, roedd mwyafrif o'r sylwadau (tua 23%) yn ymwneud â materion sy'n ymwneud â chymuned y di-Gymraeg. Mae'n amlwg nad yw rhai o'n hymatebwyr yn teimlo bod croeso iddynt yn eu cymuned gan nad ydynt yn siarad Cymraeg neu oherwydd eu bod yn dysgu Cymraeg. Mae rhai ymatebwyr yn teimlo hefyd bod gormod o bwyslais ar yr iaith Gymraeg ac y dylid gwerthfawrogi'r Saesneg lawn gymaint.


Yn ogystal, roedd nifer o sylwadau yn ymwneud â'r ffaith bod angen mwy o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg yng Ngheredigion, ac yn benodol, cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg. Gall dysgu iaith newydd fod yn dasg go frawychus, ac fel y soniwyd mewn rhai sylwadau, byddai gallu dysgu Cymraeg mewn amgylcheddau llai ffurfiol o fudd. Mae rhai sylwadau ysgrifenedig yn ymwneud â'r ffaith na cheir digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, ac yn aml, gall y rhai sy'n dysgu Cymraeg deimlo'n llai hyderus i siarad Cymraeg yng nghwmni siaradwyr Cymraeg rhugl, ac mae angen mwy o anogaeth.

Isod, gweler sampl o'r sylwadau a gymrwyd o'r 56 o sylwadau ysgrifenedig.

| **Sampl o'r sylwadau** | |
|---|---|
| "Mae angen mwy o gymorth a mynediad i ddysgu Cymraeg a chyrsiau am ddim." | "Hoffwn ddysgu Cymraeg yn fawr iawn, byddai'n wych pe bai modd gwneud hyn yn lleol e.e. neuadd gymunedol neu mewn tafarn leol, yn hytrach na mynd i goleg neu ddilyn cwrs ar-lein. Trwy wneud hyn mewn lleoliad cymdeithasol, mae'n dod yn haws ymarfer ymhlith y gymuned Gymraeg a byddai'n datblygu cydlyniant cymdeithasol gwell." |
| "Cynnal digwyddiadau Cymraeg mewn Canolfannau Cymunedol lleol e.e. Y Ganolfan ym Mhenparcau, mae'n lle Lles. Rydw i'n teimlo'n rhwystredig na allaf ddefnyddio'r Gymraeg yn fy nghymuned a'i bod yn anodd cerdded i gymunedau eraill mewn ffordd ddiogel." | "Parch ar gyfer y rhai sy'n dysgu Cymraeg." |


| | |
|---|---|
| “Mae dysgu Cymraeg yn dod yn rhywbeth y mae angen ei wneud, fodd bynnag, gan nad wyf yn dda gydag ieithoedd, mae angen fy mod yn gallu neilltuo’r amser i ddysgu.” | “Gwersi Cymraeg am ddim.” |
| “Gwerthfawrogi’r Saesneg gymaint â’r Gymraeg.” | “Mae yr un mor bwysig cofio y dylai dewis peidio siarad Cymraeg fod yn ddewis a werthfawrogir.” |

### C48. Pa dri pheth yr ydych chi'n eu gwerthfawrogi fwyaf yng nghyfrifoldeb byd-eang eich sir?




Pan ofynnwyd yn ein Harolwg Lles pa dri pheth yr ydych chi'n eu gwerthfawrogi fwyaf yng nghyfrifoldeb byd-eang eich sir, y tri phrif ateb oedd; rheoli ein tir a'n dŵr er mwyn sicrhau cydnerthedd gwell mewn hinsawdd sy'n newid (44%), gweithio tuag at sicrhau bod ein cadwyni cyflenwi yn deg, yn foesegol ac yn gynaliadwy (41%) a chynorthwyo ymddygiad cynaliadwy (34%).


### C49. Gan edrych i'r dyfodol, beth sy'n eich pryderu chi fwyaf am gyfrifoldeb byd-eang eich sir?




Wrth gyfeirio at Geredigion sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, y peth sy'n pryderu ein hymatebwyr fwyaf am y dyfodol yw bod teuluoedd yn wynebu tlodi bwyd a'u bod yn pryderu ynghylch fforddio bwyd (61%). Rydym yn gwybod bod tlodi yn cynyddu yng Ngheredigion ac yn benodol, mae tlodi plant wedi bod yn un o'r meysydd lle y gwelwyd y cynnydd mwyaf. Mae'n amlwg bod ein hymatebwyr yn ymwybodol o'r newidiadau hyn ac yn ofni y gallai hyn waethygu yn y dyfodol.

Yn agos iawn y tu ôl yr uchod oedd y ffaith bod diffyg dealltwriaeth ynghylch yr hyn y mae bod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang yn ei olygu (59%). Y peth yr oedd ymatebwyr yn pryderu leiaf amdano oedd bod y cyfeiriadau ynghylch dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern yng Nghymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, er y dylid nodi bod hwn wedi cael 84 o bleidleisiau (22%).


## C50. Beth allech chi ei wneud i helpu eich cymuned i fod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang?




Er mwyn helpu eu cymuned i fod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang, nododd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr y byddent yn defnyddio llai, yn ailddefnyddio eitemau ac yn ailgylchu gwastraff (82%). Mae gan Geredigion hanes da eisoes o leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu eitemau, a bydd parhau i wneud hyn a/neu gynyddu'r gweithgarwch hwn yn cynnig budd i Geredigion.

Yn ail, byddai ymatebwyr yn cefnogi cynhyrchwyr lleol a chadwyni cyflenwi lleol byr (74%). Rydym yn gwybod bod gan Geredigion ddiwylliant bwyd cyfoethog a cheir nifer o gyfleoedd i bobl brynu cynnyrch lleol. Roedd ymatebwyr yn lleiaf tebygol o gyfleu eu cyfraniad i gyfrifoldeb byd-eang (14%).

## C51. Pa gymorth y byddai angen iddo fod yn ei le er mwyn cyflawni'r pethau hyn?




Heb os, y peth mwyaf cyffredin yr oedd ymatebwyr yn credu y byddai angen iddo fod yn ei le er mwyn cyflawni'r pethau uchod oedd cael rhagor o wybodaeth am sicrhau bwyd ac adnoddau lleol (64.4%) a gwybodaeth ynghylch sicrhau ynni adnewyddadwy/gwyrdd, cyfleoedd ynni cymunedol a phosibiliadau sicrhau ynni o wastraff (59.2%). Mae'n amlwg bod angen rhoi mwy o bwyslais ar hysbysebu cyfleoedd i gyflawni'r pethau hyn yng Ngheredigion.

## C52. Unrhyw sylwadau eraill

Darparwyd cyfanswm o 55 o sylwadau ysgrifenedig ar gyfer yr adran hon o'r arolwg, sef gan 14% o'r holl ymatebwyr. Heb os, roedd y sylwadau ysgrifenedig mwyaf cyffredin yn ymwneud â phrynu cynnyrch lleol. Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym yn gwybod bod gan Geredigion ddiwylliant bwyd cyfoethog iawn ac mae'n bwysig cefnogi'r busnesau lleol er mwyn bod yn fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang.

Yn ogystal, cyfeiriwyd at wneud cynnyrch lleol yn fwy fforddiadwy i bobl sawl gwaith yn y sylwadau ysgrifenedig. Rydym yn gwybod bod costau byw cyffredinol yn codi a bod prisiau bwyd yn codi hefyd. Ceir cryn gystadleuaeth wrth y cadwyni archfarchnadoedd sy'n gwerthu cynnyrch yn llawer rhatach. Os bydd cynnyrch lleol yn fwy fforddiadwy, mae pobl yn fwy tebygol o'i brynu.

Roedd sylwadau yn yr adran hon yn ymwneud â gwella llwybrau beicio hefyd a sicrhau eu bod yn fwy hygyrch ar draws y Sir. Rydym yn gwybod bod modd bod yn fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang trwy ddefnyddio trafnidiaeth gwyrddach, ond mae angen i ffyrdd a llwybrau fod yn ddiogel er mwyn cyflawni hyn.


Isod, gweler sampl o rai sylwadau a gymrwyd o'r 55 o ymatebion ysgrifenedig ar gyfer yr adran hon o'r arolwg.

| **Sampl o'r sylwadau** | |
|---|---|
| "Er mwyn cefnogi busnesau lleol a mentrau masnach deg, mae angen i brisiau fod yn gystadleuol." | "Diffyg cig a llysiau lleol, cefnogi busnesau lleol." |
| "Mae cefnogi cynhyrchwyr lleol yn hanfodol, ond rhaid iddynt gystadlu gyda Tesco/Asda/Morrisons." | "Cefnogi a hyrwyddo ffermwyr lleol i gynhyrchu ein bwyd. Hyrwyddo cynnyrch organig, sy'n dda ar gyfer ein hiechyd a'r amgylchedd." |
| "Cynnyrch lleol fforddiadwy." | "Yn lle darparu gwybodaeth yn unig – cynnig cymhelliant ar gyfer y pethau hyn! Mae arian yn rhwystr sy'n atal pobl rhag gallu e.e. prynu bwyd a gynhyrchir yn lleol – mae'n rhatach yn Lidl." |
| "Mae mwy o lwybrau beicio neu lwybrau cyd-ddefnyddio yn hanfodol er mwyn annog rhagor o bobl i gerdded/ beicio." | "Heb os, mae angen i ni gael ffyrdd mwy diogel ar gyfer beicwyr yma." |


# AROLWG YSGOLION

Fel rhan o'n gweithgarwch ymgysylltu gyda'r cyhoedd, buom yn ymgysylltu gyda disgyblion cynradd ac uwchradd yng Ngheredigion yn ein **Harolwg Ysgolion** er mwyn sicrhau bod lleisiau cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu cynrychioli. Yn gyffredinol, cawsom 212 o ymatebion i'r arolwg ysgolion, roedd 156 wedi llenwi'r arolwg yn Saesneg ac roedd 58 wedi ei lenwi yn Gymraeg. Strwythurwyd yr arolwg ar sail y bedair thema lles; lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r adran ganlynol yn cynnig trosolwg o'r prif ganlyniadau.


Pan ofynnwyd cwestiynau i ddisgyblion am sut yr oedd eu bywyd yn mynd, roedd yr atebion a gafodd yr ymateb mwyaf cadarnhaol yn ymwneud â **lles cyffredinol** a'r **amgylchedd.** Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (71%) yn teimlo bod *eu bywyd yn mynd yn dda,* nid oedd 11% yn cytyno nac yn anghytuno gyda'r datganiad hwn, ac roedd 8% o'r ymatebwyr yn anghytuno gyda'r datganiad. Yn yr un modd, roedd 71% o ymatebwyr yn teimlo *cysylltiad â'r amgylchedd,* roedd 10% yn ansicr, ac nid oedd 9% yn teimlo unrhyw gysylltiad. Nid oedd ymatebwyr yn teimlo mor gryf ynghylch y ffaith ***bod gweithgareddau ar gael y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt,*** roedd 67% yn teimlo bod gweithgareddau o'r fath ar gael, nid oedd 24% yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 9% yn anghytuno.





Mae'n ddiddorol gweld bod ymatebwyr Cymraeg yn teimlo'n fwy gobeithiol am eu bywyd yn gyffredinol, o'u cymharu â'r rhai a oedd wedi ateb yn Saesneg. Roedd hyn yn arbennig o glir pan ofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn *teimlo eu bod yn rhan o'u cymuned.* Roedd 77% o'r ymatebwyr Cymraeg naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r datganiad hwn, ac roedd ychydig dros hanner (59%) yr ymatebwyr Saesneg yn cytuno. Gwelir y duedd hon mewn arolygon cenedlaethol hefyd, megis Arolwg Cenedlaethol Cymru, a allai fod o ganlyniad i nifer o ffactorau. Er enghraifft, efallai y bydd ymatebwyr yn teimlo cysylltiad â'u hardal trwy ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn ystod eu bywyd bob dydd.



Pan ofynnwyd cwestiynau i ddisgyblion ynghylch eu bywyd yn y dyfodol, unwaith eto, adlewyrchwyd gwerth yr **amgylchedd** yn gryf iawn, wrth i 91% o'r cyfranogwyr gytuno bod *dyfodol yr amgylchedd yn bwysig iawn.* Yn gyffredinol, hwn oedd y datganiad lle y gwelwyd niferoedd uchaf y cyfranogwyr yn cytuno ag ef. Roedd dros hanner yr ymatebwyr (67%) yn gwybod y **math o swydd** yr oeddent yn dymuno ei chyflawni, fodd bynnag, dim ond 45% oedd yn credu y gallent gyflawni eu swydd ddymunol yn eu hardal leol. Gwelwyd amrywiadau yn yr ymatebion pan ofynnwyd i ddisgyblion a oeddent yn dymuno **parhau i fyw yn eu hardal leol,** roedd ychydig dan hanner yn dymuno aros (46%), roedd 26% yn ansicr ac roedd 29% yn dymuno gadael





O blith yr wyth dewis a roddwyd, ar gyfartaledd, nododd y disgyblion a oedd wedi cymryd rhan mai **cymdeithasu gyda ffrindiau** oedd y peth gorau am eu cymuned, ac roedd 61 o ymatebwyr wedi dewis yr ateb hwn. Dilynwyd hwn gan yr **amgylchedd** (45 o ymatebion), **cyfleoedd chwaraeon** (39 o ymatebion) a'r **ysgol** (21 o ymatebion). Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi **grwpiau cymunedol, cymdogion** a **pharciau** yn llai. Yng Ngheredigion, rydym yn gwybod bod angen gwella darpariaeth parciau a mannau chwarae (yn enwedig yn y cymunedau mwy gwledig), ac fe allai hyn fod wedi dylanwadu ar y canfyddiadau.




Roedd disgyblion a oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg yn pryderu fwyaf am **swyddi** yn eu hardal leol yn y dyfodol, ac roedd 57 o ymatebwyr wedi dewis yr ymateb hwn. Ceir thema gyffredin ar draws ein gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd (yn ystod yr arolwg lles cyffredinol a'r digwyddiadau rhanddeiliaid), lle y nodwyd diffyg swyddi a swyddi sy'n talu'n dda fel sialensiau allweddol gan y cyfranogwyr. Yn dilyn ymlaen o'r elfen ynghylch swyddi, mynegwyd pryderon am yr **amgylchedd lleol** a **thai**, unwaith eto, mynegwyd y pryderon hyn trwy gydol ein gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd cyfranogwyr yn pryderu llai am ddyfodol **mannau cymunedol** a **thlodi** yn eu hardal leol.

C.6 Beth yw'r sialensiau mwyaf y mae'r byd yn eu hwynebu ar hyn o bryd?




Pan holwyd am y sialensiau mwyaf y mae ein byd yn eu hwynebu ar hyn o bryd, heb os, **y newid yn yr hinsawdd** oedd yr ymateb mwyaf cyffredin, nododd 89 o gyfranogwyr mai hon yw'r her fwyaf. Mae hyn yn dynodi bod disgyblion a oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg yn pryderu mwy am effaith y newid yn yr hinsawdd ar raddfa fyd-eang, nag ar raddfa leol. Y categori 'arall' oedd yr ail ymateb mwyaf cyffredin, ac roedd mwyafrif y sylwadau yn yr adran hon yn ymwneud ag effaith **COVID-19**. Dilynwyd hyn gan **ryfel** (27 ymateb) a **therfysgaeth** (25 ymateb).

# DIGWYDDIADAU RHANDDEILIAID

**Cefndir**

Rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref, cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion ddigwyddiadau rhanddeiliaid er mwyn clywed safbwyntiau'r gymuned leol ynghylch lles, yn enwedig y grwpiau anos i'w cyrraedd a'r rhai y mae ganddynt nodweddion gwarchodedig.  Cynhaliwyd chwe digwyddiad rhanddeiliaid gyda'r grwpiau canlynol;  Fforwm Pobl Anabl Ceredigion, Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Ceredigion, Give Us Support (RAY Ceredigion), Gweithgor Cydraddoldeb, Cynghrair Gofalwyr Ceredigion a Chymuned y Lluoedd Arfog.  Roedd tua 90 o bobl wedi cymryd rhan yn y digwyddiadau rhanddeiliaid.  Roedd y sesiynau yn canolbwyntio ar bedair colofn lles;  lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.  Mae'r crynodeb hwn yn cynnig trosolwg o'r trafodaethau a gafwyd yn ystod pob digwyddiad, gan amlygu'r prif faterion a godwyd ac mae'n cynnwys sampl o rywfaint o'r sylwebaeth.

## Fforwm Pobl Anabl Ceredigion

Cynhaliwyd digwyddiad rhanddeiliaid rhith gyda Fforwm Pobl Anabl Ceredigion ar 7 Gorffennaf 2021, a fynychwyd gan dri ar ddeg unigolyn a aeth ati i fynegi eu safbwyntiau ynghylch materion lles sy'n ymwneud yn benodol ag anableddau yng Ngheredigion.  Roedd clywed llais pobl sydd ag anableddau yn allweddol er mwyn sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed yn yr Asesiad, oherwydd y bydd hyn yn ein helpu i gynllunio a dylunio gwasanaethau er mwyn bodloni anghenion yn y dyfodol dros y 5 mlynedd nesaf.

**Trosolwg o'r prif bwyntiau a fynegwyd yn ystod y digwyddiad rhanddeiliaid gyda Fforwm Pobl Anabl Ceredigion**

- Hygyrchedd; parcio, mynediad gwastad; trafnidiaeth gyhoeddus; lleoliadau; llwybrau troed
- Swyddi parhaol ac sy'n talu'n well
- Nifer uchel o ail gartrefi
- Gwella gwasanaethau gwaredu a chasglu gwastraff
- Prisiau mwy fforddiadwy ar gyfer gweithgareddau diwylliannol

Heb os, **hygyrchedd** oedd y mater a drafodwyd fwyaf yn ystod y sesiwn.  Mynegodd y gymuned anabl yr angen am fynediad gwell i'r trefi, siopau, llwybrau troed (yn enwedig y llwybr o Aberaeron i Lanechaeron), toiledau i'r anabl, clybiau nos, bwytai a lleoliadau penodol megis Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth.  Roedd y diffyg trafnidiaeth gyhoeddus, y Parthau Diogel (a gyflwynwyd yng Ngheredigion i gadw pobl yn ddiogel wrth i fusnesau ailagor yn dilyn y cyfnod clo cyntaf), diffyg mynediad gwastad a phrinder lleoedd parcio i'r anabl yn rhwystrau wrth geisio manteisio ar y lleoliadau a'r gwasanaethau hyn.  Yn ogystal, amlygodd y cyfranogwyr y ffaith bod siopa'n lleol yn bwysig iddynt, gan awgrymu a fyddai modd annog cyflenwadau lleol (a ddechreuodd yn ystod y cyfnod clo), gan bod siopa ar-lein yn llawer haws na mynd i mewn i'r dref.

## Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Ceredigion

Cynhaliwyd digwyddiad rhanddeiliaid rhith **Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Ceredigion** ar 20 Medi 2021, ac roedd wyth ar hugain o bobl wedi cymryd rhan yn y digwyddiad hwn, gan fynegi eu barn am faterion lles sy'n ymwneud â gwasanaethau plant a phobl ifanc yng Ngheredigion yn benodol.  Mae'n beth cadarnhaol bod nifer dda iawn wedi mynychu'r sesiwn hon, yn enwedig oherwydd y bydd angen i'r Asesiad a'r Cynllun Llesiant Lleol dilynol sicrhau y bodlonir anghenion ein poblogaeth iau a chenedlaethau'r dyfodol.

**Y prif bwyntiau a fynegwyd mewn perthynas â lles yn ystod digwyddiad rhanddeiliaid y Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc**

| Cyfleoedd cyflogaeth gwell | Mwy o weithgareddau hamdden ar gyfer pobl ifanc | Rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus gwell | Effaith gadarnhaol digwyddiadau diwylliannol ar yr iaith Gymraeg | Costau byw uchel |
|---|---|---|---|---|

Roedd y digwyddiad hwn wedi cynnig dirnadaeth bwysig o brif sialensiau ac asedau Ceredigion mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Roedd yr angen am **fwy o gyfleoedd cyflogaeth** yng Ngheredigion er mwyn cadw'r boblogaeth iau yn amlwg trwy gydol y sesiwn. Amlygodd y cyfranogwyr bod gofyn cael swyddi sy'n talu'n well a swyddi y mae gofyn meddu ar sgiliau uwch i'w cyflawni, yn ogystal â swyddi sy'n cynnig cyfleoedd i gamu ymlaen yn eich gyrfa (yn hytrach na gwaith tymhorol am yr isafswm cyflog). Roedd cyfranogwyr yn pryderu am **gostau byw uchel** ar gyfer pobl iau, yn enwedig gan bod hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt fforddio tŷ yn eu hardal leol.

Roedd **diffyg gweithgareddau hamdden ar gyfer pobl iau a'u fforddiadwyedd** yn bryder cyffredin, a nododd cyfranogwyr bod nifer y tafarndai cymunedol yn lleihau, bod gweithgareddau y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol yn aml yn rhy ddrud, a bod diffyg lleoedd cymunedol i bobl gyfarfod mewn ardaloedd gwledig. Gwnaethpwyd awgrym i ddefnyddio neuaddau pentref er mwyn darparu gweithgareddai mewn ardaloedd gwledig, a defnyddiwyd Prosiect Cymunedau Tosturiol Arts for Well-being fel enghraifft dda o grant cymeradwy iawn.

Roedd diffyg **rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus** yn bryder yr oedd y sawl a fynychodd yn ei rannu, a mynegont anfodlonrwydd mawr gyda'r ffaith y cwtogwyd gwasanaeth bws T1 yn ddiweddar, a oedd wedi atal rhai o'r plant a'r bobl iau rhag manteisio ar eu gwasanaethau. Roedd yr angen i wella'r cysylltiad trafnidiaeth gwledig yn flaenoriaeth iddynt.

Ystyriwyd bod digwyddiadau diwylliannol fel yr Eisteddfod, Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a Chlybiau Ffermwyr Ifanc yn **bwysig iawn er mwyn cynnal yr iaith Gymraeg a diwylliant llewyrchus** Ceredigion. Mynegodd cyfranogwyr eu pryderon am **lefelau uchel taflu sbwriel** gan awgrymu integreiddio gweithgareddau amgylcheddol yng nghwricwlwm yr ysgol, gan sôn am effeithiau niweidiol taflu sbwriel. Fodd bynnag, nodwyd yn glir iawn yn arolwg lles yr ysgol bod plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi'r amgylchedd yng Ngheredigion yn fawr.

## Give Us Support

Cynhaliwyd digwyddiad rhanddeiliaid wyneb-yn-wyneb gyda **Give Us Support** (GUS) ar 5 Hydref 2021, a hwyluswyd gan RAY Ceredigion. Roedd pedwar wedi mynychu a chyfrannu i'r drafodaeth am les pobl ifanc yng Ngheredigion. Strwythurwyd y sesiwn hon ychydig yn wahanol i'r digwyddiadau rhanddeiliaid eraill er mwyn helpu i hwyluso'r drafodaeth, lle y gofynnwyd 3-4 cwestiwn am bob thema lles. Mae'r canlynol yn cynnig trosolwg o'r prif ganlyniadau.

Ar y cyfan, nid oedd y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn dymuno parhau i fyw yn eu hardal leol. Roedd y cyfranogwyr yn dymuno **chwilio am waith neu gyfleoedd addysg** (Prifysgol/Prentisiaethau) y tu allan i'r sir neu symud i fyw yn agosach i'w teulu. Mynegwyd pryderon ynghylch **tlodi, sicrhau swydd** a **thai** yn y dyfodol. Ar y cyfan, roedd y bobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan yn teimlo eu bod yn rhan o'u cymuned, fodd bynnag, unwaith eto, roedd **diffyg gweithgareddau** a **mannau i gymdeithasu** yn lleol yn bryder cyffredin.

Mynegwyd dyfodol **diogelwch cymunedol** fel pryder gan hanner y bobl ifanc a oedd yn bresennol. Roedd un sylw yn cynnwys, "Teimlo'n ddiogel nawr ond yn gofidio am fy niogelwch yn y dyfodol". Rhannwyd y pryder hwn ar draws y gwahanol ffurfiau ymgysylltu ynghylch lles (digwyddiadau rhanddeiliaid, gweithdai BGC, arolwg lles a Dweud eich Dweud Ceredigion).

Roedd mwyafrif y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn teimlo eu bod yn **gysylltiedig â'u hamgylchedd lleol.** Mynegwyd pryderon am ddyfodol yr amgylchedd oherwydd effaith pandemig COVID-19, cynhesu byd-eang, gorboblogaeth a thaflu sbwriel.

**Y prif bwyntiau a fynegwyd yn ystod digwyddiad rhanddeiliaid Give Us Support**

- Pobl ifanc sy'n dymuno gadael y sir er mwyn cael gwaith neu addysg
- Mae tlodi, sicrhau swydd a thai yn y dyfodol yn bryderon
- Diffyg gweithgareddau a mannau i gymdeithasu
- Dyfodol diogelwch cymunedol
- Y pryderon amgylcheddol yw cynhesu byd-eang, gorboblogaeth a thaflu sbwriel

## Cyngor Ieuenctid

Cynhaliodd y **Cyngor Ieuenctid** eu digwyddiad rhanddeiliaid, a fynychwyd gan 17 o bobl ifanc. Mae'r canlynol yn cynnig trosolwg o'r prif bwyntiau a fynegwyd yn ystod y digwyddiad.

**Cyfleoedd i sicrhau swydd, tai, trafnidiaeth, cysylltedd digidol** ac **anghenion yn y dyfodol** oedd y materion a ysgogodd y drafodaeth fwyaf yn ystod y digwyddiad rhanddeiliaid. Unwaith eto, barnwyd bod y cyfleoedd i sicrhau swydd yng Ngheredigion yn negyddol ar y cyfan, a mynegwyd pryderon am y **diffyg swyddi sy'n talu'n uwch** a'r cyfleoedd sydd ar gael. Ystyriwyd tai mewn ffordd debyg, ac roedd **tai anfforddiadwy, rhestr aros hir am dai cyngor, diffyg dealltwriaeth o'r broses brynu** a **diffyg cymorth er mwyn galluogi i bobl iau brynu** yn rhai o'r pryderon a fynegwyd.

Unwaith eto, roedd y bobl iau a oedd yn bresennol yn teimlo bod y **rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus heb gael ei ddatblygu ddigon,** a bod hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i sicrhau swydd. Cynigiwyd awgrymiadau fel mwy o amseroedd bws ar gael, rhwydweithiau bws gwell yn y cymunedau gwledig a rhwydwaith rheilffyrdd sy'n cysylltu gogledd a de Ceredigion.

Pan holwyd am eu hanghenion yn y dyfodol, **cysylltedd digidol o ansawdd gwell, sy'n gyson ac sy'n fwy fforddiadwy** oedd yr ateb mwyaf cyffredin a roddwyd. Amlygwyd codi'r **isafswm cyflog** hefyd, yn ogystal â **gwella cysylltiadau trafnidiaeth** er mwyn galluogi mynediad gwell i gyfleoedd swyddi.

**Yn prif bwyntiau a fynegwyd yn ystod digwyddiad rhanddeiliaid y Cyngor Ieuenctid**

- Cyfleoedd swyddi a diffyg swyddi sy'n talu'n uwch
- Mynediad i dai a thai fforddiadwy
- Cysylltedd digidol o ansawdd gwell, dibynadwy a fforddiadwy
- Trafnidiaeth gyhoeddus heb ei datblygu ddigon

## Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol

Cynhaliwyd digwyddiad rhanddeiliaid gyda'r **Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol** ar 9 Gorffennaf 2021, ac roedd naw o bobl wedi mynychu'r digwyddiad hwn er mwyn mynegi eu safbwyntiau ynghylch lles yng Ngheredigion o ran cydraddoldeb.

Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr yn teimlo bod **cydraddoldeb wedi gwella** yng Ngheredigion ers yr Asesiad Llesiant Lleol diwethaf. Mynegwyd hyn o ganlyniad i'r gwasanaethau newydd y mae'r awdurdod lleol wedi eu rhoi yn eu lle yn bennaf, ac roedd y rhain yn cynnwys y canlynol, ond heb eu cyfyngu iddynt; sefydlu Porth Y Gymuned, creu Tîm Cydlyniant Cymunedol mwy o faint a datblygu Canolfan Lles. Fodd bynnag, teimlwyd bod y pandemig wedi cael effaith negyddol sylweddol ar gyfleoedd cymdeithasol a chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc, yn enwedig ar gyfer pobl sydd ag anableddau. Er mwyn i Geredigion fod yn lle mwy cyfartal, byddai'r Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol yn dymuno gweld mwy o **dai fforddiadwy, trafnidiaeth fforddiadwy a hygyrch, mynediad gwell i'r anabl a gweithio hyblyg.**

Roedd y pryder pennaf yn ymwneud â gwella'r economi leol er mwyn creu **swyddi sy'n talu'n well a swyddi y mae gofyn cael sgiliau uwch i'w cyflawni** er mwyn cadw'r boblogaeth iau a rhoi sylw i'r argyfwng o ran y **boblogaeth sy'n heneiddio.**

**Y prif sialensiau yn y dyfodol ar gyfer lles a chydraddoldeb, a nodwyd gan y Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol**

- Yr angen i wella'r economi leol
- Yr angen am swyddi o ansawdd uwch
- Yr angen am gydraddoldeb ieithyddol
- Tai fforddiadwy er mwyn cadw'r boblogaeth iau

## Cynghrair Gofalwyr Ceredigion

Cynhaliodd BGC ddigwyddiad rhanddeiliaid gyda **Chynghrair Gofalwyr Ceredigion** ar 8 Medi 2021. Roedd un ar ddeg o aelodau'r Gynghrair Gofalwyr wedi cyfrannu eu safbwyntiau am yr hyn y mae angen iddo newid er mwyn sicrhau lles ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mynegwyd y ffaith bod **diffyg gofal amgen** a'r effaith niweidiol ar allu gofalwyr di-dâl i weithio, mynychu hyfforddiant a threulio amser gyda'r teulu yn bryder sylweddol. Unwaith eto, amlygwyd yr angen am **dai priodol a fforddiadwy** gan bod hyn yn effeithio ar y sawl sy'n cael gofal a hefyd, y gofalwyr di-dâl. Mynegodd aelodau'r Gynghrair Gofalwyr eu pryderon dwfn am **allu ennill cyfyngedig** gofalwyr di-dâl, gan bod eu horiau gwaith yn lleihau yn aml, neu efallai y byddant yn rhoi'r gorau i weithio yn gyfan gwbl. Nid yn unig y mae hyn yn cyfyngu ar eu potensial i ennill arian ar hyn o bryd, ond yn y dyfodol hefyd wrth iddynt golli enillion trwy eu pensiwn. Mae caniatáu i ofalwyr di-dâl **fanteisio ar wasanaethau yn eu dewis iaith** yn bwysig iawn iddynt.

Unwaith eto, roedd **gwell hygyrchedd** i'r amgylchedd naturiol yn bwysig i aelodau, a gwnaethpwyd awgrym y dylem ddarparu cadeiriau olwyn sy'n addas i'w defnyddio ar draeth, y byddai modd i'r sawl sy'n cael gofal eu defnyddio. Cyfeiriwyd at **effaith y newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol** ar les economaidd y sawl sy'n cael gofal, er enghraifft, mae hafau poethach wedi golygu bod gofalwyr yn ei chael hi'n heriol cadw'r rhai y maent yn gofalu amdanynt yn oer, a bod nifer wedi adrodd am gostau ynni yn codi.

**Y prif awgrymiadau a fynegwyd er mwyn sicrhau lles gofalwyr a'r sawl sy'n cael gofal yn y dyfodol**

- Cymorth cymheiriaid wyneb yn wyneb i ofalwyr di-dâl
- Ailfodelu taliadau uniongyrchol
- Mwy o ddarpariaeth gofal amgen
- Mwy o ymwybyddiaeth y cyhoedd o amrediad yr anableddau
- Cefnogaeth ac anogaeth gadarnhaol o ddiwylliant dwyieithog

## Grŵp y Lluoedd Arfog

Cynhaliwyd digwyddiad rhanddeiliaid rhanbarthol gyda'r **Grŵp Lluoedd Arfog** fel bod yr aelodau yn cael y cyfle i leisio'u barn am yr hyn y mae angen iddo newid er mwyn sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol.

Unwaith eto, mynegwyd yr angen am **swyddi sy'n talu'n well** yng Ngorllewin Cymru, ac yn aml, mae'r swyddi y mae cyn-filwyr yn chwilio amdanynt yn talu'n is yn y gymuned na'r hyn a dalwyd am eu sgiliau yn y Lluoedd Arfog. Amlygodd aelodau yr angen am **fwy o gymorth a chyngor ynghylch trosglwyddo o'r Lluoedd Arfog i'r farchnad lafur leol** (e.e. cyngor ynghylch sut i lenwi CV, mathau o swyddi addas sydd ar gael). Roedd **integreiddio yn ôl yn y gymuned** yn bwysig i gyn-filwyr, yn ogystal â'r gwerthfawrogiad o'r amgylchedd a mannau yn yr awyr agored. Roedd yr aelodau yn teimlo bod angen gweld **mwy o fuddsoddiad mewn mannau defnyddiadwy yn yr awyr agored** yn eu cymunedau lleol.

**Yr angen am swyddi sy'n talu'n well**

**Mwy o gymorth i gyn-filwyr sy'n ymuno â'r farchnad lafur leol**

**Pwysigrwydd integreiddio yn ôl yn y gymuned**

**Mwy o fuddsoddiad mewn mannau defnyddiadwy yn yr awyr agored**

## Cynghorau Tref a Chymuned – Gogledd Ceredigion

Mae **fforddiadwyedd tai** yn her fawr i'r hen a'r ifanc – mae prisiau tai yn codi'n sylweddol yn y sir ac mae pobl leol yn pryderu am ail gartrefi. Ceir prinder tai addas ar gyfer prynwyr tro cyntaf a phrynwyr tro olaf a fydd yn prynu am y tro olaf. Nid oes unrhyw ddewisiadau i bobl hŷn brynu tai llai o faint sy'n rhatach i'w rhedeg. Mae nifer o bobl hŷn yn profi tlodi tai.

Yr effaith ar yr **iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig** wrth i dai gael eu prynu gan bobl o'r tu allan i Geredigion, ac nid pobl leol. Mae'n bwysig bod yr iaith Gymraeg yn cael ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac un ffordd o helpu i wneud hynny yw trwy ddathlu'r iaith.

**Cyfleoedd i sicrhau swydd –** mae gofyn cael mwy o amrywiaeth o swyddi yn y sir, ynghyd â busnesau mwy o faint. Cymorth busnes – mae angen mwy o gymorth ar gyfer entrepreneuriaid a busnesau llai.

**Economi werdd** – ceir cyfleoedd yng Ngheredigion i ddatblygu economi werdd. Mae angen canolbwyntio ar yr economi amaethyddol ac ystyried gwahanol strwythurau yng Ngheredigion.

**Yr amgylchedd**– mae pobl yn gwerthfawrogi'r amgylchedd mewn cymunedau. Mae glendid a chasglu gwastraff yn bwysig iawn. Mae angen i ni gadw dŵr a thir yn lân hefyd. Mae agweddau tuag at yr amgylchedd lleol yn ased – mae pobl yn falch iawn o'r amgylchedd yng Ngheredigion ac maent yn dymuno bod yn rhan ohono.

**Newid mewn poblogaeth**– mae angen mwy o weithio mewn partneriaeth er mwyn cadw pobl yn y sir.

**Teimlo'n ddiogel** – Nid oes nifer o bobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned, yn enwedig yn Aberystwyth, nad yw'n teimlo mor ddiogel ag yr oedd ddengl mlynedd yn ôl. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi dod yn bryder mawr mewn cymunedau yng Ngheredigion, yn enwedig camddefnyddio cyffuriau yn Aberystwyth. Fodd bynnag, mae nifer o bobl wedi teimlo'n fwy diogel yng Ngheredigion yn ystod y pandemig, yn hytrach nag yr oeddent mewn ardaloedd eraill.

**Y prif bwyntiau a fynegwyd yn ystod digwyddiadau y Cynghorau Tref a Chymuned – Gogledd Ceredigion**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Fforddiadwyedd tai ar gyfer pobl iau a phobl leol | Diogelu'r iaith Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol | Nifer uchel o ail gartrefi | Gwella gwasanaethau gwaredu a chasglu gwastraff | Prisiau mwy fforddiadwy ar gyfer gweithgareddau diwylliannol |

Cynigiodd gwefan Dweud eich Dweud Ceredigion y cyfle i gyfranogwyr ysgrifennu a gwneud sylwadau am 'syniadau' i Geredigion.

Heb os, y peth y soniwyd amdano fwyaf yma oedd **colli mannau gwyrdd** yng Ngheredigion a sut y gallai hyn effeithio ar nifer o wahanol bethau. Rhai o'r pethau yr oeddent yn gofidio pobl ynghylch colli mannau gwyrdd oedd colli bioamrywiaeth, bywyd gwyllt, blodau. Yn ogystal, gall mannau gwyrdd gynnig rhywle i rywun gerdded, gwneud ymarfer corff a gwella eu hiechyd meddwl.

'Syniad' arall y cyfeiriwyd ato oedd y byddai modd defnyddio **eiddo gwag** er mwyn helpu busnesau i gychwyn neu byddai modd eu defnyddio yn lle adeiladu datblygiadau tai newydd ac felly, colli mannau gwyrdd.

**Y prif awgrymiadau a fynegwyd er mwyn sicrhau lles gofalwyr a'r unigolyn sy'n cael gofal yn y dyfodol**

Colli Mannau Gwyrdd

Defnyddio Eiddo Gwag

### Pobl Ifanc (17-24 oed)

Roedd 7% o’r holl ymatebion i’n Harolwg Lles wedi cael eu gwneud gan bobl ifanc rhwng 17 a 24 oed, a chafwyd 28 ymateb gan y garfan oedran hon at ei gilydd.
Er mwyn helpu i wneud pethau yn decach i bawb, byddai pobl ifanc fwyaf tebygol o siarad gyda rhywun o wahanol gefndir, credo a/neu rywun sy’n anabl (75%) o’i gymharu gyda 56% o’r holl ymatebwyr. Yn ogystal, byddai pobl iau yn fwy tebygol o adrodd am drosedd casineb (71%) o’i gymharu gyda 63% o’r holl ymatebwyr.
Roedd nifer o’r ymatebion eraill gan bobl iau yn cyfateb â’r prif atebion trwy gydol yr arolwg. Wedi dweud hyn, roedd pobl iau yn fwy tebygol o ystyried ailgylchu yn fwy (79%) o’i gymharu gyda 74% o gyfanswm yr ymatebwyr, er mwyn gwella eu hamgylchedd lleol. Roedd pobl iau yn llai tebygol o ystyried lleihau gwastraff (64%) o’i gymharu gyda 73% o’r holl ymatebwyr eraill.

### Yr Iaith Gymraeg (y rhai sy’n gallu deall Cymraeg llafar)

Nododd dros hanner (54%) yr ymatebwyr i’n Harolwg Lles eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar, sef 215 o ymatebwyr. Dywedodd 147 o ymatebwyr **nad** ydynt yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu na deall Cymraeg (37%).
Gwelwyd gwahaniaethau rhwng y ddau grŵp hwn mewn rhai atebion, yn enwedig y rhai ynghylch yr iaith Gymraeg. Dywedodd dros 53% o’r ymatebwyr a oedd yn gallu deall Cymraeg llafar y byddent yn ystyried cymryd rhan mewn cynlluniau i gynorthwyo pobl ifanc i fyw a gweithio yn yr ardal leol er mwyn sicrhau diwylliant bywiog a bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu, ac mae hyn yn cymharu â 30% o’r rhai nad ydynt yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu na deall Cymraeg.
Roedd 19% o’r ymatebwyr a oedd yn gallu deall Cymraeg llafar yn credu bod diffyg ysgolion/colegau Cymraeg yn rhywbeth sy’n eu pryderu fwyaf am ddiwylliant bywiog y sir a’r ffaith bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu ynddi yn y dyfodol. Mae hyn yn cymharu â 3% o’r rhai nad ydynt yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu neu ddeall Cymraeg.

### Grwpiau Ethnig

Dywedodd 11 o ymatebwyr (3%) mai eu grŵp ethnig yw ‘Gwyn arall, gan gynnwys Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig’, roedd 4 (1%) ymatebydd yn perthyn i grwpiau ethnig cymysg/lluosog, nododd 3 eu bod yn perthyn i grŵp ethnig arall (Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon, Groegwr/Groeges, Iddew/Iddewes Cymreig, Canadiad Gwyn) a dywedodd 1 ymatebydd (0%) mai Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig oedd eu grŵp ethnig.
Gwelir tueddiadau tebyg yng nghanlyniadau’r lleiafrifoedd ethnig ag y gwelir yng nghanlyniadau cyffredinol yr arolwg. Er enghraifft, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr o’r lleiafrifoedd ethnig y byddent yn ystyried lleihau gwastraff (89%), ailgylchu mwy (89%) a defnyddio bwyd a gynhyrchir yn lleol (89%) i wella eu hamgylchedd lleol.
Dywedodd 72% o’r ymatebion gan leiafrifoedd ethnig bod rhagfarn yn rhywbeth sy’n eu pryderu fwyaf am eu cymuned yn y dyfodol, o’i gymharu gyda 42% o gyfanswm yr ymatebwtyr. Yn ogystal, nododd 72% o’r ymatebion gan leiafrifoedd ethnig y byddent yn dymuno dysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg, o’i gymharu gyda 46% o blith cyfanswm yr ymatebwyr.

### Ymatebwyr sydd ag anabledd neu broblem iechyd

O blith y 405 o ymatebwyr i’r arolwg, roedd gan 82 (20%) broblem iechyd neu anabledd sy’n cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Yn gyffredinol, roedd y tri ateb pennaf a roddwyd gan ymatebwyr sydd â phroblem iechyd neu anabledd sy’n cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, yn debyg i’r rhai a roddwyd gan yr holl ymatebwyr, fodd bynnag, mewn rhai meysydd, megis yr adrannau economaidd ac iechyd, roedd trefn yr ymatebion mwyaf cyffredin yn amrywio.
Roedd ymatebwyr sydd ag anabledd neu broblem iechyd yn rhoi mwy o werth ar *rwydwaith trafnidiaeth da* (54%) o’i gymharu â 45% o’r holl ymatebwyr. Gall trafnidiaeth gyhoeddus fod yn allweddol i bobl sydd ag anableddau a phroblemau iechyd, oherwydd efallai nad yw rhai ohonynt yn berchen ar gar neu nid ydynt yn gallu gyrru. Rydym yn gwybod bod trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngheredigion wedi dioddef toriadau i’r gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf ac mae rhai llwybrau wedi cael eu terfynu, ac mae hyn wedi cael effaith anghymesur ar y grŵp hwn.

Yn ogystal, roedd y grŵp hwn yn pryderu mwy ynghylch *methu gallu cael cymorth pan yn anhwylus ac yn methu gofalu am eu hunain* (52%), o’i gymharu gyda 33% o gyfanswm yr ymatebwyr. Nid yw hyn yn peri syndod, oherwydd

efallai bod gan bobl sydd ag anableddau neu broblemau iechyd fwy o ymwybyddiaeth o'u goblygiadau iechyd yn barod, a sut y gallai'r rhain waethygu wrth iddynt fynd yn hŷn.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Nododd 1 ymatebydd eu bod yn disgwyl baban, nododd 2 ymatebydd eu bod wedi cael baban yn ystod y chwe mis diwethaf a nododd 1 ymatebydd eu bod ar gyfnod o absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd.
Nid yw'n peri syndod bod mwyafrif yr ymatebwyr hyn (3 o 4 neu 75%) yn nodi bod gofal plant digonol a fforddiadwy yn rhywbeth y byddai angen iddo fod yn ei le er mwyn iddynt wella eu ffyniant, o'i gymharu ag 16% yn unig o blith cyfanswm yr ymatebwyr. Yn ogystal, nododd mwyafrif yr ymatebwyr hyn (75%) mai ysgolion yn paratoi ein plant ar gyfer byd sy'n newid ac i fod yn arweinwyr newid oedd un o'r tri phrif bethau y maent yn ei werthfawrogi fwyaf ynghylch bod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang, o'i gymharu gyda 24% o'r holl ymatebwyr.

**Rhyw**

Roedd llawer yn fwy o'r ymatebwyr i'n harolwg yn lles yn fenywod. O blith y 405 o ymatebwyr i'r arolwg, roedd 280 yn fenywod (69%), roedd 112 (28%) yn wrywod, ac roedd yn well gan 5 (1%) ddefnyddio term arall.
Wrth ystyried cymuned lewyrchus, roedd cyfranogwyr gwrywaidd yn rhoi mwy o bwys ar ddiogelwch incwm nag yr oedd menywod, wrth i 48% ddewis incwm sefydlog o'i gymharu gyda 34% o fenywod. O ran gofal iechyd, roedd mwy o wrywod (54%) yn pryderu am fethu gallu manteisio ar ofal iechyd neu gymorth arall, mor agos i'w cartref ag y bo modd neu a fyddai ar gael trwy dechnoleg, na menywod (33%).
Roedd mwyafrif (80%) yr ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt ddefnyddio term arall am eu rhyw yn pryderu am gyflogwyr/darparwyr addysg yn anfodlon gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer cyflogeion o wahanol oed, rhyw, hil, cefndir a/neu sy'n anabl, yn y dyfodol. Mae hyn yn cymharu â 24% o fenywod ac 16% o wrywod. Roedd 100% o'r ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt ddefnyddio term arall am eu rhyw, yn gwerthfawrogi pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch yn fwy na gwrywod (50%) a benywod (50%).

**Ailbennu Rhywedd**

Nododd 32 o ymatebwyr (8%) nad yw eu rhyw yr un fath â'r rhyw a neilltuwyd iddynt ar eu genedigaeth. Roedd nifer o'r ymatebion o'r grŵp hwn yn adlewyrchu'r canlyniadau cyffredinol o'r arolwg lles. Gwelwyd rhai eithriadau o ran bod yn gyfartal ac o ran cydlyniant cymunedol, fel y trafodir isod.
O ran sicrhau bod pethau yn decach i bawb, roedd y rhai a nododd nad oedd eu rhyw yr un fath â'r hyn a neilltuwyd iddynt ar eu genedigaeth yn fwy tebygol o adrodd am drosedd casineb (72%) o'i gymharu gyda 58% o'r holl ymatebwyr. Gan gyd-fynd â hyn, roedd y nodwedd hon yn fwy tebygol o fynegi pryder ynghylch triniaeth annheg (66%) o'i gymharu gyda'r holl ymatebwyr (56%), er mwyn gwneud pethau yn decach i bawb.
Er mwyn sicrhau cydlyniant cymunedol da, roedd y rhai a nododd nad oedd eu rhyw yr un fath â'r un a neilltuwyd iddynt ar eu genedigaeth yn credu bod angen mwy o wybodaeth am wasanaethau lles yng Ngheredigion (53%), o'i gymharu gyda 39% o'r holl ymatebwyr.

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

Nododd cyfanswm o 41 o ymatebwyr nad ydynt yn heterorywiol/strêt. Nododd 21 ymatebydd (5%) eu bod yn ddeurywiol, nododd 7 ymatebydd (2%) eu bod yn fenyw hoyw/lesbiad, nodwyd arall gan 8 ymatebydd (2%) a dywedodd 5 ymatebydd (1%) eu bod yn ddyn hoyw.
Er mwyn sicrhau cydlyniant cymunedol da, roedd y rhai a nododd nad ydynt yn heterorywiol/strêt yn llawer mwy tebygol o herio stereoteipio negyddol (71%), o'i gymharu gyda 43% o'r holl ymatebwyr. Yn ogystal, roedd yr ymatebwyr hyn yn credu y dylem werthfawrogi amrywiaeth cefndiroedd ac amgylchiadau pobl yn fwy mewn ffordd gadarnhaol (63%) o'i gymharu gyda 42% o'r holl ymatebion.
Dywedodd 63% o'r ymatebwyr a nododd nad ydynt yn heterorywiol/strêt y byddai angen iddynt deimlo'n hyderus na fyddai mynegi pryderon am driniaeth annheg/adrodd am drosedd casineb yn cael canlyniadau negyddol iddyn nhw neu eu teulu, er mwyn sicrhau bod pethau yn decach i bawb, o'i gymharu gyda 51% o'r holl ymatebion. Yn ogystal, o ran ceisio sicrhau cydraddoldeb i bawb, roedd y rhai nad ydynt yn heterorywiol/strêt yn fwy tebygol o fod yn dymuno siarad gyda rhywun o wahanol gefndir, credo a/neu sy'n rhywun anabl (73%), o'i gymharu gyda 52% o'r holl ymatebwyr.

## Priodas a Phartneriaethau Sifil

Nododd hanner yr ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn briod (50%), nododd 24% eu bod yn sengl, nododd 10% eu bod wedi ysgaru/gwahanu, roedd 5% mewn Partneriaeth Sifil ac roedd 5% yn Wŷr/Gwragedd Gweddw.
Un maes lles y gwelwyd rhai gwahaniaethau rhwng y grwpiau hyn oedd ynghylch Ceredigion iachach. Roedd y gwŷr/gwragedd gweddw yn pryderu mwy ynghylch dim cael mynediad i ofal iechyd neu gymorth arall, mor agos i'r cartref ag y bo modd neu ar gael trwy dechnoleg (61%), ac roedd hyn yn cymharu gyda 57% o'r rhai a oedd yn briod neu mewn partneriaeth sifil, 56% o'r rhai a oedd wedi ysgaru neu wahanu a 40% o'r rhai a oedd yn sengl.

## Crefydd a Chredoau

Nododd rhan fwyaf ein hymatebwyr nad oes ganddynt grefydd (50%) neu eu bod yn Gristion (pob enwad) (29%).
Dywedodd 1 ymatebydd eu bod yn Iddew/Iddewes (0%), dywedodd 1 eu bod yn Fwslim (0%), nododd 4 ymatebydd (1%) eu bod yn Fwdhydd a dywedodd 17 ymatebydd eu bod yn rhan o grefydd arall (4%).
Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr a nododd eu bod yn Iddew/Iddewes, Mwslim, Bwdhydd neu arall (74%) mai cael eu derbyn am bwy ydynt yw un o'r pethau y maent yn ei werthfawrogi fwyaf am fyw mewn cymdeithas gyfartal, ac roedd hyn yn cymharu gyda 41% o'r rhai a nododd eu bod yn Gristion neu heb grefydd.
Yn ogystal, er mwyn sicrhau cydlyniant cymunedol da, byddai 42% o'r rhai sy'n Gristnogion neu heb grefydd yn herio stereoteipio negyddol, o'i gymharu gyda 65% o'r rhai a nododd eu bod yn Iddew/Iddewes, Mwslim, Bwdhydd neu arall.

# 12: Adborth o’r Gweithdai gyda’r Grwpiau Prosiect

Yn ystod Mai a Gorffennaf 2021 cynhaliwyd nifer o weithdai gyda Grwpiau Prosiect BGC Ceredigion, fel rhan o’r paratoadau i’r Asesiad o Lesiant Lleol. Roedd y gweithdai yma yn cynnwys arolygon barn ryngweithiol a thrafodaeth cwestiynau. Nod y gweithdai oedd recordio’r adborth cychwynnol o’r themâu llesiant yn y sir, adnabod unrhyw ffynonellau data a hefyd i gasglu barnau wrth baratoi ar gyfer ymgysylltu ac ysgrifennu’r Asesiad. Roedd y gweithdai yn llwyddiannus ac isod mae yna restr o’r prif ddarganfyddiadau.

## MENTER AC ARLOESEDD

- **Fforddiadwyedd Tai** - Costau tai yn cynyddu sydd yn golygu bod hi’n anodd i bobl leol brynu tai.
- **Economi** – bydd yr economi yn gweld heriau oherwydd y **newidiadau demograffig**, yn benodol y boblogaeth sydd yn heneiddio a’r all-fudiad o bobl ifanc.
- Gall **prinder sgiliau** dal busnesau yn ôl, yn benodol, bydd y sector adeiladu yn debygol o weld prinder sgiliau.
- Mae angen **swyddi gyda thal gwell** yn yr economi i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc er mwyn iddynt allu aros yn yr ardal.
- **Colli sgiliau** – pryderon bod pobl medrus o ardaloedd lleol yn symud i mannau arall.
- Os bydd ardaloedd gwledig yn cael problemau wrth gael mynediad at **fand llydan cyflym** bydd hyn yn gallu dal busnesau yn ôl, yn benodol ffermwyr a chynhyrchion bwyd.
- Mae yna orddibyniaeth ar y **sector cyhoeddus** yng Ngheredigion, ac mae angen creu mwy o fusnesau **sector preifat**, yn enwedig busnesau maint canolig a mawr.
- Mae’r **sector twristiaeth** wedi gwella ers pandemig COVID-19. Mae ymwelwyr yn dod i Geredigion yn fwy aml am wyliau byr.
- Mae’r sector breifat yn hanfodol i greu **cyfleoedd swyddi** i bobl ifanc ac i gadw nhw yn yr ardal.
- Mae mwy o fusnesau yn **masnachu ar-lein** ac mae cwsmeriaid yn fwy ymwybodol am sut maent yn gallu **cefnogi busnesau lleol a phrynu yn lleol**.
- Un ‘mantais’ o COVID-19 ydy’r **ymwybyddiaeth well o les meddyliol** yn y gweithle ac mae busnesau wedi bod yn cefnogi ei staff mwy.

## NEWID HINSAWDD AC ADNODDAU NATURIOL

- Mae ymgysylltiad uwch mewn **cynaliadwyedd** wedi gwella.
- Mae datganiad o’r **Argyfwng Hinsawdd** wedi cydnabod pwysigrwydd y sefyllfa.
- Mae gostyngiad wedi bod o deimlo’n **rhan o’r gymuned** yn benodol oherwydd y cyfyngiadau COVID-19.
- Mae cynyddiad o deimladau **pryderus** o fewn cymunedau oherwydd COVID-19 a mwy o bryderon o gwmpas **ymddygiad** ac **iechyd.**
- Mae **trafnidiaeth gyhoeddus yn dirywio** - mae pobl sydd ddim yn berchen cerbyd ei hunan methu dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- Mae **colled rhywogaethau a bioamrywiaeth** yn broblem fawr.

- Mae **lefelau ffosffadau** yn yr afon Teifi yn bryder ond mae wedi'i adnabod ac mae hyn yn golygu bod camau'n cael eu cymryd.
- Roedd y datganiad o **Argyfwng Natur** gan y Senedd yn bositif.
- Bydd cynyddiad yn y nifer o **ddigwyddiadau tywydd eithafol** megis cynyddiad mewn tymereddau yn golygu bod angen i ni feddwl fwy am gadw tai yn oerach yn yr haf ac wedi insiwleiddio yn dda yn ystod y gaeaf.
- **Newid poblogaeth** - her i gydbwyso dosbarthiad oedran y boblogaeth, h.y. cyfleoedd ailhyfforddi a sgiliau i gadw pobl yn y sir.
- Bydd ceisio bod yn **Garbon Niwtral** erbyn 2030 yn cynnwys costau mawr.
- Gall **cynnydd yn lefelau'r môr** meddwl bod rhai ardaloedd o dan dŵr mewn 40 mlynedd.

## CYD-LEOLI AC INTEGREIDDIO GWASNANAETHAU RHENG FLAEN

- Mae **cefnogaeth y Blynyddoedd Cyntaf** ac yn benodol bydwreigiaeth yn llwyddiannus yng Ngheredigion.
- Mae **gofal plant hygyrch a fforddiadwy** wedi dod llawer yn fwy pwysig, roedd pandemig COVID-19 a'r Hybiau Gofal plant a chrëwyd i blant y gweithwyr allweddol wedi amlygu hyn.
- Mae gan gyflogwyr mwy o ddealltwriaeth am **heriau gofal plant** yn dilyn COVID-19 ac mae cyflogwyr nawr yn fwy bodlon i staff bod yn hyblyg o ran ei anghenion gofal plant.
- Mae yna **llai cyfleoedd gofal plant** yn dilyn COVID-19 - mae 4 clwb ar ôl ysgol wedi cau ac mae angen i rieni sydd yn gweithio o gartref fod yn fwy hyblyg.
- Mae **problemau recriwtio** yn golygu bod llai o weithwyr gofal plant a rhai rhieni/plant yn cael ei throi i ffwrdd.
- Mae'r pandemig hefyd wedi amlygu'r ffaith bod **lefel tal gofalwyr** ddim yn adlewyrchu ei dyletswyddau.
- Mae yna **nifer o bobl ifanc medrus** yng Ngheredigion, ond does dim modd iddynt gael y swyddi maent yn gymwys i wneud. Er enghraifft, mae rhestr aros hir am brofion gyrru sydd yn golygu does dim ganddynt drwydded gyrru, mae hyn yn hanfodol yng Ngheredigion.

## HYFFORDDIANT CYDNERTHEDD

- Mae yna mwy o ymwybyddiaeth o **lesiant cyflogwyr** yn dilyn COVID-19.
- Mae **mynediad i wasanaethau gwledig** wedi gwella yn ystod pandemig COVID-19 ac mae gwasanaethau nawr yn cael ei darparu ar-lein, sydd yn well i bobl ifanc yn enwedig. Er enghraifft, mae'r drosglwyddeb o wersi ar-lein (e-sgol), yn cynyddu hygyrchedd plant sydd eisiau uno a gwersi penodol ac yn darparu ffordd fwy hyblyg o weithio.
- Mae **gweithio hyblyg** wedi gwella gan fod pobl nawr yn gweithio yn ystod amseroedd sydd yn fwy cyfleus i'w bywyd cartref, mae hyn yn cael effaith positif ar lesiant unigolion. Mae yna hefyd derbyniad gwell o weithio hyblyg a'r ffaith bod yn gallu buddio sefydliadau a ddim yn effeithio'n negyddol ar gynhyrchaeth.
- Mae'r **cyfryngau cymdeithasol** yn cael ei defnyddio fel platfform i bobl i gael cefnogaeth well mewn perthynas i heriau llesiant.

- Mae **gweithio o bell** wedi achosi mwy o heriau o ran cefnogi pobl sydd yn cael trafferth gyda'i iechyd meddwl. Mae'n fwy annod i bobl ymestyn allan am gefnogaeth a hefyd i reolwyr sylwi ar unrhyw broblemau.
- Mae'r **cyfyngau cymdeithasol** yn negatif ac yn bositif. Mae plant, yn enwedig, yn defnyddio ffonau symudol a'r cyfyngau cymdeithasol mwy yn lle fynd allan i chwarae.

## DEALL EIN CYMUNEDAU

- Mae pandemig COVID-19 wedi bod yn bositif wrth **ddod a phobl a chymunedau at ei gilydd**.
- Mae'r defnydd cynyddol o'r **cyfryngau cymdeithasol** yn gallu cael ei weld yn negyddol neu yn bositif.
- Mae pethau fel COVID-19 a Brexit wedi cael effaith ar **gydlyniad cymunedol**, mae pobl gyda barnau cryf ac maent yn lleisio ei barnau sydd yn achosi i densiynau cymunedol cynyddu.
- **Colled swyddi a diffyg diogelwch ariannol** oherwydd COVID-19.
- **Mynediad at wasanaethau** - mae COVID wedi amlygu'r problemau **gwledig** a'r rhai sydd wedi'i **heithrio'n ddigidol.**
- Mae **Iechyd Meddwl** yn bryder gan fod pobl yn teimlo'n mwy **unig** ac mae yna cynyddiad mewn **pryderon** o gwmpas pethau yn mynd yn ôl i normal ar ôl COVID-19. Mae yna hefyd bryder o gwmpas oediadau **gofal iechyd** o ganlyniad i'r pandemig.
- Mae **cydlyniad cymunedol** yn ymofyn am ardaloedd ble all pobl o gefndiroedd gwahanol dod at ei gilydd.
- Mae gan Geredigion **poblogaeth sydd yn heneiddio** ac mae'n debygol bydd a**nghenion gofal iechyd yn cynyddu**. Mae hyn yn cyd-fynd gyda'r gostyngiad yn y boblogaeth oedran gwaith. Mae yna bryderon o gwmpas sut fydd y sector iechyd yn ymdopi.
- **Pryderon amgylcheddol** o gwmpas newid hinsawdd a'r angen i ddiogelu'r amgylchedd.
- **Fforddiadwyedd Tai** - Mae diffyg tai yng Ngheredigion ac yn enwedig diffyg tai fforddiadwy i bobl ifanc yn achosi i bobl ifanc symud allan o'r sir. Mae pobl yn prynu ail dai mewn mannau gwledig sydd yn achosi pryderon cydlyniad cymunedol.